GIG CYMRU NHS WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Swansea Bay University Health Board

ADRODDIAD BLYNYDDOL

2019-20

NEGES GAN Y CADEIRYDD A'R PRIF WEITHREDWR

Mae'n bleser gennym gyflwyno hwn, ein hadroddiad blynyddol cyntaf fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, ac adroddiad cyntaf Emma fel ein Cadeirydd newydd. Dechreuon ni fel sefydliad gwahanol ym mis Ebrill 2019, wedi i'r cyfrifoldeb comisiynu ar gyfer poblogaeth Pen-y-Bont ar Ogwr gael ei drosglwyddo i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Er y tristwch wrth golli cydweithwyr a oedd yn symud i sefydliad arall, roedd cyffro hefyd wrth i ni ddatblygu ein cynlluniau a'n huchelgeisiau ar gyfer Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.

Rydym wedi parhau i ddatblygu ein strategaeth *Iechyd Gwell, Gofal Gwell, Bywydau Gwell* ac wedi gwneud cynnydd o ran ein penderfyniad i wneud iechyd a lles yn brif flaenoriaeth ar gyfer y boblogaeth rydym yn ei gwasanaethu. Yn dilyn llwyddiant Clwstwr Cwmtawe, mae'r dull 'systemau cyfan' yn galluogi pob un o'n wyth clwstwr o feddygon teulu i arwain system iechyd a gofal cymdeithasol integredig ar gyfer eu hardaloedd, sy'n cynnwys gwasanaethau gwirfoddol, practisau meddygon teulu a rheolwyr timoedd iechyd a gofal cymdeithasol integredig, sy'n darparu ystod o wasanaethau gofal sylfaenol a lles drwy eich meddygon teulu. Ariennir hyn drwy'r gronfa trawsnewid genedlaethol, a gyhoeddwyd ar yr un pryd â *Cymru Iachach* er mwyn cefnogi modelau newydd o iechyd a gofal cymdeithasol lleol, sy'n cael eu darparu drwy fyrddau partneriaeth rhanbarthol. Un arall yw ein menter 'Adre o'r Ysbyty', sy'n golygu ffyrdd newydd o weithio er mwyn darparu gofal yn nes at y cartref, yn unol ag athroniaeth *Gofal Iechyd Darbodus*.

Nid yw'n bosib cyflawni *Iechyd Gwell, Gofal Gwell, Bywydau Gwell* heb y gefnogaeth, yr her a'r ymroddiad a geir gan ein partneriaid, yn arbennig awdurdodau lleol Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe, ein helusennau lleol, Prifysgol Abertawe a Llywodraeth Cymru. Yn sgil y cydweithredu sy'n digwydd drwy ein bwrdd partneriaeth rhanbarthol, sef bwrdd a ailenwyd yn Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg yn sgil newid y ffiniau, bu'n bosib i ni ddatblygu nid yn unig ein gofal sylfaenol a'n gwasanaethau 'Adre o'r Ysbyty', ond hefyd ddull newydd o ddarparu ein gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer plant a phobl ifanc (CAMHS) a'n fframwaith ar gyfer gwasnaethau iechyd meddwl i oedolion.

Ffarweliwyd â'n Cadeirydd, Andrew Davies, ym mis Mehefin 2019. Mae Andrew yn gadael gwaddol gadarn o ran ein gwerthoedd sefydliadol, sef *Gofalu am ein Gilydd, Gweithio gyda'n Gilydd a Gwella Bob Amser*. Fe hyrwyddodd y rhain yn ddiflino drwy gydol ei gyfnod yn y swydd ac rydym yn benderfynol y dylent barhau'n greiddiol i'n hymddygiad a'n hymagwedd. Yn dilyn ymadawiad Andrew, penodwyd Emma yn Gadeirydd dros dro. Yn dilyn proses ddethol drwyadl, cafodd ei chadarnhau'n Gadeirydd parhaol yn Ebrill 2019. Rydym yn ddiolchgar i Martyn Waygood am gymryd lle Emma fel Is-gadeirydd dros dro. Bu hefyd yn bleser croesawu Nuria Zolle fel ein haelod trydydd sector annibynnol. O ran ein cyfarwyddwyr gweithredol, gadawodd Sandra Husbands, Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus, a Lynne Hamilton, y Cyfarwyddwr Cyllid, a ymddeolodd yn Chwefror 2020. Roeddem yn falch o groesawu Keith Reid fel Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus; roedd hynny dros dro i ddechrau ac yna, yn dilyn proses recriwtio, cafodd ei benodi'n barhaol yn Rhagfyr 2019. Mae Darren Griffiths wedi ymgymryd â rôl y Cyfarwyddwr Cyllid dros dro ac rydym yn ddiolchgar iddo am gefnogi'r Bwrdd Iechyd yn ystod y cyfnod hwn.

Rydym yn gwybod bod cael staff sy'n hapus, sydd wedi eu hyfforddi'n dda ac sy'n frwdfrydig, yn hanfodol er mwyn sicrhau eu bod yn gallu rhoi'r gofal a'r profiad o ansawdd mae pob un ohonom am eu gweld a'u derbyn. Mae rhoi ein gwerthoedd wrth wraidd ein holl ymddygiadau'n golygu gwneud yn siŵr bod pob aelod o staff yn teimlo eu bod wedi eu galluogi a'u grymuso i wneud eu gwaith a'u bod yn teimlo'n hyderus i ddweud wrthym pan nad yw pethau'n iawn yn eu meysydd. Dau ddatblygiad allweddol yn 2019 oedd inni ddechrau ar ein rhaglen o uwchgynadleddau arweinyddiaeth, lle mae siaradwyr mewnol ac allanol yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf am yr arferion arwain gorau, a'r peilot ar gyfer *The Guardian Service,* sy'n darparu gwasanaeth annibynnol ar gyfer lleisio barn. Roeddem wrth ein boddau fod un o'n nyrsys, Jean Saunders, wedi ei choroni'n 'Nyrs y Flwyddyn' gan Goleg Nyrsio Brenhinol Cymru am ei gwaith yn cefnogi'r ceiswyr lloches sydd yn ei gofal. Mae'n dangos y pwyslais rydym yn ei roi ar ofal a phrofiad y claf, ynghyd ag ar gydraddoldeb ac amrywiaeth, felly roedd gweld rhai o'n nyrsys eraill ar y rhestr fer, yn ogystal â chael un ohonynt yn derbyn gwobr fel hon, yn gyflawniad ardderchog.

O ran perfformiad, roedd 2019/20 yn flwyddyn heriol. Roedd ein perfformiad o ran gofal heb ei drefnu'n llawer is nag y dylai fod. Er nad oedd y nifer o dderbyniadau brys yn sylweddol uwch nag a gafwyd o'r blaen, roedd gan y rheini a dderbyniwyd i'r ysbyty gyflyrau mwy cymhleth, ac yn sgil hynny roeddent yn aros yno'n hirach. Creodd hyn bwysau gweithredol sylweddol, a olygai, ynghyd â'r newidiadau i reolau'r dreth bensiwn, nad oedd yn bosib i'r gofal roeddem wedi ei gynllunio gael ei ddarparu i'r lefelau angenrheidiol. Mae'r ffactorau hynny, ynghyd â'r ffaith nad oeddem yn gallu gostwng ein sylfaen gostau yn dilyn trosglwyddo Pen-y-Bont ar Ogwr, yn golygu na wnaethom fantoli'r gyllideb fel yr oeddem wedi ei obeithio ar ddechrau'r flwyddyn. Dros y flwyddyn, sylweddolom fod darparu gofal heb ei drefnu yn sylfaenol er mwyn darparu profiad gwell ar gyfer y claf ac er mwyn gwella ein perfformiad gweithredol. Fe weithiom ar gynllun cynhwysfawr ar gyfer y gaeaf, gydag 'Adre o'r Ysbyty' yn elfen allweddol, a dechreuwyd gweld rhai gwelliannau ar ôl y Nadolig.

Rydym yn gorffen y flwyddyn ar adeg hynod o heriol, nid yn unig ar gyfer y Bwrdd Iechyd, Cymru a'r DU, ond yn fyd-eang hefyd, wrth i'r byd barhau i ymateb i bandemig Covid-19. Mae'r ymroddiad a'r ymateb rydym wedi eu gweld gan ein staff wrth i'r pandemig ddwysáu wedi bod yn rhyfeddol, gan dystio i waith caled ac ymroddiad ein pobl yn eu swyddi o ddydd i ddydd. Rydym yn cydnabod bod hon yn adeg hynod o ofidus a phryderus i ni i gyd gan nad ydyn ni, wrth lunio'r ddogfen hon, yn gwybod beth a ddaw yn y dyfodol. Fodd bynnag, rydym yn glir bod yn rhaid achub ar bob cyfle i ddysgu o'r newid sylweddol rydym wedi'i wneud a chadw'r gwelliannau lle bynnag y bo hynny'n bosib.

Rydym yn diolch i'n staff, eich cleifion, ein partneriaid a'n cymunedau lleol am ein cefnogi ni i barhau i ddarparu gofal i'n cleifion a gwella iechyd ein poblogaeth leol.

Cadwch yn ddiogel.



Emma Woollett, Cadeirydd



Tracy Myhill, Prif Weithredwr

BETH FYDD YR ADRODDIAD BLYNYDDOL HWN YN EI DDWEUD WRTHYCH

Mae adroddiad blynyddol Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe'n rhan o gyfres o ddogfennau am ein sefydliad. Mae'n adrodd stori'r gwasanaethau a'r gofal rydyn ni'n eu darparu, yr hyn rydym yn ei wneud er mwyn cynllunio, darparu a gwella gofal iechyd ar eich cyfer chi, a sut rydym yn bwriadu cwrdd â galwadau newidiol a heriau'r dyfodol. Mae'n rhoi gwybodaeth am sut rydym wedi perfformio eleni, yr hyn rydym wedi ei gyflawni yn 2019-20 a'n nodau er mwyn gwella ymhellach y flwyddyn nesaf. Mae'n esbonio sut rydym yn gweithio gyda'n cleifion, ein staff a'n cymunedau lleol i ddatblygu gwasanaethau ar gyfer y dyfodol, a sut gallwn gydnabod gwerth gwrando arnoch chi a'ch anghenion wrth i ni gynllunio ein gwasanaethau i'r dyfodol.

Mae ein hadroddiad blynyddol yn cynnwys:

- Ein **hadroddiad perfformiad**, sy'n manylu ar sut rydym wedi perfformio yn erbyn ein tagedau a sut y byddwn yn ceisio cynnal neu wella ein perfformiad ymhellach;
- Ein **hadroddiad atebolrwydd**, sy'n rhoi gwybodaeth am sut rydym yn trin a rheoli ein hadnoddau a'n risgiau, ac yn cydymffurfio â'n trefniadau llywodraethu ein hunain.
- Ein **hadroddiad ariannol**, sy'n manylu ar sut rydym wedi gwario'r cyllid a ddyranwyd inni wrth gyflawni ein rhwymedigaethau.

Os byddwch chi'n dymuno copïau o unrhyw un o'r cyhoeddiadau hyn ar ffurf print neu/a mewn ffurfiau neu ieithoedd eraill, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod:

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe,
1 Porthfa Talbot, Port Talbot, SA12 7BR
01639 683376
SBU.boardservices@wales.nhs.uk

Ynglŷn â Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe: Y Gwasanaethau a Ddarperir Gennym



Sefydlwyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ym mis Ebrill 2019, gyda chyfrifoldeb dros anghenion iechyd, yn ogystal â thros gomisiynu, cynllunio a darparu gofal iechyd ar gyfer pobl Castell-nedd Porth Talbot ac Abertawe. Nid gwaith a gyflawnir gan y Bwrdd Iechyd ar ei ben ei hun yw hwn, a cheir perthynas gref ag awdurdodau lleol a sefydliadau GIG Cymru eraill, yn ogystal â thrwy drefniadau partneriaeth rhanbarthol fel byrddau gwasanaeth cyhoeddus a Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg.

Ein bwriad yw i'r Bwrdd Iechyd symud i fod yn sefydliad sy'n canolbwyntio ar iechyd y boblogaeth, gan gomisiynu gwasanaethau i gwrdd ag anghenion y claf ac anghenion y gymuned. Mae ein dau nod strategol, *Cefnogi Iechyd Gwell* a *Cyflawni Gofal Gwell*, a'r amcanion galluogi sy'n gysylltiedig â'r rhain, yn glir o ran ein huchelgais i newid, a byddant yn canolbwyntio fwyfwy ar weithio gyda'n partneriaid er mwyn gwella lles ein poblogaeth.

Ein Gwasanaethau

Mae dau wasanaeth Cymru gyfan hefyd yn cael eu darparu gan y Bwrdd Iechyd:

- Y Gwasanaeth Casglu a Throsglwyddo Meddygol Brys (EMRTS) - mae'n darparu penderfyniadau blaengar a gofal critigol ar gyfer argyfyngau sy'n bygwth bywyd neu aelodau o'r corff, pan fo angen trosglwyddo cleifion i gyfleuster addas er mwyn cael triniaeth lle mae amser yn dyngedfennol.

- Uned Gyflawni GIG Cymru - mae'n darparu cefnogaeth broffesiynol i Lywodraeth Cymru i fonitro a rheoli perfformiad ar draws GIG Cymru.

Y Partneriaid Rydym yn Cydweithio â Nhw

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio mewn partneriaeth gyda nifer o sefydliadau, yn cynnwys awdurdodau lleol, Prifysgol Abertawe sefydliadau GIG eraill sy'n cynnwys Cydweithfa GIG Cymru a'r trydydd sector. Yn ogystal â hyn, mae ganddo grwpiau

gweithredol ar y cyd â byrddau iechyd Caerdydd a'r Fro, Cwm Taf Morgannwg a Hywel Dda. Tan yn ddiweddar, yr enw ffurfiol ar y fforymau gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda oedd y Cyd-bwyllgor Cynllunio a Chyflawni Rhanbarthol (JRPDC). Roedd Llywodraeth Cymru'n aelod ohono a chafodd ei sefydlu er mwyn cefnogi ac egluro'r penderfyniadau a wnaed am wasanaethau clinigol ar draws y ddau fwrdd iechyd. Yn sgil y cynnydd a wnaed, cytunwyd i dynnu'n ôl o'r trefniadau ffurfiol ar gyfer y pwyllgor ym mis Ionawr 2020, er bod grŵp y bartneriaeth yn parhau i fodoli er mwyn cynllunio a darparu gofal ar draws De-Orllewin Cymru.

Mae'r Cydweithrediad Rhanbarthol ar gyfer Iechyd (ARCH) yn gydweithrediad unigryw rhwng tri phartner strategol; Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Phrifysgol Abertawe. Mae'n cwmpasu ardaloedd awdurdodau lleol Ceredigion, Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe. Mae ganddo bortffolio uchelgeisiol o waith rhanbarthol, sy'n cael ei gyflawni drwy bedair rhaglen o waith a bennir gan Gynllun Datblygu Portffolio ARCH sy'n seiliedig ar gyhoeddiad Llywodraeth Cymru, 'Cymru Iachach'.

Gweithgareddau, Datblygiadau a Dathliadau Allweddol yn ystod 2019-20

Gydol y flwyddyn, bu nifer o gyflawniadau y mae'r sefydliad yn falch iawn ohonynt. Dyma rai uchafbwyntiau:

- Cyflwynwyd cynllun newydd dan y teitl 'Adre o'r Ysbyty' ledled Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe ym mis Tachwedd 2019, gyda'r nod o leihau'r amser y mae pobl hŷn yn ei dreulio yn yr ysbyty. Mae'n cefnogi pobl dros 65 oed i ddychwelyd adref unwaith y maent yn ddigon da, gan ganiatáu iddynt wella mewn amgylchedd mwy cyfarwydd. Mae tystiolaeth yn dangos po hiraf y mae person yn aros yn yr ysbyty, po anoddaf yw hi iddynt adennill eu hannibyniaeth ar ôl dod allan.



- Yn gynnar yn 2019, roedd Clwstwr Cwmtawe'n allweddol wrth helpu i gyflwyno ffordd newydd o weld cleifion â phroblemau â'u clustiau a'u clyw. Mae'r newid yn rhan o weledigaeth ehangach dan arweiniad Llywodraeth Cymru ar gyfer trawsnewid gofal sylfaenol ledled Cymru yn yr 21 ganrif, a fydd yn gweld pwyslais ar ddarparu ystod o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol o ansawdd yn y gymuned. Dan y cynllun newydd, mae cleifion sydd â phroblemau â'u clustiau a'u clyw yn cael eu cyfeirio i'r gwasanaeth drwy system brysbennu dros y ffôn, lle'r asesir eu hanghenion gan weithwyr proffesiynol hyfforddedig a all eu cysylltu â'r ymateb addas heb fod angen gwastraffu amser yn gwneud apwyntiad i weld eu meddyg. Os bydd yn llwyddiannus, gallai'r gwasanaeth

fod yn rhan o fodel newydd mewn gofal sylfaenol a fydd yn cael ei gyflwyno ledled Cymru.

- Gwelwyd bod canolfan peilot ar gyfer diagnosis cyflym (RDC) yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot yn lleihau hyd at 92% mewn amseroedd aros ar gyfer rhai cleifion a'i bod hefyd yn gosteffeithiol. Bellach, mae cleifion yn Abertawe a Chastell-Nedd Port Talbot sy'n mynd at feddygon teulu â symptomau amhendant ond posib o ganser yn gallu cael eu cyfeirio i'r RDC, lle gallant gael ystod o brofion arbenigol a gweld uwch glinigwyr yn gyflym. Adolygwyd y gwasanaeth gan Brifysgol Abertawe rhwng Mehefin 2017 a Mai 2018, pan gyfeiriodd meddygon teulu 198 o gleifion i'r clinig, sy'n rhedeg ddwywaith yr wythnos. Roedd cleifion naill ai'n cael diagnosis o ganser ac yna'n cael eu rhoi ar y llwybr cywir ar gyfer triniaeth ganser, neu'n cael diagnosis am gyflwr arall, neu'n cael gwybod na ellid dod o hyd i broblem ddifrifol, neu'n cael eu hanfon am brofion pellach. Yn sgil llwyddiant y peilot hwn, mae'r gwasanaeth iechyd wedi cefnogi hyn fel gwasanaeth parhaol.

- Yn dilyn llwyddiant clinigau awdioleg Clwstwr Cwmtawe, mae'r clwstwr wedi helpu i dreialu sesiynau trafod ar gyfer rhieni sydd ag unrhyw bryderon am ddatblygiad iaith a lleferydd eu plentyn. Mae'r fenter hon gan Dîm Iaith a Lleferydd Pediatrig Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn dilyn adroddiadau bod oedi yn natblygiad iaith hyd at hanner y plant mewn rhai ardaloedd yn y wlad. Bwriad y sesiynau oedd cynnig cyngor a chefnogaeth i rieni, gan anelu hefyd at wybod cyn gynted â phosib am unrhyw broblemau a allai fodoli.



- Leanne Walters oedd yr ail i'w phenodi'n Hyrwyddwr Sglerosis Ymledol (MS) yn y DU a hi yw'r unig un yng Nghymru. Hwn yw'r cam nesaf iddi mewn gyrfa sy'n rhychwantu 18 mlynedd, ac mae'n golygu gweithio'n agos gyda phobl ag MS, sef cyflwr niwrolegol cynyddol ar yr ymennydd a madruddyn y cefn. Mae ei rolau'n amrywio o ymweld â phobl ar y wardiau i gynnal eu hadolygiadau blynyddol ac ateb pa bynnag anghenion sydd ganddynt.

- Enillodd y Prif Weithredwr Tracy Myhill ddwy wobr am arweinyddiaeth yn 2019. Y wobr gyntaf oedd y categori 'Arweinyddiaeth yn y Sector Cyhoeddus' yng Ngwobrau Arwain Cymru. Yr ail wobr oedd y Wobr Arweinyddiaeth yng Ngwobrau Chwarae Teg, sef *Womenspire*. Dywedodd y panel beirniaid ar gyfer Gwobrau Arwain Cymru fod Tracy'n arwain o'r galon, gan ei disgrifio'n unigolyn diymhongar, diffuant ac ysbrydoledig.

- Agorodd staff yn Ysbyty Gorseinon ystafell de newydd ar gyfer cleifion a'u hymwelwyr a oedd yn cynnwys bynting blodeuog, standiau cacennau a chwpanau tsieina. Mae "Poppy's" wedi ei leoli yn encil haul olau ac agored yr

ysbyty, sef ystafell a oedd cyn hynny'n ystafell ddydd. Mae'n rhan o amserlen wythnosol o weithgareddau cymdeithasol y mae staff yn ei threfnu ar gyfer cleifion. Yn ogystal ag ymweld â'r ystafell de, bydd cleifion yn gallu cymryd rhan mewn dosbarthiadau celf a chrefft, mwynhau ffilmiau yn y prynhawn a dod at ei gilydd ar gyfer cwisiau.



- Ym mis Awst 2019, bu gwirfoddolwyr yn helpu i wneud yn siŵr bod maes chwarae canolfan blant yn Abertawe yn edrych ar ei orau. Treuliodd tîm o Swyddfa Brisio'r ddinas ddiwrnod yn y maes chwarae, sy'n rhan o Hafan y Môr yn Ysbyty Singleton. Mae'n ganolfan ar gyfer plant ag anghenion tymor hir cymhleth, ac mae'r maes chwarae hollgynhwysol a'r ardd synhwyraidd wedi bod yn boblogaidd dros ben gyda nhw a'u teuluoedd ers ei agor yn 2014.

- Ym mis Ionawr, cafodd ward yn Ysbyty Singleton a ddifrodwyd gan dân ei hailagor yn dilyn gwaith adnewyddu helaeth. Nid yn unig y mae Ward 12 wedi ei hatgyweirio, ei hailosod a'i haddurno, ond gosodwyd nenfydau newydd yno hefyd. Roedd rhan o'r gwaith yn cynnwys cael gwared ar asbestos a osodwyd adeg adeiladu'r ysbyty yn 1968, gan ddefnyddio deunyddiau gwrth-dân modern yn ei le. Yn dilyn y difrod a wnaed gan y tân, mae'r gwaith atgyweirio i Ward 12 hefyd wedi cynnwys lloriau newydd, gwifrau trydanol newydd, system larwm newydd ar gyfer galw nyrsys, celfi a gosodiadau newydd, unedau newydd ar gyfer y gegin ac ailaddurno.

- Cafodd gwraig 99 oed ysbrydoledig, a lwyddodd i adennill ei hannibyniaeth ar ôl damwain ddifrifol, ei gwobrwyo â pharti syrpreis ar ei phen-blwydd. Trefnodd staff yn Ysbyty Gorseinon ddathliad ar gyfer Kathleen Davies ar ôl cael eu syfrdanu gan ei hadferiad. Wrth gyrraedd mewn ambiwlans un bore ar gyfer ei dosbarth ymarfer corff wythnosol, fe'i synnwyd wrth weld bod yr ystafell wedi ei haddurno â baneri a balŵns, a bod bwffe a chacen wedi eu paratoi.

- Yn y gwobrau cyntaf ar gyfer Gofal Perthynol i Iechyd (ar gyfer gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd, gwyddonwyr gofal iechyd a fferyllwyr) a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2019, enillodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe bedwar o blith wyth o'r categorïau. Yr enillydd oedd Pennaeth Therapi Galwedigaethol Pediatrig, Amanda Atkinson. Hi hefyd a enillodd y wobr am arwain a rheoli newid, a hynny yn sgil arwain y gwaith o drawsnewid gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar y claf a'r gofalwr o fewn y gwasanaethau therapi galwedigaethol pediatrig.

- Cynhaliwyd dathliad yn Ysgol Addysg Gwyddorau Gofal Iechyd Prifysgol Caerdydd i anrhydeddu'r rhai sydd wedi gwneud cyfraniad eithriadol i addysg

ymarfer. Fe'i cynhaliwyd i ddathlu llwyddiant mentoriaid ac addysgwyr sydd, yn sgil eu cyflawniadau, wedi cael effaith ar ofal cleifion a chleientiaid. Roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn amlwg yn y digwyddiad hwn, gan ennill nifer o wobrau, yn cynnwys Adran Radioleg Ysbyty Singleton a'r Tîm Anableddau Dysgu ar gyfer therapi galwedigaethol yn ennill y 'Tîm Lleoliadau Gorau'.

- Lansiodd y Bwrdd Iechyd ei wefan ddwyieithog newydd sbon yn 2019-20 sy'n rhoi gwybodaeth am y gwasanaethau rydym yn eu darparu i'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Gweithgareddau Elusennol

Ym mis Mai 2019, penodwyd Pennaeth Codi Arian gan y Bwrdd Iechyd er mwyn sefydlu tîm ar gyfer y Bwrdd. Yn dilyn hyn, lluniwyd fframwaith yn seiliedig ar bump o brif themâu i ddatblygu a manteisio i'r eithaf ar broffil y cronfeydd elusennol. Gwnaed cynnydd ar draws pob un o'r pum maes.

- **Cynllunio Strategol**

Lluniwyd brand penodedig ar gyfer cronfeydd elusennol y Bwrdd Iechyd, sy'n gweithredu dan yr enw *Elusen Iechyd Bae Abertawe*. Bu staff yn rhan o greu'r brand a dewiswyd y logo drwy bleidlais gan staff. Yn ogystal â hyn, mae'r panel cynigion, sy'n ystyried y rhan fwyaf o'r ceisiadau ar gyfer gwario'r arian, wedi ei ail-lansio dan yr enw 'Cronfa Help Llaw'.



Datblygiad allweddol arall oedd sefydlu Cronfa Ganser De-Orllewin Cymru, sef y gronfa swyddogol ar gyfer Canolfan Ganser De-Orllewin Cymru a Chanolfan Ganser Felindre. Yn sgil trafodaethau a gwaith datblygu gyda'r cyn-chwaraewr rygbi cenedlaethol Jonathan Davies, sef Llywydd Codi Arian Felindre, a chyda'r ddau dîm codi arian, rhoddwyd partneriaeth yn ei lle i ddarparu platfform codi arian dros ganser ar gyfer De Cymru gyfan. Cynhaliwyd y digwyddiad cyntaf i godi arian ar y cyd ar ddiwedd 2019.

- **Cyfathrebu**

Er mwyn gwneud yr elusen yn amlwg, roedd angen iddi gael ei sianeli cyfathrebu ei hun. Yn sgil hyn, penderfynwyd cael gwefan gwbl ddwyieithog a sianeli cyfryngau cymdeithasol penodedig, sy'n cynnwys Facebook, Twitter a hefyd Instagram, sef cyfrwng cymdeithasol newydd i'r Bwrdd Iechyd.

- **Ymgysylltu**

Mae ymgysylltu â staff, cleifion a'r cyhoedd yn allweddol er mwyn i'r elusen barhau i lwyddo. Mae'r elusen wedi cynyddu ei phresenoldeb ar fewnrwyd y Bwrdd Iechyd ac mae'r tîm yn gweithio'n agos gydag unigolion sy'n codi arian gan greu llawer o ddeunyddiau i gefnogi codi arian. Mae hefyd yn gweithio'n agos gyda grwpiau cymunedol fel y Gweilch yn y Gymuned ac wedi datblygu rôl codi arian wirfoddol er mwyn cael mwy o bresenoldeb ar safleoedd yr ysbytai.

- **Codi Arian**

Mae manteisio ar y defnydd o'r platfformau sy'n bodoli eisoes yn gallu helpu i godi arian, felly'n ogystal â gweithio gyda chodwyr arian, ceir proffiliau ar Amazon Smile ac eBay. Mae Amazon Smile, drwy ei gyfrifoldeb corfforaethol, yn cyfrannu canran fach o bris yr holl nwyddau cymwys i elusen ddewisol eu cwsmeriaid. Drwy gofrestru Elusen Iechyd Bae Abertawe, gellir derbyn cyfraniadau gwerthfawr heb unrhyw gost ychwanegol i'r cwmseriaid. Gydag eBay, gall gwerthwyr ddewis cyfrannu cyfran o'u gwerthiannau i elusen a enwebir ganddynt. Mae'r elusen hefyd wedi ei chofrestru'n werthwr yn ei hawl ei hun a chrewyd cyfrif gyda PayPal i'w gwneud yn haws cyfrannu. Mae platfformau cyfrannu ar-lein eraill hefyd yn cael eu hystyried.

- **Ymgyrchoedd**

Adeg y Nadolig, cafwyd apêl lwyddiannus drwy Amazon, lle gallai pobl brynu anrhegion yn lle cyfrannu'n ariannol, a bu hyn o fudd i'r gwasanaeth gofal lliniarol i blant a'r gwasanaethau iechyd meddwl. Mae ymgyrch PayPal i'n cronfa ar gyfer yr elusen *Africa Health Links* bellach wedi ei chreu.

Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol 2019/2020, collodd y cronfeydd elusennol tua 18% o'r portffolio o gronfeydd elusennol i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn sgil newid y ffiniau. Erbyn Ionawr 2020, cafodd hyn ei adennill drwy weithgareddau codi arian, cyfraniadau a rhoddion.

Dogfennau’r Adroddiad Blynyddol

Fel y nodwyd ar dudalen pedwar, mae adroddiad blynyddol Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe'n cynnwys nifer o ddogfennau sy'n disgrifio ein gwaith rhwng 2019 a 2020.

Gellir darllen y dogfennau canlynol gyda'i gilydd neu fel dogfennau ar wahân.

- Adroddiad Perfformiad
- Adroddiad Atebolrwydd
- Adroddiad Ariannol

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Swansea Bay University Health Board

ADRODDIAD PERFFORMIAD

2019-20


Cynnwys

Testun	Tudalen
1. Gweledigaeth, Uchelgeisiau ac Amcanion Strategol	14
2. Adroddiad Perfformiad	15
- Gwerthfawrogi ein Staff	16
- Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol	19
- Cyfansoddiad Staff	21
- Y Gymraeg	24
- Dull o Weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	25
- Strategaeth Sefydliadol, Cynllun Gwasanaethau Clinigol a'r Rhaglen Trawsnewid	27
- Rheoli Risgiau	28
- Crynodeb o Berfformiad	30
- Dadansoddi Perfformiad	31
3. Adroddiad Cynaliadwyedd	60


Gweledigaeth, Uchelgais a Chyfeiriad Strategol

Mae gan y Bwrdd bwrpas, uchelgais, nodau strategol ac amcanion galluogi clir sydd wedi eu datblygu i gyflawni ein cyfrifoldebau dinesig drwy wella iechyd cymunedau, lleihau anghydraddoldebau iechyd a darparu gofal iechyd darbodus lle mae cleifion a defnyddwyr gwasanaethau'n teimlo eu bod yn cael eu gofalu amdanynt ac yn teimlo'n hyderus ac yn ddiogel.

Ein bwriad yw i'r Bwrdd Iechyd symud i fod yn sefydliad sy'n canolbwyntio ar iechyd y boblogaeth, gan gomisiynu gwasanaethau i gwrdd ag anghenion y claf a'r gymuned. Mae ein dau nod strategol, *Cefnogi Iechyd Gwell* a *Cyflawni Gofal Gwell*, a'r amcanion galluogi sy'n gysylltiedig â'r rhain, yn glir o ran ein huchelgais i newid, a byddwn yn canolbwyntio fwyfwy ar weithio gyda phartneriaid er mwyn gwella lles ein poblogaeth.



Tra bydd ein hamcanion yn sicrhau ein bod yn cwrdd â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol, ynghyd â safonau proffesiynol, mae ein ffyrdd o weithio'n seiliedig ar fframwaith o werthoedd ac ymddygiad a ddatblygwyd yn dilyn llawer o sgyrsiau â staff, cleifion, perthnasau a gofalwyr.



Adroddiad Perfformiad

Datganiad y Prif Weithredwr

Roedd 2019-20 yn flwyddyn heriol i ni, yn rhannol am ein bod yn dechrau fel sefydliad newydd sbon yn sgil newid ffin Pen-y-Bont ar Ogwr, a adawodd rhai heriau i ni'n ariannol, yn ogystal â heriau o ran sut i weithredu o fewn y model newydd. Roeddem yn siomedig nad oedd gennym gynllun tymor canolig integredig cymeradwy (CTCI - cynllun tair blynedd) ond gwnaed cynnydd da yn erbyn y cynllun blynyddol. Er mai ein bwriad oedd mantoli'r gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn, roedd nifer o heriau, gan gynnwys pwysau gweithredol, gofal iechyd parhaus a newidiadau i reolau'r dreth bensiwn, yn golygu nad oedd hynny'n bosib mwyach. Roedd hefyd yn achosi heriau niferus wrth ddarparu gofal wedi'i gynllunio i'n cleifion, gan olygu na wnaethom chwaith gyflawni'r targedau perfformio a osodwyd gennym yn wreiddiol. Er bod yr adroddiad hwn yn dangos sut rydym wedi perfformio yn 2019-20, mae'n gwneud hynny yng nghyd-destun Covid-19, a gafodd, ac sy'n dal i gael effaith sylweddol ar y ffordd rydym yn darparu ein gwasanaethau, ac nid yw ein busnes arferol yn opsiwn i ni ar hyn o bryd.

Y Gweithlu

❖ Gwerthfawrogi ein Staff

Mae profiad gwych gan staff yn golygu profiad gwych gan gleifion ac mae pob rôl yn cyfrif - mae'r hyn mae pobl yn ei wneud a sut maent yn ei wneud yn cyfrif. Mae cael y bobl orau bosib yn gweithio i'r Bwrdd Iechyd yn golygu y gellir darparu'r gofal gorau posib i gleifion a chymunedau. Mae'n bwysig fod staff yn teimlo'n falch o'r gofal

maent yn ei ddarparu ac yn teimlo cyswllt â'r Bwrdd Iechyd ac â'r timoedd lle maent yn gweithio.

Yn 2017, lansiwyd y cynllun gofal staff cyntaf, "*Yn Ein Hesgidiau Ni: Creu Profiad Gwych i Staff*" ac mae'n parhau'n flaenoriaeth sefydliadol. Ers hynny, mae'r strategaeth hon wedi datblygu'n fudiad #SiapioBIPBA, a luniwyd gan staff yn sgil rhaglen o weithdai gweithredol ac ymgysylltu â staff yn dilyn canlyniadau arolwg staff GIG Cymru yn 2018. Mae'n canolbwyntio ar gyflawni'r camau a gafodd eu nodi gan staff ac y pleidleiswyd drostynt gan staff dan y categorïau:

- Arweinwyr gwych, rheolwyr gwych;
- Gweithleoedd iach a lles;
- Arloesi, dysgu a datblygu.

- **Ein Gwerthoedd a'n Hymgyrch #Byw ein Gwerthoedd**

Mae gwerthoedd ac ymddygiadau'n allweddol i'r ffordd mae staff yn gweithredu ac yn rhyngweithio â'i gilydd ac â chleifion o ddydd i ddydd. Lansiwyd ein hymgyrch #BywEinGwerthoedd ym mis Gorffennaf 2019 mewn uwchgynhadledd ar arweinyddiaeth. Mae'n gwahodd staff i arwyddo cerdyn adduned sy'n disgrifio sut maent yn byw'r gwerthoedd sefydliadol. Mae'r ymgyrch yn gynhwysol ac yn annog pob cornel o'r sefydliad i gyfrannu, o'r wardiau i'r byrddau, yn cynnwys strwythurau pwyllgorau, uwch dimoedd unedau a grwpiau partneriaeth undebau llafur. Mae'r ymgyrch hefyd yn rhan annatod o raglenni datblygu mewnol, o'r cyfnod ymsefydlu i raglenni arweinyddiaeth.



Hyd yn hyn, mae dros 800 o addunedau wedi'u harwyddo gan gyfuniad o dimoedd ac unigolion, gyda thros 30 o weithdai #BywEinGwerthoedd wedi eu cynllunio a mesurydd addunedau wedi ei greu i fesur faint o addunedau a wnaed.

Ym mis Rhagfyr 2019, lansiwyd y Gwobrau '*Byw ein Gwerthoedd: Dathlu yn Null Bae Abertawe'* fel rhan o raglen o gydanabod a gwobrwyo, a derbyniwyd 151 o enwebiadau Bydd y gwobrau'n cael eu defnyddio ochr yn ochr â ffyrdd eraill o gydnabod staff, er mwyn dod â'r sefydliad yn ôl at ei gilydd a dathlu'r hyn y byddant wedi ei gyflawni drwy gydol pandemig Covid-19.

- **Gwrando ar Staff a'u Cefnogi i Godi Pryderon**

Mae'r Bwrdd Iechyd yn anelu at greu diwylliant o fod yn agored, yn onest ac o barch, sy'n mynd law yn llaw â'r gwerthoedd. Wrth wrando ac ymgysylltu â phobl fel rhan o'r broses codi pryderon, cafwyd negeseuon clir ynghylch pwysigrwydd cyfrinachedd a'r angen am fodel o wasanaeth annibynnol.

Wrth ymateb i'r adborth hwn ac fel rhan o'r ymrwymiad i gefnogi gweithleoedd iach a lles, mae nifer o gamau wedi eu cymryd i gyd-fynd â'r ymgyrch #BywEinGwerthoedd. Mae'r rhain yn cynnwys comisiynu ACAS (Y Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu) i gynnal gweithdai ar gyfer rheolwyr, y gweithlu ac undebau llafur i fynd i'r afael ag ymddygiadau amhriodol yn y gwaith fel bwlio, a hefyd yn cynnwys cyflwyno gwasanaeth *The Guardian Service* ym mis Mai 2019 fel cynllun peilot am flwyddyn. Mae'r gwasanaeth yn darparu cymorth annibynnol, cyfrinachol ac anfarnol i staff sy'n codi pryderon ac mae'n canolbwyntio ar weithio gydag unigolion a'r sefydliad i ddod i benderfyniadau, gan fod ar gael 24 awr y dydd, 7 niwrnod yr wythnos, 365 diwrnod y flwyddyn. Y Bwrdd Iechyd yw'r cyntaf yng Nghymru i dreialu'r model gwasanaeth. Hyd yma, cafwyd 91 o gysylltiadau ac mae 42 ohonynt wedi'u cau/datrys. Mae 127 o sesiynau ymwybyddiaeth wedi'u cyflwyno ar draws y Bwrdd Iechyd. Am fod y cyswllt am flwyddyn i ddechrau, mae proses aildendro bellach ar waith er mwyn parhau â'r gwasanaeth.

- **Prisio a Gwerthfawrogi ein Staff**

Parhaodd y gydnabyddiaeth am wasanaeth tymor hir a Gwobrau Dewis y Claf yn 2019-20.

Eleni, adolygwyd y meini prawf ar gyfer derbyn cydnabyddiaeth am wasanaeth tymor hir. Cawsant eu haddasu er mwyn gwneud y gydnabyddiaeth yn fwy cynhwysol, gan gydnabod cyfanswm y blynyddoedd o wasanaeth i'r GIG, yn hytrach na gwasanaeth di-dor yn unig. Yn ogystal â chydnabod 25 mlynedd o wasanaeth neu fwy i'r GIG, cyflwynwyd cydnabyddiaeth arbennig i'r rheini sydd wedi gwneud 40 mlynedd neu fwy. Cynhaliwyd y dathliadau ar 1 Hydref 2019 a 5 Tachwedd 2019, gyda 175 o staff cymwys yn bresennol.



Mae Gwobrau Dewis y Claf yn parhau i roi cyfle i gleifion, gofalwyr, perthnasau ac ymwelwyr ddweud eu barn ac enwebu aelod o staff sydd, yn eu tyb nhw, wedi gwneud gwir wahaniaeth ac wedi mynd yr ail filltir. Cafodd 194 o aelodau o staff, timoedd a wardiau eu cydnabod eleni yn ystod pump o ddigwyddiadau ar draws y prif ysbytai, gydag un digwyddiad ar gyfer gwasnaethau sylfaenol a chymunedol yn digwydd ar y cyd â gwasanaethau cymdeithasol.

- **Datblygu Galluoedd a Galluogrwydd ar gyfer Arweinyddiaeth**

Yn 2019, cynhaliwyd yr uwchgynhadledd gyntaf ar arweinyddiaeth, gyda thros 100 o reolwyr ar draws y Bwrdd Iechyd yn bresennol. Gwelwyd cynnydd cyson yn y nifer hwn erbyn y drydedd uwchgynhadledd, lle cafwyd dros 200 o gynrychiolwyr. Mae cael cyfuniad o siaradwyr mewnol ac allanol wedi sicrhau bod y digwyddiadau hyn yn atyniadol, yn addysgiadol ac yn canolbwyntio ar y syniadau diweddaraf mewn

perthynas ag arferion da wrth arwain, gan sicrhau y cefnogir ein staff i ddarparu gofal ardderchog i'r claf.

Mae rhaglenni datblygu ar gyfer arweinyddiaeth yn parhau i gael eu hehangu. Ar ôl cyflwyno 'Footprints', sef y rhaglen ar gyfer rheolwyr canol, datblygwyd rhaglenni pellach ar gyfer y rhai sydd mewn rolau arwain uwch, yn ogystal ag ar gyfer y rhai sy'n awyddus i fod yn rheolwyr neu'n arweinwyr timoedd, sef 'Bridges' ac 'Impact'. Hyd yn hyn, mae dros 1,300 o bobl wedi mynychu un o'r rhaglenni hyn.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo'n llwyr i ddatblygu, gweithredu ac ymgorffori modelau arwain lle ceir diwylliant teg a thosturi. Canolbwyntiwyd ar hyn yn ei chynhadledd arweinyddiaeth a bydd yn yn parhau i ddatblygu a gwreiddio'r egwyddorion hyn yn 2020-21.

Mae arweinyddiaeth glinigol hefyd wedi bod yn ganolbwynt eleni ac rydym wedi lansio ein rhaglen ddatblygu ar gyfer ymgynghorwyr. Mae bellach yn derbyn ei thrydedd garfan, gyda 37 o ymgynghorwyr wedi cofrestru hyd yn hyn.

Lansiwyd llwybr ar gyfer rheolwyr newydd ym Mehefin 2019. Mae'n darparu fframwaith ar gyfer pob rheolwr newydd er mwyn sicrhau y gallant ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt i wneud eu rôl yn llwyddiannus. Yn ogystal â rhaglenni ymddygiadol, mae'r fframwaith gorfodol hwn yn sicrhau bod gwybodaeth hanfodol yn cael ei dysgu, gan ganolbwyntio ar destunau fel cyllid, polisïau adnoddau dynol a rheoli prosiectau.

Er mwyn creu ac ymwreiddio diwylliant o hyfforddi o fewn y Bwrdd Iechyd, mae nifer o staff wedi dod yn hyfforddwyr cymwys ar gyfer y gweithle. Mae rhwydwaith o dros 30 o hyfforddwyr bellach yn gweithio i ddarparu datblygiad 1-1 wedi ei deilwra ar gyfer cydweithwyr.

- **Cefnogi Iechyd a Lles Staff**

Mae darparu grwpiau'n seiliedig ar feddylgarwch a chyrsiau 'Rheoli eich Lles' wedi cefnogi iechyd a lles staff a chefnogi staff i ddychwelyd i'r gwaith ar ôl bod yn absennol oherwydd salwch. Cefnogwyd rheolwyr i ddeall iechyd meddwl yn y gweithle ac mae'r tîm wedi darparu hyfforddiant ar y defnydd o'r safonau ar gyfer straen er mwyn gallu rhoi cefnogaeth fuan i staff sy'n profi straen yn y gweithle. O ganlyniad i gynnydd yn y gwaith a wnaed mewn partneriaeth gydag Amser i Newid Cymru er mwyn lleihau'r stigma a'r gwahaniaethu sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl yn y gweithle, gwelwyd gwirfoddolwyr yn rhannu eu straeon personol am oresgyn materion yn ymwneud ag iechyd meddwl ac am aros yn y gwaith neu ddychwelyd i'r gwaith. Arwyddodd y Prif Weithedwr adduned Amser i Newid Cymru ar ran y Bwrdd Iechyd ym mis Medi 2019, gan ddangos yr ymrwymiad i'r ymgyrch hon.

Yn sgil wythnos les lwyddiannus ym mis Medi 2019, gwelwyd staff yn manteisio ar amrywiaeth o adnoddau addysgiadol a rhyngweithiol a ddarparwyd gan y Tîm Rhoi'r Gorau i Ysmygu, Maetheg a Deieteg a'r rhaglen Byw'n Dda. Profodd gwiriadau iechyd gan y Tîm Iechyd Galwedigaethol a'r Adran Podiatreg yn llwyddiant mawr ymhlith aelodau o staff, ac roedd hynny hefyd yn wir am y gweithdai 'Menopos a Meddylgarwch'. Eleni, cefnogwyd y digwyddiadau gan y Tîm Lles. Darparwyd

ffrwythau hefyd drwy gydol yr wythnos. a phrofodd y cyngherddau a gynhaliwyd amser cinio'n ychwanegiad gwych, gan ddangos sut y gall cerddoriaeth wella lles.

Ar gyfer 2019-20, diweddarwyd ymgyrch farchnata am y ffliw i staff, gan ddefnyddio'r thema 'Mae'r Gaeaf yn Dod'. Bu'r ymgyrch hon, ynghyd â rôl newydd ar gyfer Cydlynydd Ymgyrch Ffliw i Staff, o gymorth i gynyddu'r nifer a gafodd eu brechu rhag y ffliw i 58.6% o staff rheng flaen, gyda bron 9,000 yn cael eu brechu.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ddarparu'r gwasanaeth 'Cymorth yn y Gwaith' a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, sy'n darparu cymorth iechyd meddwl a chyhyrysgerbydol i gefnogi gweithwyr lleol sy'n gweithio mewn busnesau bach i ganolig eu maint. Cynorthwywyd 1,072 o weithwyr i ddychwelyd i'r gwaith neu i barhau yn y gwaith er bod ganddynt gyflyrau iechyd, ac mae dros 227 o gwmnïau lleol wedi derbyn cefnogaeth i'w helpu i reoli iechyd a lles eu staff, gan felly gefnogi'r ecomoni leol.

❖ Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i drin pawb yn deg yn ogystal â blaenoriaethu ei ddyletswydd i:

- Ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddwch ac erledigaeth;
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu;
- Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu.

Y naw 'nodwedd warchodedig' yw: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gredo, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol a phriodas a phartneriaeth sifil (mewn perthynas â chael eu trin yn wahanol yn y gwaith).

O dan Reoliadau Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd baratoi a chyhoeddi amcanion cydraddoldeb bob pedair blynedd. Yn sgil hyn, bu'n ymgysylltu ac yn ymgynghori â rhanddeiliaid, sefydliadau cyhoeddus a sefydliadau'r trydydd sector a staff i gasglu safbwyntiau ar y meysydd blaenoriaeth y dylid mynd i'r afael â nhw mewn perthynas ag anghydraddoldeb. Mae'r adborth hwn a'r dystiolaeth a gynhwyswyd yn adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, sef 'A yw Cymru'n Decach 2018?', wedi llywio'r broses o ddatblygu'r amcanion cydraddoldeb ar gyfer 2020-2024.

Yn yr adroddiad blynyddol ar gydraddoldeb, tynnir sylw at y cynnydd diweddaraf mewn perthynas â'r camau gweithredu sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni'r amcanion cydraddoldeb. Rhannwyd hyn â Phwyllgor y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol ym mis Chwefror 2020, ynghyd â'r amcanion cydraddoldeb strategol ar gyfer 2020-24, a gymeradwywyd wedyn gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2020.

Mae enghreifftiau o'r uchafbwyntiau allweddol mewn perthynas â chydraddoldeb ar gyfer 2019-20 yn cynnwys y canlynol:



- Ynghyd â Chyngor Abertawe, enillodd y Tîm Lles ar gyfer Gofal Sylfaenol Plant a Theuluoedd y categori Gwella Iechyd a Lles yng Ngwobrau GIG Cymru 2019 am eu gwaith i leihau effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn ward Penderi, sef ward sy'n cynnwys rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig y ddinas;

- Yn y gynhadledd gydweithredol ar Amrywiaeth a Chynhwysiant gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, sef 'Dyma Fi', dathlwyd yr amrywiaeth yn ein gweithlu a hyrwyddwyd gweithle cynhwysol i bawb.

- Fe wnaeth Calon, sef rhwydwaith staff LGBT+ a Chyngrheiriaid y Bwrdd Iechyd, ymuno â chydweithwyr GIG Cymru yn Pride Abertawe a Pride Cymru.

- Sefydlwyd rhwydwaith newydd ar gyfer pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig i wella dealltwriaeth ddiwylliannol, gwella'r cymorth i staff a rhoi hwb i ofal cleifion ar draws y Bwrdd Iechyd. Cafodd ei lansio mewn digwyddiad yn ystod Mis Hanes Pobl Ddu i ddathlu amrywiaeth ethnig a diwylliannol yn Ysbyty Treforys.

- Trefnodd staff Bae Abertawe ddigwyddiad ar raddfa fawr yn y ganolfan hamdden i nodi Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd. Cynrychiolwyd mwy na 60 o grwpiau a sefydliadau gan ddangos yr amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael i bobl y mae angen cymorth arnynt.

- Lansiodd y Bwrdd Iechyd 'Project SEARCH' sy'n cynnig profiad gwaith mewn amrywiaeth o adrannau i interniaid ag anableddau dysgu wrth iddynt ennill cymwysterau gyda Choleg Gŵyr.

- Cynhaliwyd sesiynau hyfforddi ar ymwybyddiaeth o drawsrywioldeb a thrawsryweddoldeb drwy'r Bwrdd Iechyd gan Stonewall Cymru i helpu staff gael dealltwriaeth sylfaenol o hunaniaeth a therminoleg yn ymwneud â rhywedd.

Cyfansoddiad Staff

❖ Yn Ôl Rhywedd

Mae dadansoddiad o'r gweithlu yn ôl rhywedd wedi'i nodi yn y tabl isod. Mae'r ffigur hwn yn cynrychioli'r cyfansoddiad ar 31 Mawrth 2020.

Rhywedd	Cyfrif pennau	FTE	% o'r cyfrif pennau
Menywod	10058	8621.70	77.4
Dynion	2933	2797.08	22.6
Cyfanswm	**12991**	**11418.78**	**100.0**

(FTE - yn gyfwerth ag amser llawn)

Mae dadansoddiad o Aelodau'r Bwrdd ac Uwch Reolwyr yn ôl rhywedd wedi'i nodi yn y tabl isod. Mae'r niferoedd hyn yn cynrychioli'r cyfansoddiad ar 31 Mawrth 2020.

Teitl Swydd	Rhywedd	Cyfrif pennau	FTE	% o'r cyfrif pennau
Cyfarwyddwr Cynllunio Cynorthwyol	Gwryw	1	1.00	2.44%
Cyfarwyddwr Strategaeth Cynorthwyol (Ystadau)	Gwryw	1	1.00	2.44%
Cadeirydd	Gwryw	1	1.00	2.44%
Dirprwy Brif Swyddog Gweithredu	Gwryw	1	1.00	2.44%
Dirprwy Gyfarwyddwr Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg a Gwella Perfformiad	Gwryw	1	1.00	2.44%
Cyfarwyddwr	Gwryw	1	1.00	2.44%
Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus	Gwryw	1	1.00	2.44%
Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio	Gwryw	1	1.00	2.44%
Pennaeth Lleoliadau a Systemau'r Gweithlu	Gwryw	1	1.00	2.44%
Cyfarwyddwr Cyllid dros dro	Gwryw	1	1.00	2.44%
Cyfarwyddwr Meddygol	Gwryw	1	1.00	2.44%
Arweinydd Trawsnewid ENT Cenedlaethol	Gwryw	1	0.60	2.44%
Cyfarwyddwr Meddygol AaGIC (Addysg a Gwella Iechyd Cymru)	Gwryw	1	1.00	2.44%
Secondiad - Cyfarwyddwr Masnachol a Strategol Felindre	Gwryw	1	1.00	2.44%
Aelod Anweithredol	Gwryw	3	1.00	7.32%
Cyfarwyddwr Gwasanaethau	Gwryw	2	2.00	4.88%
Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol	Benyw	1	1.00	2.44%
Cyfarwyddwr Gwybodeg Cynorthwyol: Band TGCh	Benyw	1	1.00	2.44%
Cyfarwyddwr Cynllunio (Cynllunio Gwasanaethau) Cynorthwyol	Benyw	1	1.00	2.44%
Cyfarwyddwr Cyswllt ar gyfer Cyllid	Benyw	1	1.00	2.44%

Cyfarwyddwr Cyswllt ar gyfer Adnoddau Dynol: Band Dysgu a Datblygu	Benyw	1	1.00	2.44%
Ysgrifennydd y Bwrdd	Benyw	1	1.00	2.44%
Cadeirydd	Benyw	1	0.00	2.44%
Prif Weithredwr	Benyw	1	1.00	2.44%
Dirprwy Gyfarwyddwr Adfer a Chynaliadwyedd	Benyw	1	1.00	2.44%
Cyfarwyddwr	Benyw	1	1.00	2.44%
Cyfarwyddwr Cynllunio	Benyw	1	1.00	2.44%
Cyfarwyddwr Therapïau	Benyw	1	0.80	2.44%
Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol	Benyw	1	1.00	2.44%
Pennaeth Band Unedau Cyflawni Adnoddau Dynol	Benyw	1	1.00	2.44%
Rheolwr Adnoddau Dynol	Benyw	1	1.00	2.44%
Secondiad - Band Iechyd Cyhoeddus Cymru	Benyw	1	0.40	2.44%
Aelod Anweithredol	Benyw	3	3.00	7.32%
Cyfarwyddwr Gwasanaethau	Benyw	3	3.00	7.32%

❖ Fesul Grŵp Staff

Yn ystod y flwyddyn, y nifer cyfartalog o staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd yn barhaol oedd 12,991. Cyfrifir nifer cyfartalog y cyflogeion fel nifer y staff cyfwerth ag amser llawn ym mhob wythnos o'r flwyddyn ariannol wedi'i rannu â nifer yr wythnosau yn y flwyddyn ariannol. Mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad o'r gweithlu fesul grŵp staff. Yn ogystal â staff a gyflogir yn barhaol, mae'n dangos staff sydd ar secondiad o'r tu allan, staff asiantaeth, a staff eraill.

	Wedi eu Cyflogi'n Barhaol	Staff ar Secondiad o'r Tu Allan	Staff Asiantaeth	Staff Eraill	Cyfanswm 2019-20	Cyfanswm 2018-19
Gweinyddol, clercyddol ac aelodau'r Bwrdd	2,106	16	35	0	2,157	2,535
Meddygol a deintyddol	1,044	0	13	31	1,088	1,392
Nyrsys a bydwragedd cofrestredig	3,449	0	171	0	3,620	4,636
Staff Proffesiynol	360	0	0	0	360	448

Gwyddonol a Thechnegol						
Gwasanaethau Clinigol Ychwanegol	2,297	0	25	0	2,322	2,767
Gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd	760	0	16	0	776	921
Gwyddonwyr gofal iechyd	298	0	5	0	303	324
Ystadau a Staff Ategol	1,036	0	21	0	1,057	1,410
Myfyrwyr	2	0	0	0	2	5
Cyfanswm	11,352	16	317	0	11,685	14,438

❖ Absenoldebau oherwydd Salwch

	2019/20	2018/19	Amrywiant
Cyfanswm y dyddiau a gollwyd (hirdymor):	185,261.07	224,747.37	-39,486.30
Cyfanswm y dyddiau a gollwyd (tymor byr):	75,095.71	78,448.06	-3,352.35
Cyfanswm y dyddiau a gollwyd:	260,356.78	303,195.43	-42,838.65
Cyfanswm y blynyddoedd staff a gollwyd: (cyfartaledd y staff a gyflogwyd yn y cyfnod hwn - cyfwerth ag amser llawn)	11,321.07	14,093.05	-2,771.98
Cyfartaledd y diwrnodau gwaith a gollwyd:	14	13	1
Cyfanswm y staff a gyflogwyd yn y cyfnod (cyfrif pennau):	12,902	16,088	-3,186
Cyfanswm y staff a gyflogwyd yn y cyfnod heb unrhyw absenoldeb (cyfrif pennau)	4771	6521	-1,750
Cyfartaledd y staff heb unrhyw absenoldeb salwch:	36.30%	40.32%	-0.04

Yr Iaith Gymraeg

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i wneud y Gymraeg mor weladwy a hygyrch â phosibl. Mae ganddo Grŵp Cyflawni'r Gymraeg gyda chynrychiolaeth o bob rhan o'r sefydliad i helpu gyda chynnydd a chydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg.
Mae'r sefydliad wedi cynhyrchu cynllun gweithredu i gyflawni'r gofynion angenrheidiol yn ystod 2019/20 ac ymlaen i 2020/21. Mae hyn yn seiliedig ar gydweithio â byrddau iechyd eraill i sicrhau cysondeb, gan wneud y defnydd gorau o adnoddau. Adroddir ar gynnydd yn erbyn safonau'r Gymraeg i'n Grŵp Cyflawni'r Gymraeg, y Bwrdd Iechyd, Comisiynydd y Gymraeg a Llywodraeth Cymru, a chyflwynir adroddiadau monitro ac ystadegol blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg a Llywodraeth Cymru.

Ym mis Mawrth 2020, cynhyrchwyd adroddiad ar Safonau'r Gymraeg sy'n rhoi datganiad sefyllfa a dadansoddiad i'r Bwrdd Iechyd o flwyddyn ariannol lawn o weithredu o dan Safonau'r Gymraeg. Mae'r adroddiad yn adeiladu ar waith cadarnhaol blaenorol, ac yn cynnwys cynllun ac argymhellion ar gyfer y flwyddyn i ddod. Er y gwnaed cynnydd da, mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod llawer iawn mwy i'w wneud er mwyn gwella ei wasanaethau Cymraeg.

Yn nhymor yr hydref 2020, bydd adroddiad blynyddol llawn yn nodi sut rydym yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg ar gael ar ein gwefan.

Trawsnewid Digidol

Mae strategaeth sefydliadol y Bwrdd Iechyd, 'Iechyd Gwell, Gofal Gwell, Bywydau Gwell', yn nodi y bydd y sefydliad yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd digidol ac yn eu defnyddio i drawsnewid sut y caiff iechyd pobl ei wella a sut y darperir gofal. Er mwyn cyflawni'r nod digidol hwn, ceir strategaeth ddigidol uchelgeisiol, sef 'Dyfodol Digidol'. Nod hyn yw sicrhau y bydd gweithgareddau iechyd, gofal a lles a gyflawnir gan bawb yn ein heconomi iechyd, ac a fydd yn tyfu'n fuan ac yn unol â'r anghenion, yn cael eu galluogi gan ddefnyddio technoleg ddigidol.


Yn ystod 2019-20, mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu pum rhaglen trawsnewid digidol i gyflawni newid a nifer o raglenni galluogi digidol hanfodol i gefnogi'r gwaith cyflawni. Mae cyflymder a graddfa'r trawsnewid digidol wedi bod yn sylweddol yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r uchafbwyntiau wedi cynnwys:

- **Porth Cleifion Bae Abertawe -** offeryn digidol sy'n gadael i'n dinasyddion weld eu cofnodion gofal eu hunain, gan eu grymuso i gymryd mwy o gyfrifoldeb a chwarae rhan weithredol yn eu gofal;
- **Byrddau Gwyn Electronig (Signal)** – byrddau digidol sy'n disodli'r byrddau gwyn traddodiadol ar y wardiau, er mwyn sicrhau bod gwybodaeth fyw ar gael ar gyfer pob claf yn ein hysbytai;

- **Staff cymunedol -** mae gan ein holl staff cymunedol ddefnydd o iPad i'w helpu i weithio'n fwy effeithlon a chael mwy o amser i gleifion;;
- **Moderneiddio Cofnodion Iechyd -** cyflwyno tagiau electronig ar gofnodion papur cleifion. Mae hyn wedi gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd cofnodion papur wrth i ni drosglwyddo o'r rhain i gofnodion electronig;
- **Galluogi gwybodaeth busnes a dadansoddi busnes** – cyflymu'r defnydd o fyrddau dadansoddi a byrddau gwybodaeth busnes ar draws y sefydliad i gefnogi penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Ein Dull o Weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae'n ofyniad statudol fod y Bwrdd Iechyd yn cyhoeddi ei amcanion llesiant. Rhaid iddo nodi'n glir ei amcanion llesiant a'r camau sy'n cael eu cymryd i'w cyflawni, yn cynnwys sut mae'r pum ffordd o weithio a'r saith nod llesiant cenedlaethol wedi'u defnyddio i lywio'r broses o bennu'r amcanion a'r camau ar gyfer eu cyflawni. Cytunodd y Bwrdd ar ei amcanion llesiant terfynol drwy gymeradwyo'r strategaeth sefydliadol ym mis Tachwedd 2018.



Dyma'r amcanion:

- *Rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn;*
- *Cysylltu cymunedau â gwasanaethau a chyfleusterau;*
- *Cynnal iechyd, annibyniaeth a chydnerthedd cymunedau o unigolion, cymunedau a theuluoedd.*

Ym mis Mai 2019, cynhaliwyd sesiwn datblygu gan y Bwrdd i ystyried sut y gallai'r sefydliad wreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac egwyddorion y Ddeddf yn ei feddylfryd a'i weithredoedd drwy bopeth y mae'r sefydliad yn ei wneud. Rhoddodd hyn y cyfle i'r Bwrdd Iechyd ddangos peth o'r gwaith da sydd gennym ar y gweill, er enghraifft, o ran seilwaith gwyrdd, caffael a'r blynyddoedd cynnar.

Roedd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn bresennol a rhoddodd rai heriau i'r sefydliad, gan ei gwneud yn glir hefyd fod angen i gyrff cyhoeddus ddangos yn eglur bod y pum ffordd o weithio yn cael eu hintegreiddio yn ein prosesau busnes a'u bod yn gydnaws ag amcanion llesiant penodol, a gaiff eu mapio i amcanion y Ddeddf. Nododd y Comisiynydd fod angen i'r Bwrdd Iechyd ymrwymo i 'fod yn berchen ar ei uchelgais' wrth gyflawni ein hamcanion llesiant a gwneud y pum ffordd o weithio'n rhan annatod o'r sefydliad.

Dyma rywfaint o'r cynnydd hyd yn hyn:

Maes Gwasanaeth	**Cynnydd yn erbyn yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy**
Caffael	- Mae pob aelod o staff caffael rheng flaen wedi derbyn hyfforddiant ar gaffael cynaliadwy; - Mae gwasanaethau caffael wedi creu porth caffael cynaliadwy y mae gan gyflenwyr, cwsmeriaid a staff fynediad agored ato; - Mae templedi ESPD (Dogfen Gaffael Sengl Ewropeaidd) ar gyfer asesu cyflenwyr wedi eu diweddaru i gynnwys cwestiynau ar y Ddeddf; - Mae caffael cynaliadwy, gan gynnwys y Ddeddf, yn cael ei drafod ym mhob cyfarfod gyda chyflenwyr fel rhan o'r templed safonol ar gyfer y cyfarfodydd hyn.
Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod	- Mae ymwelwyr iechyd wedi cael hyfforddiant; - Cynhelir rhaglen beilot yn Abertawe; - Yn gweithio'n uniongyrchol gyda chydweithwyr ar hyn o bryd i sefydlu hyfforddiant cenedlaethol pwrpasol ar gyfer nyrsys ysgol.
Cymunedau Diogel a Chydnerth	- Gweithio gyda chymunedau mewn cymdogaeth i ‘adeiladu ar yr hyn sy’n gryf, yn hytrach nag ar yr hyn sydd o’i le”. - Cynhelir rhaglen beilot mewn dwy ardal yng Nghastell-nedd Port Talbot: • Llansawel a Melyn • Dyffryn Aman Uchaf (Cwmllynfell, Rhiwfawr, Gwaun Cae Gurwen a Brynaman)
Twf Gwyrdd	- Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio ei amgylchedd i wella iechyd corfforol a meddyliol. Mae potensial digyffwrdd i gysylltu'r mannau gwyrdd â'r cydweithio sy'n digwydd gyda Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a Phrifysgol Abertawe mewn perthynas â gofal sylfaenol, gofal cymdeithasol a datblygu cymunedol, er mwyn hybu iechyd drwy gynyddu'r mynediad at natur; - Parhau i blannu blodau gwyllt i hyrwyddo pryfed peillio a chynyddu'r defnydd o rywogaethau cynhenid; - Cais llwyddiannus am arian gan Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-20 am "Gymru Fioffilig", i ddatblygu 40 o safleoedd o fewn yr ystâd fel pwyntiau ar gyfer prosiectau cymunedol a ddatblygir ar y cyd.
Gweithio mewn Partneriaeth	- Mae'r Bwrdd Iechyd yn aelod allweddol o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot a rhaglen ARCH;

Maes Gwasanaeth	Cynnydd yn erbyn yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy
	- Er mwyn cael mwy o gysondeb o fewn y Bwrdd Iechyd, mae amcanion llesiant y cynlluniau hyn wedi'u mapio i amcanion llesiant y Bwrdd Iechyd; - Mae'n rhaid i bob un o'r prosiectau o fewn rhaglen Gorllewin Morgannwg ddangos sut y maent yn sicrhau bod y pum ffordd o weithio yn cael eu cyflawni.

Strategaeth Sefydliadol, Cynllun Gwasanaethau Clinigol a'r Rhaglen Trawsnewid

❖ Strategaeth Sefydliadol

Yn ystod 2018-19, datblygodd a chymeradwyodd y Bwrdd Iechyd strategaeth sefydliadol, sef ***Iechyd Gwell, Gofal Gwell, Bywydau Gwell***, ynghyd â diweddariad o'r cynllun gwasanaethau clinigol.

Mae'r strategaeth sefydliadol yn disgrifio'r uchelgeisiau a'r cyfleoedd i'r Bwrdd Iechyd ar gyfer 2019-20 a thu hwnt er mwyn:

- Chwarae rhan lawn yn yr economi iechyd leol a rhanbarthol;
- Cynyddu'r ffocws ar wella iechyd a lles y boblogaeth;
- Integreiddio gwasanaethau â phartneriaid yn y cymunedau;
- Sicrhau cynaliadwyedd a sicrhau y cyflawnir gofal o ansawdd uchel yn gyson;
- Cefnogi gwell iechyd a lles drwy fynd ati i hyrwyddo a grymuso pobl i fyw'n dda mewn cymunedau cydnerth;
- Darparu gwell gofal drwy wasanaethau iechyd a gofal rhagorol gan gyflawni'r canlyniadau sydd bwysicaf i bobl.

❖ Cynllun Gwasanaethau Clinigol

Y Cynllun Gwasanaethau Clinigol yw'r rhaglen bum mlynedd i drawsnewid y gwasanaethau iechyd a gofal ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Cynhaliwyd y broses ddatblygu drwy gydol 2018 dan arweiniad clinigwyr, gyda chefnogaeth ein staff a'n partneriaid, a chafodd ei chymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Ionawr 2019.

Mae'n disgrifio sut y caiff gwasanaethau lles, sylfaenol a chymunedol eu trawsnewid i fod yn sail ar gyfer newid sylweddol mewn gwasanaethau yn y prif ysbytai, gan eu galluogi i neilltuo eu harbenigeddau i ddiwallu anghenion y rhai y mae angen eu gofal arnynt fwyaf, yn enwedig y rhai eiddil, yr henoed a'r rhai sy'n ddifrifol wael.

Er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau a nodwyd yn y ddwy ddogfen, sefydlodd y Bwrdd Iechyd bortffolio trawsnewid a strwythur llywodraethu, gan gynnwys *Bwrdd Trawsnewid ar gyfer Iechyd Gwell, Gofal Gwell, Bywydau Gwell* a *Bwrdd y Cynllun Gwasanaethau Clinigol* i gynllunio a rheoli trefniadau ar gyfer y canlynol:

- Cynllun Gwasanaethau Clinigol;
- Galluogi rhaglenni fel moderneiddio digidol a model gweithredu'r Bwrdd Iechyd;
- Byrddau Gwella;
- Gweithio'n Rhanbarthol.

❖ Rhaglen Trawsnewid

Sefydlwyd y bwrdd trawsnewid yn ffurfiol ym Mai 2019. Mae'n cyfarfod bob mis ac yn cynnwys holl aelodau'r Bwrdd Gweithredol ynghyd â nifer fach o arweinwyr rhaglenni. Caiff ei gadeirio gan y Prif Weithredwr, a derbynnir adroddiad cryno gan yr Uwch Dîm Arwain yn rheolaidd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd ehangach ac i sicrhau cysylltiadau â threfniadau cynllunio ar y cyd drwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Yn dilyn integreiddio Swyddfa Rheoli'r Rhaglen, Gofal Iechyd sy'n Seiliedig ar Werth a'r Tîm Gwella ym mis Mehefin 2019, mae'r gwaith wedi canolbwyntio ar ddatblygu dull a methodoleg integredig ar gyfer trawsnewid o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Bydd y dull yn pennu:

- Y dull o wella – sut mae'r sefydliad yn datblygu'r sgiliau, y meddylfryd a'r offer cywir yn systematig er mwyn gwneud gwelliant parhaus yn rhan annatod o'r Bwrdd a sut rydym yn sicrhau bod ein hadnoddau arbenigol yn cyd-fynd â nodau a blaenoriaethau cyffredinol y sefydliad, yn cynnwys ein blaenoriaethau ansawdd;
- Y dull o reoli rhaglenni a prosiectau - sefydlwyd dull safonedig o reoli prosiectau yn ystod 2019 ac erbyn hyn mae tua 50 o reolwyr yn y sefydliad wedi derbyn hyfforddiant PRINCE2. Mae'r prif ffocws bellach ar ddatblygu'r dull o reoli buddion fel bod dull unedig o asesu, nodi, olrhain a gwireddu buddion ar draws meysydd ariannol ac anariannol.
- Mae gwaith gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth wedi cyflymu ers Mehefin 2019 ac mae'r rhaglen waith bellach yn gwbl gydnaws â'r cyfeiriad strategol cenedlaethol. Wrth gysoni'r adnoddau o fewn y tîm Trawsnewid, mae'r ffocws bellach ar ddatblygu dull gweithredu integredig fel bod synergedd rhwng y dull gwella a'r gwaith sy'n cael ei wneud mewn perthynas â gwerth. I gefnogi'r cam cynllunio, cynhaliwyd digwyddiad gwella lleol ar 21 Tachwedd 2019. Daeth 49 o hyrwyddwyr gwella ar draws y sefydliad at ei gilydd i ganolbwyntio ar ddatblygu sgiliau a llunio 'Ffordd y Bae'. Mae canlyniadau'r gweithdy'n cael eu crynhoi ac rydym yn trafod cynnal sesiwn ddatblygu arall ar gyfer y Bwrdd er mwyn rhannu'r cynlluniau arfaethedig ar gyfer 'Ffordd y Bae' a chanolbwyntio ar wella.

Rheoli Risgiau

Mae'r fframwaith rheoli risgiau yn pennu'r ffordd y caiff risgiau eu nodi, eu gwerthuso a'u rheoli. Caiff y gwaith o gyflawni'r fframwaith ei oruchwylio gan y Pwyllgor Archwilio, ac mae gan swyddogion gweithredol ac uwch reolwyr gyfrifoldebau dirprwyedig penodol.

Darperir mwy o fanylion yn yr adroddiad llywodraethu blynyddol, ond cafwyd risgiau allweddol a effeithiodd ar y broses o gyflawni perfformiad o fewn y Bwrdd Iechyd. Roedd y rhain yn cynnwys:

- **Coronafeirws**

Y risg fwyaf y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei hwynebu ar hyn o bryd yw pandemig Covid-19, a ddechreuodd effeithio ar allu'r sefydliad i weithredu 'busnes fel arfer'.

Sefydlwyd strwythur trefn reoli aur yn gyflym i reoli ymateb y Bwrdd Iechyd a rhoddwyd y gorau i'r holl wasanaethau nad ydynt yn rhai brys, fel cleifion allanol a llawdriniaethau dewisol. Mae'r angen i gynllunio ac ymateb i bandemig Covid-19 wedi cael effaith sylweddol ar y sefydliad, y GIG yn ehangach a chymdeithas yn gyffredinol. Roedd angen ymateb dynamig ac mae hynny wedi cyflwyno nifer o gyfleoedd yn ogystal â risgiau. Bydd yr angen i ymateb i'r pandemig a dod drosto'n parhau drwy gydol 2020-21 a thu hwnt, o ran y sefydliad a'r gymdeithas ehangach. Bydd angen i fframwaith llywodraethu'r sefydliad ystyried yr angen hwn ac ymateb iddo. Cafodd y pandemig effaith sylweddol ar allu'r Bwrdd Iechyd i weithredu 'fel arfer' ac adlewyrchir hyn yn y data perfformiad ar gyfer chwarter olaf y flwyddyn.

- **Gofal Heb ei Drefnu**

Profodd y Bwrdd Iechyd lefelau digynsail o bwysau o ran gofal heb ei drefnu drwy gydol y flwyddyn. Golygai hyn fod angen canslo triniaethau gofal wedi'u cynllunio er mwyn ymdrin â'r achosion brys. Felly, nid yn unig yr oedd yn heriol cyflawni'r targedau ar gyfer gofal heb ei drefnu, ond ni allai'r Bwrdd Iechyd gyflawni chwaith o ran gofal wedi'i gynllunio.

- **Newidiadau i Bensiynau**

Oherwydd newidiadau a wnaed i bensiynau gan Gyllid a Thollau EM, ni allai'r gwasanaeth anesthetig weithio'n hyblyg mwyach, gyda nifer o feddygon ymgynghorol yn lleihau nifer eu sesiynau i'r lleiafswm, ac effeithiodd hyn ar nifer yr achosion o ofal wedi'i gynllunio.


- **Sefyllfa Ariannol**

Dechreuodd y Bwrdd Iechyd y flwyddyn gan ragweld y byddai'r gyllideb yn cael ei mantoli, ond oherwydd pwysau gweithredol, annarbodion maint yn dilyn newid ffin Pen-y-bont ar Ogwr, a chynnydd mewn costau gofal iechyd parhaus, cafwyd diffyg o £16.3m ar ddiwedd y flwyddyn.

- **Capasiti'r Gweithlu**

Oherwydd yr heriau wrth recriwtio, mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu gyda nifer o swyddi gwag, sydd wedi cynyddu ei ddibyniaeth ar staff asiantaeth a staff banc.

Gofal Sylfaenol



393,602 o gofrestriadau ym mhractisau meddygon teulu BIPBA

Mae **88%** o bractisau meddygon teulu'n cynnig apwyntiadau dyddiol rhwng 17:00 a 18:30

17,828 o gleifion wedi derbyn gofal gan Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru (EHEW)

(Ebr-19 hyd Chwef-20)

278,608 o gleifion deintyddol y GIG wedi eu trin

(cyfanswm o 2 flynedd hyd at Fedi-19)

Gofal Heb ei Drefnu



180,302 o dderbyniadau newydd i adrannau Damweiniau ac Achosion Brys

25,648 o ambiwlansys yn cyrraedd


70,924 o dderbyniadau brys

537 o dderbyniadau yn sgil strôc

(Ebr-19 hyd Chwef -20)

3,557 o achosion o drawma

Gofal wedi'i Gynllunio



232,338 o atgyfeiriadau am apwyntiadau ar gyfer cleifion allanol newydd

15790 o atgyfeiriadau brys yn sgil amheuaeth o ganser

171,039 o bresenoldebau gan gleifion allanol newydd a **341,039** o ymweliadau dilynol

3,706 o bresenoldebau iechyd meddwl newydd a **19,029** o ymweliadau dilynol

16,601 o apwyntiadau cleifion allanol a gollwyd (heb ddod i'r apwyntiadau)

28,179 - cyfanswm y llawdriniaethau a wnaed

11,905 o lawdriniaethau wedi'u canslo

2,468 o gleifion canser newydd eu diagnosio a gafodd driniaeth

Dadansoddi Perfformiad

Mae'r adran sy'n dilyn yn rhoi crynodeb o berfformiad y Bwrdd Iechyd yn 2019-20.

Mae Fframwaith Canlyniadau a Chyflawni Llywodraeth Cymru ar gyfer y GIG yn canolbwyntio ar wella iechyd a lles pobl Cymru drwy nodi canlyniadau a dangosyddion allweddol ar gyfer y boblogaeth o dan y saith maes canlynol:

- Cadw'n Iach
- Gofal Diogel
- Gofal Unigol
- Ein Staff a'n Hadnoddau
- Gofal Amserol
- Gofal Effeithiol
- Gofal gydag Urddas

Yn yr adran sy'n dilyn, rydym yn nodi sut rydym wedi perfformio yn erbyn y mesurau hyn gan Lywodraeth Cymru. Rydym yn gweithio ar sail 'cerdyn sgorio cytbwys' sy'n rhoi gwybodaeth i ni am y ffordd rydym yn perfformio dros y flwyddyn ac yn asesu a yw ein perfformiad wedi gwella, wedi dirywio neu wedi aros yr un fath yn ystod y cyfnod hwnnw.

Yn draddodiadol, mae'r perfformiad yn erbyn y mesurau o fewn y fframwaith yn cael eu hasesu ar sail blwyddyn ariannol h.y. 1 Ebrill hyd 31 Mawrth. Mae hyn yn golygu cysondeb o ran y cyfnodau adrodd ar gyfer data ariannol ac ar gyfer data perfformiad yng nghyfrifon blynyddol y GIG. Fodd bynnag, ar gyfer adroddiad blynyddol 2019-20 cytunodd pob Bwrdd Iechyd ar ddull cyson o gael asesiad gan Lywodraeth Cymru yn seiliedig ar naw mis o ddata (Ebrill i Ragfyr 2019). Roedd hyn yn sgil y rhesymau canlynol:

- O Ebrill 2019 trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am boblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf. Felly crewyd dau sefydliad newydd yn 2019-20, sef Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Ar gyfer y cyfnod cyn mis Ebrill 2019, pan ddigwyddodd y trosglwyddo, ni cheir data wedi'i ddadgyfuno ar gyfer y ddau sefydliad, felly dim ond data o 1 Ebrill 2019 y gellir ei ddefnyddio. Er cysondeb, cytunodd holl Fyrddau Iechyd Cymru y byddent yn mabwysiadu'r un dull, gan adrodd o Ebrill 2019.
- Cyflwynodd pandemig Covid-19 nifer o heriau i'r sefydliad a nodir y rhain yn y datgeliadau canlynol a wneir yn yr adroddiad ar berfformiad a'r cerdyn sgorio. Ar gyfer tri chwarter cyntaf 2019-20 yn unig y cyflwynwyd data perfformiad cyflawn ar gyfer y sefydliad. Cafodd y chwarter arall (Ionawr 2020 i Fawrth 2020) ei effeithio gan y pandemig ac am i fonitro perfformiad gael ei atal dros dro ganol mis Mawrth. Aseswyd tueddiadau perfformio gan ddefnyddio'r cyfnod Ebrill 2019 i Ragfyr 2019. Dim ond y mesurau hynny sydd â tharged misol/chwarterol absoliwt ar gyfer mis Rhagfyr 2019 neu drydydd chwarter 2019-20 sydd wedi'u cynnwys yn y golofn 'targedau a gyflawnwyd' ar y cerdyn sgorio. Mae'r sefydliad

wedi darparu gwybodaeth reoli a naratif lleol ar y ddarpariaeth a'r cyflawniadau drwy gydol chwarter olaf 2019/20 yn absenoldeb data perfformiad swyddogol.

Yn ogystal, mae nifer o fesurau o fewn y fframwaith yn seiliedig ar gymariaethau neu dueddiadau blynyddol ac, yn sgil absenoldeb data wedi'i ddadgyfuno, ni allai Llywodraeth Cymru asesu perfformiad y Bwrdd Iechyd ar gyfer nifer o fesurau. Mae'r rhain yn cynnwys heintiau sy'n cael eu dal wrth gael gofal iechyd, brechiadau rhag y ffliw, oriau agor practisau meddygon teulu, archwiliad o gywirdeb codio clinigol, derbyniadau i'r ysbyty yn sgil hunan-niwed, a menywod beichiog yn rhoi'r gorau i ysmygu. Lle y bo'n bosibl, mae cyfeiriadau at y mesurau hyn wedi'u cynnwys yn yr adrannau naratif sy'n dilyn.

Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb Llywodraeth Cymru o berfformiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn y mesurau yn y fframwaith ar gyfer 2019-20. Mae 93 o fesurau yn y fframwaith, ond dim ond 24 o fesurau sydd wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad uchod o'r tueddiadau, ac 13 yn y targedau a gyflawnwyd.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe	Perfformiad wedi gwella	Perfformiad yn gyson	Perfformiad wedi dirywio	Crynodeb o berfformiad	Targedau a gyflawnwyd*
CADW'N IACH: Mae pobl yng Nghymru yn cael yr wybodaeth a'r cymorth i reoli eu hiechyd corfforol a'u hiechyd meddwl eu hunain	3 mesur	0 mesur	1 mesur	↑	1 mesur
GOFAL DIOGEL: Caiff pobl yng Nghymru eu hamddiffyn rhag niwed a chânt gefnogaeth i amddiffyn eu hunain rhag niwed hysbys	3 mesur	1 mesur	4 mesur	↓	
GOFAL UNIGOL: Caiff pobl yng Nghymru eu trin fel unigolion sydd â'u hanghenion a'u cyfrifoldebau eu hunain	2 fesur	1 mesur	2 fesur	→	2 fesur
EIN STAFF A'N HADNODDAU: Gall pobl yng Nghymru gael gwybodaeth am sut y darperir adnoddau ar gyfer y GIG a sut i wneud defnydd gofalus ohonynt	4 mesur	0 mesur	1 mesur	↑	
GOFAL AMSEROL: Caiff pobl yng Nghymru fynediad amserol at wasanaethau yn seiliedig ar angen clinigol ac maent yn cymryd rhan weithredol mewn penderfyniadau ynghylch eu gofal	8 mesur	2 mesur	13 mesur	↓	7 mesur
GOFAL EFFEITHIOL: Mae pobl yng Nghymru yn cael y gofal a'r cymorth cywir mor lleol â phosibl a chânt eu galluogi i gyfrannu at sicrhau bod y gofal hwnnw yn llwyddiannus	3 mesur	0 mesur	4 mesur	↓	2 fesur
GOFAL GYDAG URDDAS: Caiff pobl yng Nghymru eu trin ag urddas a pharch ac maent yn parchu ac yn trin eraill yn yr un modd	1 mesur	0 mesur	0 mesur	↑	1 mesur
Nodyn: *Mae'r cerdyn sgorio hwn ar gyfer Ebrill i Ragfyr 2019.*	**CRYNODEB**	**24 mesur**	**4 mesur**	**25 mesur**	↓	**13 mesur**

* Perthnasol i'r mesurau hynny sydd â tharged misol/chwarterol absoliwt ar gyfer Rhagfyr 2019/chwarter 3 2019/20.

Mae gweddill yr adran hon yn rhoi crynodeb o berfformiad ar gyfer pob un o'r meysydd o fewn y fframwaith ac amlinellir manylion a dadansoddiad pellach o berfformiad ar gyfer nifer o fesurau ansawdd a mesurau mynediad allweddol. Os ydynt ar gael, mae data perfformiad hyd at fis Mawrth 2020 wedi'u cynnwys yn ychwanegol at y tablau cryno a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, sy'n adrodd hyd at Ragfyr 2019 yn unig.

Blaenoriaethau ar gyfer Ymyrraeth wedi'i Thargedu
Cafodd y Bwrdd Iechyd ei osod ar lefel Ymyrraeth wedi'i Thargedu gan Lywodraeth Cymru yn 2016 fel rhan o drefniadau dwysáu ac ymyrryd GIG Cymru. Mae'r tabl canlynol yn amlygu'r mesurau perfformiad y barnodd Llywodraeth Cymru bod angen eu gwella'n sylweddol (yn ychwanegol at gyllid, a drafodir mewn rhagor o fanylder yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn).

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ganolbwyntio'n gryf ar y blaenoriaethau ar gyfer ymyrraeth wedi'i thargedu, drwy adroddiadau perfformiad rheolaidd a thrwy reoli perfformiad strwythuredig. Roedd pob un o'r blaenoriaethau sydd wedi'u targedu yn greiddiol i gynllun blynyddol y Bwrdd Iechyd yn 2019-20 ac maent yn parhau'n elfennau allweddol yng nghynllun blynyddol 2020-21.

Mae rhagor o fanylion am y blaenoriaethau ar gyfer ymyrraeth wedi'i thargedu wedi'u cynnwys yn nes ymlaen yn yr adran hon o'r adroddiad.

			Quarter 1			Quarter 2			Quarter 3			Quarter 4		
			Apr-19	May-19	Jun-19	Jul-19	Aug-19	Sep-19	Oct-19	Nov-19	Dec-19	Jan-20	Feb-20	Mar-20
Unscheduled Care	4 hour A&E waits	Actual	74.5%	75.9%	75.0%	74.5%	74.3%	71.4%	71.0%	73.2%	70.9%	71.6%	74.1%	72.8%
		Profile	*77.1%*	*80.0%*	*81.9%*	*83.8%*	*84.6%*	*85.5%*	*72.4%*	*74.5%*	*77.3%*	*78.4%*	*80.2%*	*80.4%*
	12 hour A&E waits	Actual	653	602	644	642	740	939	890	927	1,018	1,038	783	557
		Profile	*484*	*374*	*273*	*283*	*266*	*238*	*799*	*693*	*656*	*612*	*444*	*297*
	1 hour ambulance handover	Actual	732	647	721	594	632	778	827	821	868	848	704	462
		Profile	*320*	*233*	*201*	*220*	*193*	*200*	*673*	*634*	*508*	*451*	*388*	*291*
Stroke	Direct admission within 4 hours	Actual	62.0%	54.5%	57.0%	56.8%	41.8%	28.6%	55.1%	55.1%	39.0%	23.5%	61.8%	*March 2020 data not avaialble*
		Profile	*76%*	*77%*	*78%*	*78%*	*79%*	*80%*	*80%*	*81%*	*82%*	*82%*	*83%*	
	CT scan within 1 hour	Actual	*62%*	*56%*	*52%*	*59%*	*48%*	*42%*	*47%*	*49%*	*44%*	*43%*	*38%*	
		Profile	*47%*	*52%*	*50%*	*53%*	*51%*	*58%*	*53%*	*58%*	*55%*	*58%*	*56%*	
	Assessed by Stroke Specialist within 24 hours	Actual	96%	93%	100%	98%	95%	95%	94%	98%	100%	90%	97%	
		Profile	*87%*	*89%*	*92%*	*89%*	*91%*	*94%*	*91%*	*93%*	*96%*	*93%*	*95%*	
	Thrombolysis door to needle within 45 minutes	Actual	*27%*	*17%*	*0%*	*40%*	*27%*	*0%*	*0%*	*0%*	*20%*	*0%*	*0%*	
		Profile	*20%*	*25%*	*25%*	*30%*	*30%*	*30%*	*35%*	*35%*	*35%*	*40%*	*40%*	
	Patients receiving the required minutes for Speech and Language Therapy	Actual	*57%*	*47%*	*41%*	*48%*	*48%*	*50%*	*49%*	*45%*	*38%*	*33%*	*28%*	
		Profile												
Planned care	Outpatients waiting more than 26 weeks	Actual	*236*	*323*	*297*	*479*	*925*	*1,039*	*1,152*	*1,120*	*1,305*	*1,453*	*1,306*	*2,055*
		Profile	*0*	*0*	*0*	*0*	*0*	*0*	*0*	*0*	*0*	*0*	*0*	*0*
	Treatment waits over 36 weeks	Actual	*1,976*	*2,104*	*2,318*	*2,690*	*3,263*	*3,565*	*4,256*	*4,587*	*5,141*	*5,623*	*5,729*	*6,509*
		Profile	*1,970*	*1,894*	*1,904*	*1,856*	*1,763*	*1,686*	*1,450*	*1,393*	*1,435*	*1,247*	*1,061*	*938*
	Diagnostic waits over 8 weeks	Actual	*401*	*401*	*295*	*261*	*344*	*294*	*223*	*226*	*569*	*628*	*424*	*1,407*
		Profile	*480*	*400*	*390*	*370*	*330*	*250*	*180*	*150*	*130*	*100*	*50*	*0*
	Therapy waits over 14 weeks	Actual	*0*	*0*	*0*	*0*	*1*	*0*	*1*	*0*	*0*	*0*	*1*	*51*
		Profile	*0*	*0*	*0*	*0*	*0*	*0*	*0*	*0*	*0*	*0*	*0*	*0*
Cancer	NUSC patients starting treatment in 31 days	Actual	91%	91%	94%	91%	93%	91%	98%	95%	92%	99%	93%	87%
		Profile	*98%*	*98%*	*98%*	*98%*	*98%*	*98%*	*98%*	*98%*	*98%*	*98%*	*98%*	*98%*
	USC patients starting treatment in 62 days	Actual	87%	80%	81%	76%	84%	86%	84%	86%	92%	86%	78%	73%
		Profile	*91%*	*94%*	*93%*	*96%*	*96%*	*94%*	*94%*	*94%*	*95%*	*95%*	*95%*	*89%*
Healthcare Acquired Infections	Number of healthcare acquired C.difficile cases	Actual	3	11	10	13	10	10	19	17	11	11	15	8
		Profile	17	12	12	15	12	9	12	12	12	13	14	11
	Number of healthcare acquired S.Aureus Bacteraemia cases	Actual	14	11	11	17	7	8	13	11	11	13	8	9
		Profile	11	14	12	13	12	11	11	15	15	10	16	11
	Number of healthcare acquired E.Coli Bacteraemia cases	Actual	27	22	29	35	22	23	25	15	32	33	31	23
		Profile	41	36	37	40	38	39	40	32	34	40	36	39

CADW'N IACH -

Mae pobl yng Nghymru yn cael yr wybodaeth a'r cymorth i reoli eu hiechyd corfforol a'u hiechyd meddwl eu hunain

Mae'r mesurau yn yr adran hon yn canolbwyntio ar atal ac ar y camau y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu cymryd i gynorthwyo pobl i reoli eu hiechyd eu hunain.

Yn y crynodeb canlynol o berfformiad y Bwrdd Iechyd yn y maes hwn, dim ond ar gyfer y ddau fesur sy'n ymwneud ag imiwneiddio plant y darparwyd dangosyddion mewn perthynas â chyrraedd y targedau, oherwydd ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid oedd data cyflawn ar gyfer y ddau fesur arall. Fodd bynnag, mae'r duedd ar gyfer y ddau fesur, yn seiliedig ar dri chwarter y flwyddyn, yn dangos tuedd sy'n gwella.

	Tueddiadau 3 chwarter			
	C1 2019/20	C2 2019/20	C3 2019/20	Tuedd
Canran y plant sydd wedi cael dau ddos o'r brechlyn MMR erbyn iddynt gael eu pen-blwydd yn 5 oed	92.5%	92.6%	91.5%	↓
Canran y plant sydd wedi cael tri dos o'r brechlyn '6 mewn 1' chwefalent erbyn iddynt gael eu pen-blwydd yn 1 oed	95.6%	95.7%	96.0%	↑
Canran y plant sy'n 10 diwrnod oed o fewn y cyfnod adrodd sydd wedi manteisio ar elfen cyswllt ymwelydd iechyd 10-14 diwrnod o Raglen Plant Iach Cymru	83.8%	91.8%	90.4%	↑
Cyfradd Ewropeaidd wedi'i safoni yn ôl oedran nifer derbyniadau i'r ysbyty oherwydd alcohol ar gyfer unigolion sy'n byw yng Nghymru*	451.0	438.1	405.8	↑


*Cymerwyd o ddata APC diweddaraf mis Ebrill

Cyflawni cydymffurfiaeth targed

Heb gyflawni cydymffurfiaeth targed

Imiwneiddio Plant

Gwnaed cynnydd da drwy gydol y flwyddyn i gynyddu cyfraddau imiwneiddio plant. Rhwng Ebrill 2019 a Rhagfyr 2019, derbyniodd 2,690 (96%) o blant dri dos o'r brechlyn 'chwech mewn un' erbyn eu bod yn flwydd oed. Cafodd 2,867 (92%) o blant ddau ddos o frechlyn MMR (y frech goch, clwy'r pennau a rwbela) erbyn eu bod yn bump oed. Cyflawnodd y Bwrdd Iechyd y targed o 95% ar gyfer MMR i blant pum mlwydd oed ond methodd â chyrraedd y 95% ar gyfer y brechlyn 'chwech mewn un' ar gyfer plant blwydd oed.




Mae'r targed cenedlaethol o 95% yn bwysig er mwyn gallu cyflawni imiwnedd torfol. Er mwyn gwella'r niferoedd dros y 12 mis nesaf, bydd gweithwyr iechyd proffesiynol (meddygon teulu, ymwelwyr iechyd, nyrsys ysgol a nyrsys practis) yn parhau i wirio'r statws imiwneiddio ym mhob cyswllt a geir, a bydd rhestri aros/clinigau a ganslwyd hefyd yn cael eu monitro'n agos gan y tîm gofal sylfaenol. Yn ogystal, bydd y tîm iechyd cyhoeddus lleol yn sicrhau bod yr argymhellion a wnaed gan grŵp gorchwyl dileu'r frech goch yn cael eu gweithredu'n lleol.

CADW'N IACH

Rhaglen Plant Iach Cymru (HCWP)

Rhyddhawyd Rhaglen Plant Iach Cymru gan Lywodraeth Cymru yn 2016 ac mae'n ddull y cytunwyd arno ar gyfer Cymru gyfan i gefnogi a gwella datblygiad plant. Mae'r rhaglen yn pennu pa gysylltiadau arfaethedig y gall plant a'u teuluoedd ddisgwyl eu gweld gan ymwelwyr iechyd a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill, o'r adeg y trosglwyddir o wasanaeth mamolaeth hyd at flynyddoedd cyntaf yr ysgol. Mae'r cysylltiadau cyffredinol hyn yn cwmpasu tri maes ymyrraeth: sgrinio; imiwneiddio; monitro a chefnogi datblygiad plant (gwyliadwriaeth).

Yr unig fesur yn y rhaglen sydd â tharged penodol yw'r un ar gyfer canran y plant 10 diwrnod oed sy'n gymwys i gael cyswllt ac sydd wedi derbyn cyswllt gan ymwelydd iechyd ar ddiwrnod 10-14, yn unol â Rhaglen Plant Iach Cymru.



Er nad oedd y set ddata gyflawn ar gyfer y flwyddyn ar gael ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, gwelwyd tuedd i wella drwy gydol 2019-20. Er mwyn cynnal hyn a'i wella ymhellach, bydd y Bwrdd Iechyd yn sicrhau y bydd yr holl fabanod nad ydynt yn derbyn eu cysylltiad ar ddiwrnod 10-14 yn cael eu hadolygu fesul mis, a bod camau adfer yn cael eu nodi. Byddwn hefyd yn sicrhau bod unrhyw fethiant i gysylltu ar ddiwrnod 10-14 yn cael ei gofnodi ar system cofnodi digwyddiadau'r Bwrdd Iechyd (DATIX); a byddwn yn adolygu'r broses casglu data er mwyn sicrhau bod y data a gyhoeddir yn gywir ac yn cael ei gyflwyno ar amser.

Mae dau fesur allweddol arall wedi'u cynnwys ym maes cadw'n iach nad ydynt wedi'u cynnwys yn asesiad Llywodraeth Cymru o berfformiad y Bwrdd Iechyd, gan nad oedd setiau data llawn ar gael ar adeg ysgrifennu'r adroddiad. Y gwasanaeth brechu rhag y ffliw a'r gwasanaeth rhoi'r gorau i ysmygu yw'r rhain.


Brechu rhag y Ffliw

Nid oedd y data cyflawn ar gyfer y nifer a fanteisiodd ar frechiad rhag y ffliw ar gael ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn. Fodd bynnag, mae data mewnol yn awgrymu i'r Bwrdd Iechyd ond syrthio ychydig yn brin o'r targed o 60% ar gyfer gweithwyr gofal iechyd, gan gyrraedd 59%. Mae data mewnol yn awgrymu bod y targed ar gyfer nifer y plant rhwng dwy a thair oed a gafodd eu brechu rhag y ffliw wedi'i gyflawni yn 2019-20. Fodd bynnag, ni chyflawnwyd y targedau ar gyfer pobl dros 65 oed, nac ar gyfer pobl o dan 65 mewn grwpiau risg. Mae'r niferoedd terfynol yn debygol o gael eu cyhoeddi yn haf 2020.

CADW'N IACH -

Gwasanaethau Rhoi'r Gorau i Ysmygu

Mae'r ddau fesur sy'n gysylltiedig â rhoi'r gorau i ysmygu yn ymwneud ag ysmygwyr sy'n oedolion ac sy'n gwneud ymdrech i roi'r gorau iddi drwy wasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu (Helpa Fi i Stopio), ac yn ymwneud â'r ysmygwyr hynny y cadarnheir ar y cyd iddynt roi'r gorau i ysmygu ar ôl pedair wythnos. Er nad oes data llawn ar gael eto, dengys arwyddion cynnar y byddwn yn cyflawni'r mesur ar gyfer canran yr ysmygwyr y cadarnheir ar y cyd iddynt roi'r gorau i ymsygu ar ôl pedair wythnos, ond na fyddwn yn cyflawni'r mesur ar gyfer canran yr ysmygwyr sy'n ceisio rhoi'r gorau iddi drwy wasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu.



Mewn partneriaeth â'r tîm Iechyd Cyhoeddus lleol, bydd y Bwrdd Iechyd yn:

- Cryfhau gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu drwy ddatblygu asesiad o anghenion tybaco er mwyn llywio'r gwaith o gynllunio ar gyfer Helpa Fi i Stopio, sef y model ar gyfer gwasanaethau integredig, yn unol ag anghenion y boblogaeth;
- Gwella ymgysylltiad drwy bractisau meddygon teulu drwy ddefnyddio'r clystyrau gofal sylfaenol a chynyddu lefel y gwasanaethau a ddarperir gan fferyllfeydd cymunedol;
- Parhau i orfodi'r polisi dim ysmygu ar y safleoedd;
- Cryfhau'r llwybrau ar gyfer gwasanaethau cymunedol i famau, cleifion mewnol, ac ar gyfer cleifion sy'n derbyn triniaethau dewisol.

GOFAL DIOGEL-

Caiff pobl yng Nghymru eu hamddiffyn rhag niwed a chânt gefnogaeth i amddiffyn eu hunain rhag niwed hysbys

Mae'r mesurau yn yr adran hon yn canolbwyntio ar ddiogelwch ac ar sicrhau nad yw cleifion yn cael niwed.

Ni wnaethom gyflawni unrhyw un o'r targedau yn y maes hwn. Fodd bynnag, mae data mewnol yn awgrymu na chafwyd unrhyw ddigwyddiadau 'byth' ym mis Mawrth 2020 a bod y nifer a ddaliodd heintiau wrth dderbyn gofal iechyd wedi gwella drwy gydol y flwyddyn. Ceir mwy o fanylion am yr holl fesurau ansawdd yn yr adran hon yn y Datganiad Ansawdd Blynyddol.

	Tueddiadau 9 mis – Ariannol									
	Ebrill-19	Mai-19	Mehefin-19	Gorffennaf-19	Awst-19	Medi-19	Hydref-19	Tachwedd-19	Rhagfyr-19	Tuedd
O'r digwyddiadau difrifol y disgwylid eu sicrhau, y ganran a sicrhawyd o fewn y gyfradd amser y cytunwyd arni*	58.3%	7.7%	22.2%	47.6%	70.6%	12.5%	44.4%	57.1%	38.9%	↑
Nifer y digwyddiadau byth newydd*	0	1	1	1	1	0	1	0	1	→
Canran y cleifion mewnol a gafodd brawf sgrinio sepsis positif sydd wedi cael pob elfen o'r bwndel chwe cham sepsis ar gyfer yr awr gyntaf o fewn awr i gael y prawf sgrinio positif	0.0%	50.0%	25.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	33.3%	↓

	Tueddiadau 3 chwarter			
	C1 2019/20	C2 2019/20	C3 2019/20	Tuedd
Meintiau dyddiol cyfartalog o gyffuriau opioid fesul 1,000 o gleifion	4,450.69	4,485.51	4,409.03	↑
Nifer y cleifion 65 oed a hŷn sydd wedi cael cyffuriau antiseicotig ar bresgripsiwn	1,433	1,470	1,474	↓
Cyfanswm yr eitemau gwrthlidiol fesul 1,000 STAR-PU (uned ragnodi grŵp therapiwtig penodol sy'n gysylltiedig ag oedran	294.01	279.13	336.51	↓
Eitemau Fluoroquinolone, Cephalosporin, Clindamycin a Co-amoxiclav fesul 1,000 o gleifion	13.94	13.30	13.59	↑
Nifer y Rhybuddion a Hysbysiadau gan Datrysiadau Diogelwch Cleifion Cymru nad oeddent wedi'u sicrhau o fewn y raddfa amser y cytunwyd arni	0	1	1	↓

Sylwer: Nid yw'r data ar gyfer y mesur Argyfwng Sepsis wedi'u cynnwys gan nad yw data ar gyfer y mesur hwn yn cael eu cyflwyno gan y Bwrdd Iechyd

Cyflawni cydymffurfiaeth targed

Heb gyflawni cydymffurfiaeth targed

*Data ar 29/04/20

Mesurau Rhagnodi Cenedlaethol

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i leihau'r nifer gyffredinol o wrthfiotigau ac eitemau gwrthfacterol sy'n cael eu rhagnodi. Er mwyn cadw ffocws, mae'r canlynol wedi eu rhoi yn eu lle:



- Bydd cynllun rheoli presgripsiynau ar gyfer 2020-21 yn canolbwyntio ar bresgripsiynau 4C drwy archwiliad cyn-gymhwyso ar ragnodi ceffalosborin. Bydd hyn yn adeiladu ar y llwyddiant a welwyd gyda'r archwiliad co-amoxiclav blaenorol a hefyd yn llywio'r gwaith o ddatblygu'r canllawiau ar wrthfiotigau;
- Mae Fferyllydd Gwrthficrobaidd Ymgynghorol yn ei swydd ac yn darparu cyfeiriad strategol ar gyfer y rhaglenni stiwardiaeth ar draws gofal sylfaenol ac eilaidd. Mae Fferyllydd Gwrthficrobaidd ar gyfer gofal sylfaenol hefyd yn ei swydd;
- Gwaith wedi'i dargedu, a gynlluniwyd gyda chartrefi gofal, i wella wrth samplu ac wrth ddarparu gwybodaeth glinigol i ragnodwyr mewn perthynas â rheoli heintiau'r llwybr wrinol;
- Ffocws ar yr arferion rhagnodi gorau, gydag archwiliadau ac adborth gan fferyllwyr gwrthficrobaidd yn y maes;
- Cysylltiadau ag 'Eich Meddygyniaethau, Eich Iechyd' er mwyn hyrwyddo negeseuon am wrthfiotigau i'r cyhoedd.

GOFAL DIOGEL


Digwyddiadau Difrifol a Digwyddiadau 'Byth'

Mae digwyddiadau 'byth' yn ddigwyddiadau difrifol sy'n ymwneud â diogelwch cleifion ac y gellir eu hatal i raddau helaeth. Ni ddylent ddigwydd os yw'r mesurau ataliol sydd ar gael wedi cael eu gweithredu. Yn ystod 2019-20, cafwyd saith o ddigwyddiadau 'byth' yn y Bwrdd Iechyd. Ymchwiliwyd i bob un o'r digwyddiadau a dysgwyd gwersi er mwyn lleihau'r risg o hyn yn digwydd eto. Isod, amlinellir enghreifftiau o'r hyn a ddysgwyd a'r hyn a fydd yn parhau i gael ei ddatblygu yn 2020-21:

- Adolygu rhestr wirio gyfredol Sefydliad Iechyd Cymru (WHO) a chydymffurfio ag archwiliadau;
- Archwiliadau bob chwe mis i asesu cydymffurfiaeth o ran defnyddio'r rhestr wirio gywir ar gyfer llawfeddygaeth safleoedd (rhestr wirio Ymgyrch 1000+ o fywydau neu debyg);
- Adolygu'r 'Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Ymyrrol' (LocSSIPs) er mwyn atal rhoi'r mewnblaniadau/prosthesis anghywir a gwneud yr echdyniadau/llawfeddygaeth anghywir;
- Adolygu arferion llywodraethu ac asesiadau risg cyn gwneud unrhyw newid i arferion.
- Cyflwyno brîff diogelwch ar ddechrau pob triniaeth ymyrrol gan neilltuo apwyntiad ar gyfer hyn;
- Rhannu'r hyn a ddysgir, yn ddienw, gyda Llywodraeth Cymru, AGIC (Addysg a Gwella Iechyd Cymru), y pwyllgor deintyddol lleol, grwpiau ansawdd a diogelwch y Bwrdd Iechyd a'i ymarferwyr lleol drwy'r cylchlythyr ac ymweliadau diwedd blwyddyn â phractisau.

Mae'r digwyddiadau difrifol a adroddwyd yn fisol i'w gweld fesul mis yn y graff isod. Mae'r graff yn dangos cynnydd sydyn a oedd yn gysylltiedig â'r newidadau wrth adrodd am ddigwyddiadau iechyd meddwl difrifol. Caiff unrhyw farwolaeth annisgwyl gan glaf sy'n hysbys i'r gwasanaethau iechyd meddwl o fewn blwyddyn i'w cyswllt diwethaf ei hadrodd i Lywodraeth Cymru fel digwyddiad difrifol. Mae'r cynnydd hwn wedi dechrau

sefydlogi yn 2019-20 ond mae'r twf yn y niferoedd yn cael effaith andwyol ar allu'r Bwrdd Iechyd i gau digwyddiadau o fewn y 60 diwrnod gwaith cytunedig.



Mae Llywodraeth Cymru yn adolygu'r fframwaith ar gyfer digwyddiadau difrifol ac yn cydnabod bod digwyddiadau difrifol sy'n ymwneud ag iechyd meddwl yn aml yn anodd i ymchwilio iddynt a'u cwblhau o fewn 60 o ddiwrnodau gwaith, o gofio bod teuluoedd yn aml yn dal i alaru ac nad yw achos y farwolaeth ar gael am beth amser wedi hynny, o ystyried yr amserlenni tocsicoleg. O 1 Ebrill 2020, ni fydd yn ofynnol mwyach i'r byrddau iechyd gael eu monitro yn erbyn y 60 o ddiwrnodau gwaith.

GOFAL DIOGEL

Atal a Rheoli Heintiau

Seilir y mesurau rheoli heintiau ar dueddiad lleihau blynyddol, ond oherwydd newid yn ffin Pen-y-bont ar Ogwr ym mis Ebrill 2019, nid yw'n bosibl cymharu data 2019-20 â data 2018-19 yn fanwl gywir. Felly, nid yw'r mesurau hyn wedi eu cynnwys yn asesiad Llywodraeth Cymru o'n perfformiad.

Fodd bynnag, mae rheoli heintiau a lleihau nifer yr heintiau sy'n cael eu dal wrth gael gofal iechyd yn flaenoriaeth ymyrraeth wedi'i thargedu ar gyfer y Bwrdd Iechyd, felly mae'n bwysig nodi ein perfformiad ar gyfer 2019/20 a'r camau rydym yn bwriadu eu cymryd.

Mae'r tabl canlynol yn rhoi crynodeb o'r modd y mae'r Bwrdd Iechyd wedi perfformio yn 2019-20 mewn perthynas â phob un o'r pum mesur cenedlaethol ar gyfer rheoli heintiau. Cyflawnwyd pob un o'n proffiliau lleihau mewnol yn 2019-20.

	Achosion cronnol 19/20 (Ebr-19 i Maw-20)	Proffil gostyngiad mewnol ar gyfer achosion cronnol 19/20	Cyflawni'r gostyngiad mewnol
E.coli	317	452	✓
S.aureus bacteraemias (MRSA a MSSA)	133	151	✓
C.difficile	138	151	✓
Klebsiella sp	82	116	✓
Aeruginosa	28	32	✓

Er i ostyngiadau gael eu gwneud o ran cyfraddau HGGI (heintiau a ddelir wrth gael gofal iechyd) ar gyfer pob un o'r mesurau cenedlaethol dros y 12 mis diwethaf, mae angen canolbwyntio ymhellach ar hyn er mwyn cyflawni'r targedau a bennwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn unol â phob bwrdd iechyd ledled Cymru.

Yn 2020-2021, mae angen canolbwyntio ar waith glanhau amgylcheddol ac ar y gwaith hanfodol o atgyweirio a disodli seilwaith hynafol mewn wardiau. Mae gorlenwi a diffyg cyfleusterau adleoli yn cael effaith sylweddol ar allu'r Bwrdd Iechyd i leihau'r heintiau sy'n cael eu trosglwyddo. Mae'r holl risgiau cysylltiedig yn cael eu monitro gan y Pwyllgor Rheoli Heintiau deufisol ac yn cael eu huwchgyfeirio i'r Pwyllgor Ansawdd a diogelwch, fel y bo'n briodol.

Er mwyn symud y ffocws o reoli i atal, rydym yn parhau â chynlluniau i leihau dyfeisiau mewnwthiol ar draws y Bwrdd Iechyd; rydym yn cynyddu nifer yr asesiadau cymhwysedd bob mis ar gyfer Techneg Aseptig Di-gyffwrdd (ANTT); rydym hefyd yn cynyddu'r defnydd o'r ARK (pecyn adolygu gwrthfiotigau). Yn ogystal â hyn, bydd yr adnodd atal a rheoli heintiau (IPC) newydd o fewn gofal cymunedol a sylfaenol yn helpu i symud y ffocws ar atal HGGI a derbyniadau cysylltiedig ac yn lleihau cyfraddau HGGI.

GOFAL UNIGOL -

Caiff pobl yng Nghymru eu trin fel unigolion sydd â'u hanghenion a'u cyfrifoldebau eu hunain

Mynediad at linellau cymorth a gwasanaethau iechyd meddwl yw themâu'r pum mesur yn yr adran hon.

	Tueddiadau 9 mis – Ariannol									
	Ebrill-19	Mai-19	Mehefin-19	Gorffennaf-19	Awst-19	Medi-19	Hydref-19	Tachwedd-19	Rhagfyr-19	Tuedd
Canran y trigolion bwrdd iechyd sy'n derbyn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd (pob oed) sydd â chynllun gofal a thriniaeth dilys	88.9%	89.0%	86.9%	87.5%	91.1%	92.1%	91.5%	91.7%	91.5%	↑
Holl drigolion bwrdd iechyd sydd wedi cael eu hasesu o dan ran 3 o'r mesur iechyd meddwl i gael copi o'u hadroddiad o asesiad canlyniadau hyd at ac yn cynnwys 10 diwrnod gwaith ar ôl i'r asesiad gael ei gynnal	100.0%	100.0%	100.0%	100.0%	100.0%	100.0%	100.0%	100.0%	100.0%	→

	Tueddiadau 3 chwarter			
	C1 2019/20	C2 2019/20	C3 2019/20	Tuedd
Nifer y galwadau i linell gymorth CALL (Llinell Wrando a Chymorth Cymunedol) gan drigolion Cymru fesul 100,000 o'r boblogaeth	198.0	188.0	128.4	↓
Nifer y galwadau i Linell Gymorth Dementia Cymru gan drigolion Cymru fesul 100,000 o'r boblogaeth (40+ oed)	4.0	8.0	4.0	↑
Nifer y galwadau i linell gymorth DAN 24/7 (cyffuriau ac alcohol) gan drigolion Cymru fesul 100,000 o'r boblogaeth	41.3	39.3	32.4	↓

Cyflawni cydymffurfiaeth targed
Heb gyflawni cydymffurfiaeth targed

Iechyd meddwl

Mae'r ddau fesur iechyd meddwl yn yr adran hon wedi'u cymryd o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) ac o'r targedau ar gyfer y ddau fesur hynny lle y maent yn cael eu cyflawni'n gyson drwy gydol y flwyddyn. Ceir rhagor o fanylion am y perfformiad yn erbyn y mesurau iechyd meddwl yn yr adran am ofal amserol.

Mynediad i linellau cymorth cenedlaethol
Mae'r mesurau hyn yn canolbwyntio ar dair llinell gymorth sydd ar gael i drigolion Cymru, sy'n cynnwys llinell gymorth CALL; llinell gymorth 24/7 DAN a llinell gymorth Dementia Cymru. Mae gwasanaeth y llinell wrando a chymorth cymunedol (CALL) yn cynnig cefnogaeth emosiynol a gwybodaeth/llenyddiaeth am iechyd meddwl a materion cysylltiedig i bobl yng Nghymru. Mae llinell gymorth Dementia Cymru yn cynnig cymorth emosiynol i unrhyw un, o unrhyw oedran, sy'n gofalu am rywun â dementia, yn ogystal ag aelodau eraill o'r teulu neu ffrindiau. Mae hefyd yn cefnogi'r rhai sydd wedi cael diagnosis o ddementia. Mae DAN 24/7 yn llinell gymorth cyffuriau sy'n darparu un pwynt cyswllt ar gyfer unrhyw un yng Nghymru sydd am gael rhagor o wybodaeth neu gymorth yn ymwneud â chyffuriau neu alcohol.

Mae'r data diweddaraf sydd ar gael ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn ar gyfer chwarter tri 2019-20, sy'n dangos bod nifer y bobl a fanteisiodd ar linell gymorth Dementia Cymru wedi cynyddu tra bo'r defnydd o linellau cymorth DAN 24/7 a CALL wedi lleihau.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn mynd ati i hyrwyddo llinell gymorth C.A.L.L. drwy ddefnyddio taflenni a chardiau galw sydd ar gael mewn safleoedd cymunedol a wardiau. Mae cydlynwyr gofal hefyd yn cynghori pobl y maent yn dod i gysylltiad â nhw am y llinell gymorth. Yn ogystal â hyn, gan fod y llinell gymorth nid yn unig ar gyfer anawsterau iechyd meddwl difrifol, ond ar gyfer pawb sydd ag unrhyw bryderon am les meddyliol, mae'r llinell gymorth yn cael sylw yn ein deunyddiau Dewis Doeth. Fodd bynnag, cydnabyddir bod angen gwneud mwy i hyrwyddo'r tair llinell gymorth.

EIN STAFF A'N HADNODDAU-

Gall pobl yng Nghymru gael gwybodaeth am sut y darperir adnoddau ar gyfer y GIG a sut i wneud defnydd gofalus ohonynt

Mae'r mesurau yn y maes hwn yn canolbwyntio ar ddefnyddio adnoddau'n effeithlon a sicrhau bod staff yn cael hyfforddiant o safon er mwyn darparu gofal rhagorol.

	Ebrill-19	Mai-19	Mehefin-19	Gorffennaf-19	Awst-19	Medi-19	Hydref-19	Tachwedd-19	Rhagfyr-19	Tuedd
Canran y pennau a gyfrifir gan sefydliad sydd wedi cael Arfarniad Perfformiad ac Adolygiad Datblygu (PADR)/arfarniad meddygol yn y 12 mis blaenorol (ac eithrio meddygon a deintyddion dan hyfforddiant)	63.9%	64.4%	64.3%	64.4%	65.3%	67.0%	65.4%	68.7%	69.9%	↑
Canran y gydymffurfiaeth ar gyfer yr holl gymwyseddau Lefel 1 a gwblhawyd o fewn y Fframwaith Sgiliau Craidd a Hyfforddiant fesul Sefydliad	74.2%	74.7%	75.1%	76.7%	78.2%	78.4%	78.8%	79.7%	79.9%	↑
Canran cyfradd absenoldeb oherwydd salwch staff	5.94%	5.97%	5.98%	5.98%	5.96%	5.95%	6.01%	6.02%	6.07%	↓

	Tueddiadau 3 chwarter			
	C1 2019/20	C2 2019/20	C3 2019/20	Tuedd
Canran y cleifion deintyddol sy'n oedolion yn y bwrdd iechyd sy'n dychwelyd i ofal deintyddol sylfaenol y GIG rhwng 6 a 9 mis	32.2%	32.2%	32.1%	↑
Canran y diwrnodau gwely gofal critigol a gollwyd oherwydd oedi wrth drosglwyddo gofal (diffiniad ICNARC)	31.3%	30.3%	21.3%	↑

Cyflawni cydymffurfiaeth targed
Heb gyflawni cydymffurfiaeth targed


Adolygiad Gwerthuso a Datblygu Perfformiad (PADR)
Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod mai ei weithwyr yw ei adnodd mwyaf gwerthfawr o ran darparu gofal rhagorol i'w gleifion a defnyddwyr gwasanaethau, a'u bod yn hanfodol er mwyn darparu gwasanaethau gofal iechyd da yn effeithiol ac yn effeithlon.

Mae cyflawni gofal o ansawdd uchel i gleifion yn dibynnu ar bob gweithiwr yn:

- Meddu ar ddealltwriaeth glir o weledigaeth a gwerthoedd y Bwrdd Iechyd, ac o'u rolau a'r rhan y maen nhw'n ei chwarae yn y tîm ac o fewn y sefydliad;
- Cytuno ar set o flaenoriaethau ac amcanion ar gyfer eu gwaith;
- Meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu rôl yn effeithiol a chyflawni eu hamcanion, a chymhwyso'r wybodaeth a'r sgiliau hynny;
- Cael y cyfle i ddatblygu eu gyrfa, a gefnogir gan gynllun datblygu personol.


Yn 2019-20, ni wnaethom gyrraedd y targed cenedlaethol o 85%. Fodd bynnag, gwellodd perfformiad dros y flwyddyn gan gyrraedd 72% ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r camau sy'n cael eu cymryd i wella yn cynnwys y canlynol:

- Bydd hyfforddiant PADR yn orfodol i bob rheolwr newydd sydd â chyfrifoldeb dros reoli pobl.
- Mae prosiect ymchwil yn cael ei gynnal a fydd yn gwneud argymhellion i wella cydymffurfiaeth yn y dyfodol.



EIN STAFF A'N HADNODDAU -

Hyfforddiant Statudol a Gorfodol
Mae cydymffurfiad â'r fframwaith sgiliau a hyfforddiant craidd wedi gwella'n sylweddol dros y flwyddyn gyda chyflawniad o 83% ym mis Mawrth 2020 yn erbyn y targed cenedlaethol o 85%. Er mwyn gwella ar y lefel hon o berfformiad, rydym yn sicrhau bod ein systemau yn cofnodi cydymffurfiad yn gywir, yn enwedig mewn perthynas â hyfforddiant wyneb yn wyneb. Rydym yn cynyddu'r gweithdai e-ddysgu, ac mae pob un o'r arbenigwyr pwnc perthnasol yn parhau i archwilio'r fframwaith hyfforddi gorfodol presennol i sicrhau ei fod yn addas i'w ddiben ac er mwyn cynnig sylwadau ar unrhyw newidiadau sydd angen eu gwneud.



Absenoldeb Salwch
Mae'r gyfradd gronnol ar gyfer absenoldeb oherwydd salwch yn y Bwrdd Iechyd yn uwch na 6%, sy'n uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan. Mae'r gwaith canolbwyntiedig a wnaed gan yr unedau darparu gwasanaeth yn cael ei adlewyrchu yn y gostyngiad yn nifer y staff ar absenoldeb hirdymor oherwydd salwch. Fodd bynnag, mae salwch tymor byr yn parhau i fod yn her. Y prif reswm dros absenoldeb yw straen, pryder, iselder a salwch iechyd meddwl arall, sy'n cyfrif am bron 30% o'r holl absenoldebau. Rydym wedi mabwysiadu Polisi Cymru Gyfan ar gyfer Rheoli

Presenoldeb yn y Gwaith sy'n atgyfnerthu'r ffocws ar weithgareddau iechyd a lles staff i gynyddu presenoldeb yn y gwaith. Amcanion craidd y polisi yw cefnogi iechyd a lles gweithwyr yn y gweithle; cefnogi gweithwyr i ddychwelyd i'r gwaith yn ddiogel ac yn gyflym ar ôl cyfnod o absenoldeb; a chefnogi gweithwyr i barhau â'u presenoldeb yn y gwaith. Yn ogystal â gwneud y Polisi Rheoli Presenoldeb yn rhan annatod o arferion bob dydd y sefydliad, rydym yn datblygu nifer o gamau gweithredu i helpu i leihau'r gyfradd absenoldeb oherwydd salwch. Mae'r camau gweithredu hyn yn cynnwys:

- Datblygu cynllun ar sail yr hyn a ddysgwyd gan astudiaeth achos o'r arferion gorau, sef astudiaeth a gynhaliwyd mewn tri maes lle'r oedd y perfformiad yn dda o ran salwch;
- Digwyddiadau dysgu a chynllun gweithredu ar y cyd â'r gweithlu, gyda iechyd galwedigaeth yn gweithio mewn partneriaeth i wella presenoldeb;
- Cyflwyno'r broses ymyrraeth gynnar a gafodd ei threialu'n llwyddiannus o fewn adran gyfleusterau Treforys;
- Cyflawni'r prosiect buddsoddi i arbed, sef 'Mynediad Cyflym - Gwasanaeth Cynghori a Chefnogi Lles Staff', gan alluogi ymyrraeth gynnar ar gyfer iechyd meddwl a chyflyrau cyhyrysgerbydol;
- Treialu'r dull "Mabwysiadu Rheolwr" yn dilyn hyfforddiant ar y Polisi Rheoli Presenoldeb. Pennwyd cydweithwyr o fewn y gweithlu ar gyfer rheolwyr o feysydd penodol lle ceir llawer o absenoldebau, a byddant nawr yn darparu hyfforddiant a chymorth penodol yn ôl yn y gweithle ar ôl cwblhau hyfforddiant rheolwyr.
- Mae 350 o hyrwyddwyr lles staff wedi'u hyfforddi i gefnogi eu timau a'u cyfeirio at wasanaethau cymorth y Bwrdd Iechyd, gan hyrwyddo dulliau ataliol/ymyrraeth gynnar.

GOFAL AMSEROL-

Caiff pobl yng Nghymru fynediad amserol at wasanaethau yn seiliedig ar angen clinigol ac maent yn cymryd rhan weithredol mewn penderfyniadau ynghylch eu gofal

Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar fynediad at wasanaethau ac mae'r mesurau'n canolbwyntio'n bennaf ar amseroedd aros. Gwnaed cynnydd sylweddol yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â strôc, canser, apwyntiadau dilynol a ohiriwyd ac iechyd meddwl.


	Ebrill-19	Mai-19	Mehefin-19	Gorffennaf-19	Awst-19	Medi-19	Hydref-19	Tachwedd-19	Rhagfyr-19
Canran goroesi o fewn 30 diwrnod o dderbyn claf i'r ysbyty ar frys am dorri ei glun***	75.6%	86.3%	88.6%	90.5%	82.6%	89.7%	95.9%	78.7%	84.4%
Canran y cleifion sy'n aros llai na 26 wythnos i gael triniaeth	88.8%	88.1%	88.0%	87.8%	86.4%	85.1%	84.5%	84.1%	82.6%
Nifer y cleifion sy'n aros mwy na 36 wythnos am driniaeth	1,973	2,101	2,319	2,691	3,262	3,563	4,254	4,586	5,138
Nifer y cleifion sy'n aros mwy nag 8 wythnos ar gyfer triniaeth ddiagnostig benodol	401	401	295	261	344	294	222	226	569
Nifer y cleifion sy'n aros mwy na 14 wythnos am therapi penodol	0	0	0	0	1	0	1	0	0
Nifer cleifion sy'n aros am apwyntiad cleifion allanol dilynol	135,093	136,216	137,057	135,400	134,363	132,054	131,471	130,648	131,263
Nifer cleifion sy'n aros am apwyntiad cleifion allanol dilynol ac sydd wedi profi oedi dros 100%	24,642	25,703	26,545	24,398	25,758	23,537	21,778	20,498	20,579
Canran y cleifion sy'n cael diagnosis o strôc sy'n cael eu derbyn yn syth i uned strôc o fewn 4 awr*	60.8%	56.8%	55.6%	54.9%	41.8%	28.6%	55.1%	55.3%	39.3%
Canran y cleifion sy'n cael eu hasesu gan feddyg ymgynghorol strôc arbenigol o fewn 24 awr*	96.1%	93.3%	100.0%	98.1%	94.7%	95.3%	93.9%	98.0%	100.0%
Cleifion sy'n cael y munudau gofynnol o therapi lleferydd ac iaith	57.4%	47.0%	40.0%	47.3%	48.3%	49.6%	45.3%	52.8%	37.7%
Canran yr ymatebion brys i alwadau coch sy'n cyrraedd o fewn (hyd at ac yn cynnwys) 8 munud	66.0%	73.5%	74.5%	70.9%	70.7%	66.7%	66.4%	58.8%	61.8%
Nifer y trosglwyddiadau ambiwlans dros un awr	732	646	720	594	632	778	827	821	863
Canran cleifion sy'n treulio llai na 4 awr ym mhob cyfleuster gofal brys mawr a bach (h.y. adran damweiniau ac achosion brys) o'r adeg y byddant yn cyrraedd i'r adeg y cânt eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau.	74.5%	76.5%	75.0%	74.5%	74.3%	71.5%	71.0%	73.2%	71.0%
Nifer y cleifion sy'n treulio 12 awr neu fwy ym mhob cyfleuster gofal mawr a bach mewn ysbytai Nifer y cleifion sy'n treulio 12 awr neu fwy ym mhob cyfleuster gofal mawr a bach mewn ysbytai o'r adeg y byddant yn cyrraedd i'r adeg y cânt eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau	653	583	644	642	740	939	889	927	1,017
Canran y cleifion sydd newydd gael diagnosis o ganser, nid drwy'r llwybr brys, a ddechreuodd driniaeth ddiffiniol o fewn (hyd at ac yn cynnwys) 31 diwrnod o gael diagnosis (ni waeth beth fo'u llwybr atgyfeirio)	90.8%	91.4%	93.7%	91.5%	93.3%	91.1%	97.7%	94.5%	91.9%
Canran y cleifion sydd newydd gael diagnosis o ganser, drwy'r llwybr brys ar gyfer canser a amheuir, a ddechreuodd driniaeth ddiffiniol o fewn (hyd at ac yn cynnwys) 62 diwrnod o gael eu hatgyfeirio	87.0%	80.2%	80.8%	75.9%	83.8%	85.7%	84.3%	85.7%	92.1%
Canran y cleifion sy'n dechrau triniaeth canser ddiffiniol o fewn 62 diwrnod o'r pwynt yr amheuir bod canser arnynt	73.1%	67.8%	73.1%	68.6%	68.1%	72.7%	69.5%	70.7%	77.0%
Canran yr asesiadau iechyd meddwl a gynhelir o fewn (hyd at ac yn cynnwys) 28 diwrnod i ddyddiad yr atg	97.5%	96.3%	84.6%	80.7%	79.4%	81.9%	92.8%	92.2%	87.2%
Canran yr ymyriadau therapiwtig a ddechreuodd o fewn (hyd at ac yn cynnwys) 28 diwrnod ar ôl asesiad gan Wasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Gofal Sylfaenol Lleol	98.6%	94.9%	98.5%	97.9%	91.6%	92.9%	97.6%	92.2%	94.5%
Canran y cleifion sy'n aros llai na 26 wythnos cyn dechrau ar therapi seicolegol ym maes Iechyd Meddwl Arbenigol i Oedolion	100.0%	100.0%	100.0%	100.0%	100.0%	100.0%	100.0%	100.0%	100.0%
Canran y plant a phobl ifanc sy'n aros llai na 26 wythnos cyn dechrau asesiad niwroddatblygiadol	42.7%	44.1%	40.8%	47.1%	39.2%	38.3%	38.8%	36.0%	35.8%
% cleifion offthalmoleg R1 sy'n aros o fewn y dyddiad targed neu o fewn 25% y tu hwnt i'r dyddiad targed am apwyntiad cleifion allanol.	67.0%	64.3%	62.4%	64.4%	63.6%	65.7%	69.5%	70.8%	71.6%

	Tueddiadau 3 chwarter			
	C1 2019/20	C2 2019/20	C3 2019/20	Tuedd
Canran y cleifion cymwys (gorfodol ac anffurfiol/gwirfoddol) a gafodd eu cyswllt cyntaf â Gwasanaeth Eiriolaeth Iechyd Meddwl Annibynnol o fewn pum diwrnod gwaith i'w cais	100.0%	100.0%	100.0%	➔

* Cyfartaledd SSNAP yn y DU rhwng mis Hydref 2019 a mis Rhagfyr 2019 yw'r targed a ddefnyddiwyd, sef 53.3%,
** Cyfartaledd SSNAP yn y DU rhwng mis Hydref 2019 a mis Rhagfyr 2019 yw'r targed a ddefnyddiwyd, sef 84.1%
***Cymerwyd o ddata CHKS diweddaraf mis Ebrill

Cyflawni cydymffurfiaeth targed
Heb gyflawni cydymffurfiaeth targed

Gofal Heb ei Drefnu
Roedd 2019-20 yn flwyddyn heriol mewn perthynas â gofal heb ei drefnu oherwydd cynnydd yn y galw. Bu gostyngiad nas rhagwelwyd yn nifer y cleifion mewnol yn Ysbyty Singleton oherwydd tân ar ward a bu gostyngiad yn Ysbyty Treforys oherwydd haint y bu'n arbennig o anodd ei reoli. Er mwyn darparu capasiti ychwanegol ac er mwyn gallu glanhau'n ddwfn yn Ysbyty Treforys, agorwyd ward adleoli yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot. Fodd bynnag, rhoddodd yr holl faterion hyn bwysau cynyddol ar y system gofal heb ei drefnu, a arweiniodd at fethu â chwrdd ag unrhyw un o'r targedau cenedlaethol. Cadarnhaodd data lleol ar gyfer Mawrth 2020 fod perfformiad yn gwella, ond nid i'r lefel a fyddai wedi golygu cyflawni'r targedau cenedlaethol neu'r proffiliau gwella lleol.



Mae gofal heb ei drefnu yn un o flaenoriaethau ymyrraeth wedi'i thargedu ar gyfer y Bwrdd Iechyd, felly mae camau gweithredu i wella'r system gofal heb ei drefnu yn rhan annatod o gynllun blynyddol 2020-21 y Bwrdd Iechyd. Mae cynllun system gyfan wedi'i ddatblygu ar gyfer gofal heb ei drefnu sy'n tynnu sylw at y camau gweithredu allweddol a fydd yn cael eu datblygu dros y 12 mis nesaf. Mae'r camau hyn yn cynnwys safoni'r model 'drws ffrynt' ar gyfer eiddilwch ar draws pob safle; datblygu a gweithredu model gwasanaeth diwygiedig ar gyfer meddygaeth gofal aciwt yn Ysbytai Treforys a Singleton; llwybrau newydd o'r adran achosion brys i'r lloches trallod ar gyfer iechyd meddwl; a datblygu rôl parafeddygon ar gyfer gofal sylfaenol brys.

GOFAL AMSEROL

Strôc
Roedd y galw am wasanaethau strôc yn sefydlog drwy gydol 2019-20, ond roedd cyrraedd y targed o bedair awr ar gyfer derbyniadau uniongyrchol yn heriol. Mae hyn yn adlewyrchiad uniongyrchol o'r pwysau ar y system ar gyfer gofal heb ei drefnu. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, data Chwefror 2020 oedd y data mewnol diweddaraf oedd ar gael, ac mae'n cadarnhau bod y Bwrdd Iechyd wedi cyflawni 62% yn erbyn y mesur o bedair awr ar gyfer derbyniadau uniongyrchol, gan felly gyrraedd y targed cenedlaethol o 53.3% (sy'n seiliedig ar gyfartaledd SNAPP, sef y Rhaglen Archwilio Genedlaethol y DU ar gyfer Strôc).

Y Bwrdd Iechyd yw un o'r perfformwyr gorau yn gyson ar gyfer y mesur asesu strôc o fewn 24 awr ac mae wedi cyflawni 100% nifer o weithiau drwy gydol 2019-20.

Ym mis Chwefror 2020, cafodd 97% o gleifion strôc eu hasesu gan ymgynghorydd strôc o fewn 24 awr, gan ragori felly ar y targed cenedlaethol o 84.1%. Mae mynediad i therapi lleferydd ac iaith (SALT) yn parhau'n her gyda dim ond 28% o gleifion yn derbyn y lefel o ddarpariaeth a dargedwyd ym mis Chwefror 2020.

Fel y nodir yng nghynllun blynyddol 2020-21 y Bwrdd Iechyd, mae ein cynllun system gyfan ar gyfer strôc wedi'i strwythuro o amgylch y pum elfen ganlynol:



1. **Atal strôc:** cefnogi rhoi'r gorau i ysmygu, gordewdra ac ymddygiad iach;
2. **Cyn mynd i'r ysbyty:** sicrhau bod pobl a gweithwyr proffesiynol yn adnabod strôc ac yn gwybod beth i'w wneud os bydd yn digwydd;
3. **Y 72 awr cyntaf:** yn cynnwys mynediad cyflym a thriniaeth yn yr ysbyty mwyaf priodol neu'r ward fwyaf priodol;
4. **Adsefydlu a bywyd ar ôl strôc:** cydgynhyrchu wrth gynllunio adferiad a mynediad i therapïau a chefnogaeth gymunedol;
5. **TIA (pwl o isgemia dros dro):** adnabod a chefnogi'r rhai sydd wedi cael TIA yn gynnar ac yn effeithiol.


Gofal wedi'i Gynllunio

Mae gofal wedi'i gynllunio yn cyfeirio at wasanaethau ar gyfer apwyntiadau iechyd a drefnir ymlaen llaw, naill ai mewn lleoliad cymunedol neu yn yr ysbyty. Mae'r mesurau gofal cynlluniedig y cyfeirir atynt yn yr adran hon yn cynnwys amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth (RTT), amseroedd aros ar gyfer gwasanaethau diagnositig a therapi a'r mesurau ar gyfer gofal llygaid.

Amseroedd aros dewisol (RTT, gwasanaethau diagnostig a therapi)

Mae 2019-20 wedi bod yn flwyddyn heriol i RTT ac adlewyrchir hyn yn y cynnydd sylweddol mewn amseroedd aros ar gyfer apwyntiadau a thriniaeth ar gyfer cleifion allanol newydd. Y prif ffactorau a gyfrannodd at y cynnydd oedd y pwysau annisgwyl ar ofal heb ei drefnu ac effeithiau'r lwfansau graddedig ar bensiynau'r GIG sydd wedi lleihau ein capasiti o ran llawfeddygaeth a chleifion allanol. Yn ogystal â hyn, yn ystod mis Mawrth 2020, cawsom gyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru i roi'r gorau i bob apwyntiad dewisol mewn ymateb i Covid-19. Effeithiodd hyn yn sylweddol ar safle diwedd blwyddyn y Bwrdd Iechyd ar gyfer RTT yn ogystal ag ar gyfer amseroedd aros gwasanaethau diagnostig a therapi. Ym mis Mawrth 2020, roedd 2,055 o gleifion yn aros mwy na 26 wythnos am apwyntiad claf allanol ac roedd 6,509 o gleifion yn aros mwy na 36 wythnos am driniaeth. Yn ogystal â hyn, roedd 1,407 o gleifion yn aros mwy nag wyth wythnos am ddiagnosteg benodol a 51 o gleifion yn aros mwy na 14 wythnos am therapïau.

Amseroedd aros dewisol (RTT, gwasanaethau diagnostig a therapi), parhad



Bydd angen ffocws sylweddol ar ofal wedi'i gynllunio er mwyn adfer y sefyllfa a gweithio tuag at sefydlogi'r RTT yn 2020-21. Y camau gweithredu yng nghynllun blynyddol 2020-21 yw'r sylfaen ar gyfer y camau gweithredu a gaiff eu datblygu dros y 12 mis nesaf.

Mae'r cynllun system gyfan ar gyfer gofal wedi'i gynllunio wedi'i lunio o amgylch y pum elfen ganlynol:

1. Helpu pobl i ddewis yn dda ac i fyw'n dda
2. Mynediad amserol at yr ymarferydd clinigol mwyaf priodol i reoli'r cyflwr
3. Mynediad amserol i wasanaethau diagnostig modern
4. Mynediad amserol i driniaeth gynaliadwy sy'n briodol i'r cyflwr a mynediad at yr ymarferydd clinigol mwyaf priodol i reoli'r gofynion parhaus
5. Cymorth i gael mynediad amserol er mwyn rheoli gofynion parhaus y cyflwr


Mesurau ar gyfer gofal llygaid


Dechreuwyd adrodd am y mesur gofal llygaid newydd yn 2019-20. Mae'n seiliedig ar flaenoriaethu gofal ac ar frys y gofal sydd ei angen ar bob claf. Blaenoriaeth yw'r risg o niwed sy'n gysylltiedig â chyflwr llygaid y claf os methir â chyrraedd y dyddiad targed ar gyfer yr apwyntiad. Mae brys yn golygu pa mor fuan y dylid gweld y claf hwnnw. Cleifion â ffactor risg iechyd o 'R1' yw'r cleifion â'r flaenoriaeth uchaf a'r targed yw y dylai 95% o gleifion 'R1' gael apwyntiad o fewn eu dyddiad targed clinigol neu o fewn 25% y tu hwnt i'w dyddiad targed clinigol. Rydym wedi gwneud cynnydd cyson yn erbyn y targed hwn, gan gynyddu o 67% ym mis Ebrill 2019 i 76% ym mis Mawrth 2020, ac rydym yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan.

GOFAL AMSEROL

Canser

Mae prydlondeb y triniaethau a gynigir i gleifion sydd newydd gael diagnosis o ganser ym Mae Abertawe drwy'r llwybr brys lle ceir amheuaeth o ganser (USC), a'r llwybr nad yw'n un brys lle ceir amheuaeth o ganser (NUSC), wedi cymharu'n dda ar y cyfan â byrddau iechyd eraill ledled Cymru. Ym mis Mawrth 2020, gwnaeth 85% o gleifion canser a atgyfeiriwyd gan eu meddyg teulu ar frys oherwydd amheuaeth o ganser ddechrau ar eu triniaeth o fewn 62 diwrnod i'w hatgyfeirio, yn erbyn safon ddisgwyliedig o 95%. Yn ogystal â hyn, gwnaeth 93% o gleifion nad oeddent ar y llwybr brys lle cafwyd amheuaeth o ganser, ddechrau ar eu triniaeth o fewn 31 diwrnod ar ôl iddynt gytuno i'r angen am driniaeth. Roedd hyn yn erbyn targed cenedlaethol o 98%. Mae'r siartiau canlynol yn dangos sut y gwnaethom berfformio yn erbyn y targedau cenedlaethol yn 2019-20 ac mae'r tabl yn dangos ein sefyllfa gronnol ar gyfer 2019/20 yn ôl safle'r tiwmor.






Safle'r Tiwmor	USC - targed o 62 diwrnod				NUSC - targed o 31 diwrnod			
	Cyfanswm y cleifion a gafodd driniaeth	Nifer y cleifion a gafodd driniaeth o fewn y targed	Cleifion na chawsant driniaeth o fewn y targed	%	Cyfanswm y cleifion a gafodd driniaeth	Nifer y cleifion a gafodd driniaeth o fewn y targed	Cleifion na chawsant driniaeth o fewn y targed	%
Pen a Gwddf	80	73	**7**	91%	43	35	8	81%
Gastroberfeddol uchaf	63	52	**11**	83%	69	66	3	96%
Gastroberfeddol isaf	112	81	**31**	72%	118	110	8	93%
Ysgyfaint	145	132	**13**	91%	193	189	4	98%
Sarcoma	21	14	**7**	67%	7	5	2	71%
Croen	355	350	**5**	99%	165	154	11	93%
Ymennydd/Prif System Nerfol					23	22	1	96%
Y fron	125	67	**58**	54%	119	115	4	97%
Gynaecolegol	80	31	**49**	39%	41	27	14	66%
Wrolegol	270	245	**25**	91%	200	184	16	92%
Hematoleg	54	41	**13**	76%	88	88	0	100%
Lewcemia aciwt	2	2	**0**	100%	7	7	0	100%
Canser mewn plant					3	3	0	100%
Arall	37	34	**3**	92%	48	48	0	100%
Cyfanswm	**1344**	**1122**	**222**	**83%**	**1124**	**1053**	**71**	**94%**

Ym mis Tachwedd 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bod yn newid i adrodd yn gyhoeddus am yr Un Llwybr Canser (SCP), ac am y ddau darged presennol ar gyfer canser. Dechreuodd byrddau iechyd Cymru adrodd am y llwybr ym mis Ebrill 2019.

Mae'r Un Llwybr Canser yn mesur faint mae cleifion yn aros ar y ddau lwybr traddodiadol. Fodd bynnag, bydd amser aros claf yn dechrau o'r adeg pan fydd amheuaeth o ganser yn hytrach nag adeg y diagnosis. Mae'r Un Llwybr ar gyfer pob claf â chanser, p'un ai caiff ei atgyfeirio gan y meddyg teulu neu ei adnabod drwy

wasanaethau brys, canfyddiad damweiniol, sgrinio neu yn ystod apwyntiad mewn gofal eilaidd.

Mae'r perfformiad yn erbyn y targed hwn wedi aros yn eithaf sefydlog yn 2019-20, gan amrywio o 66% i 77% ac rydym wedi cymharu'n dda â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan.



Cafwyd nifer o gyflawniadau yn 2019/20, yn cynnwys sefydlu'r Ganolfan ar gyfer Diagnosis Cyflym yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot. Dangosodd gwerthusiad o'r gwasanaeth fod amseroedd aros ar gyfer rhai cleifion wedi gostwng hyd at 92%. Rydym wedi cynyddu ein capasiti ar gyfer llawfeddygaeth a radiotherapi drwy weithio mewn partneriaeth â darparwyr eraill y GIG, ac rydym wedi datblygu achos busnes ar gyfer rhaglen ganser a fydd yn moderneiddio ac yn gwella'r gwasanaethau a ddarperir yng Nghanolfan Ganser De Cymru.

Mae angen i ni wneud mwy nawr i wella perfformiad. Mae gennym gynllun system gyfan datblygedig ar gyfer canser a byddwn yn ei yrru yn ei flaen dros y 12 mis nesaf. Mae elfennau'r cynllun hwn wedi'u nodi yng nghynllun blynyddol 2020/21 y Bwrdd Iechyd ac mae'r rhain yn cynnwys:

1. Atal canser
2. Canfod canser yn gynnar
3. Darparu triniaeth a gofal effeithiol yn gyflym
4. Cwrdd ag anghenion pobl
5. Gwella gwybodaeth
6. Targedu ymchwil

GOFAL AMSEROL

Iechyd Meddwl

Mae'r dangosyddion yn y fframwaith ar gyfer iechyd meddwl yn ymwneud â Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) ac amseroedd aros ar gyfer therapi seicolegol. Roedd Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) yn ddeddfwriaeth newydd a basiwyd yn 2010 gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac felly mae ganddi'r un statws cyfreithiol yng Nghymru â deddfau iechyd meddwl eraill.

Bwriad y Mesur yw sicrhau, lle y caiff gwasanaethau iechyd meddwl eu darparu, eu bod yn canolbwyntio'n fwy priodol ar anghenion unigol pobl. Dyma'r pedair rhan.

- Mae **Rhan Un** yn ceisio sicrhau bod mwy o wasanaethau iechyd meddwl ar gael o fewn gofal sylfaenol;
- Mae **Rhan Dau** yn rhoi'r hawl i'r holl bobl sy'n derbyn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd gael cynllun gofal a thriniaeth;
- Mae **Rhan Tri** yn rhoi'r hawl i'r holl oedolion sy'n cael eu rhyddhau o wasanaethau iechyd meddwl eilaidd eu hatgyfeirio eu hunain yn ôl i'r gwasanaethau hynny;
- Mae **Rhan Pedwar** yn cynnig mynediad i bob claf mewnol at gymorth eiriolwr iechyd meddwl annibynnol.

Perfformiad ar gyfer Rhan Un

Mae rhan un o'r mesur yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol gydweithio i sefydlu Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol (LPMHSS) i ddarparu:

- Asesiadau
- Ymyriadau tymor byr
- Gwybodaeth a chyngor
- Atgyfeiriadau at wasanaethau eraill, lle y bo'n briodol

Targed LPMHSS (Asesiadau) - Targed o 80% o fewn 28 i atgyfeirio

Mae cynnwys data Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) yn y fframwaith adrodd ym mis Mehefin 2017 wedi cael effaith negyddol ar y targed asesu.

Mae'r tabl canlynol yn dangos ein bod wedi cyflawni'r 80% ar gyfer 10 allan o'r 12 mis ac wedi cyrraedd y targed bob mis yn gyson ac eithrio CAMHS. Darperir CAMHS gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ar ein rhan ac rydym wrthi'n gweithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â'r heriau y maent yn eu hwynebu o ran amseroedd aros i bobl ifanc dan 18 oed.


	Ebr-19	Mai-19	Meh-19	Gorff-19	Awst-19	Medi -19	Hyd-19	Tach-19	Rhag-19	Ion-20	Chwe-20	Maw-20
% yr asesiadau o fewn 28 diwrnod (yn cynnwys CAMHS)	86%	85%	85%	81%	79%	82%	93%	92%	87%	77%	82%	90%
% yr asesiadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio CAMHS)	97%	97%	97%	97%	98%	98%	98%	97%	98%	93%	97%	97%
Targed	80%	80%	80%	80%	80%	80%	80%	80%	80%	80%	80%	80%

GOFAL AMSEROL

Targed LPMHSS (Ymyriadau) - Targed o 80% ar gyfer ymyriadau therapiwtig o fewn 28 diwrnod yn dilyn asesiad gan LPMHSS
Gwnaethom gyrraedd y targed ar gyfer pob mis yn 2019-20 ac rydym yn gyson uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan.

	Ebr-19	Mai-19	Meh-19	Gorff-19	Awst-19	Medi -19	Hyd-19	Tach-19	Rhag-19	Ion-20	Chwe-20	Maw-20
% yr ymyriadau therapiwtig o fewn 28 diwrnod (yn cynnwys CAMHS)	98%	94%	99%	98%	92%	93%	98%	92%	95%	90%	97%	96%
% yr ymyriadau therapiwtig o fewn 28 diwrnod (ac eithrio CAMHS)	99%	98%	100%	99%	93%	96%	97%	90%	92%	89%	94%	97%
Targed	80%	80%	80%	80%	80%	80%	80%	80%	80%	80%	80%	80%

O'r 1af o Ionawr 2018, mae pob Bwrdd Iechyd yn gyfrifol am roi gwybod am y "Mynediad at Therapïau Seicolegol mewn Gwasanaethau Iechyd Meddwl Arbenigol i Oedolion". Roedd hyn yn cael effaith negyddol ar berfformiad ar gyfer ymyrraeth rhan un. Fodd bynnag, yn chwarter tri, cymeradwywyd cyllid gennym i gynorthwyo'r gwasanaeth i leihau'r ôl-groniad a rheoli'r rhestr aros yn fwy effeithlon. Arweiniodd hyn at berfformiad cyson o 100% o gleifion yn aros llai na 26 wythnos am therapi seicolegol ers mis Ionawr 2019.



Perfformiad Rhan Dau
Mae rhan dau o'r mesur yn gosod dyletswyddau ar fyrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol yng Nghymru i weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod gan bobl o bob oedran mewn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd gydgysylltydd gofal, ynghyd â chynllun gofal a thriniaeth statudol sy'n cael ei adolygu o leiaf unwaith y flwyddyn.

Rhan 2 Cynlluniau Gofal a Thriniaeth (CTP) - Targed o 90% sy'n derbyn gofal eilaidd i gael CTP ar ddiwedd pob mis.

Mae hyn yn cynnwys oedolion, pobl hŷn, CAMHS a gwasanaethau anabledd dysgu, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u lleoli gyda darparwyr annibynnol yn ein dalgylch. Er na chyrhaeddwyd y targed o 90% rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2019, gwnaethom fodloni'r targed ar gyfer yr 8 mis sy'n weddill o 2019/20 yn gyson.

	Ebr-19	Mai-19	Meh-19	Gorff-19	Awst-19	Medi -19	Hyd-19	Tach-19	Rhag-19	Ion-20	Chwe-20	Maw-20
% sydd â chynllun gofal a thriniaeth dilys (CTP)	89%	89%	89%	88%	91%	92%	92%	92%	91%	93%	92%	91%
Targed	90%	90%	90%	90%	90%	90%	90%	90%	90%	90%	90%	90%

GOFAL AMSEROL

Perfformiad Rhan Tri
Nod rhan tri y mesur yw ei gwneud yn haws i bobl nad ydynt yn derbyn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd ar hyn o bryd, ond sydd wedi gwneud hynny yn ystod y tair blynedd flaenorol, gael mynediad at wasanaethau eto. Os ydynt yn credu bod eu hiechyd meddwl yn dirywio i'r pwynt lle mae angen gofal a thriniaeth arbenigol arnynt eto, mae'n rhoi'r hawl iddynt eu hatgyfeirio eu hunain yn uniongyrchol at wasanaethau eilaidd, heb orfod gweld meddyg teulu yn gyntaf neu fynd i rywle arall i gael eu hatgyfeirio.

Rhan 3 **Pob preswylydd o fewn y Bwrdd Iechyd sydd wedi cael asesiad o dan ran tri o'r mesur iechyd meddwl i gael copi o'u hadroddiad asesu deilliannau hyd at a chan gynnwys 10 diwrnod gwaith ar ôl i'r asesiad gael ei gynnal: targed o 100%**

O dan ran tri o'r mesur, yn dilyn hunangyfeiriad, rhaid i gopi o'r adroddiad ar ganlyniad yr asesiad gael ei roi i'r unigolyn ddim hwyrach na 10 diwrnod gwaith wedi i'r asesiad ddod i ben. Cyflawnwyd 100% yn gyson ar gyfer y mesur hwn am bob mis yn 2019/20.

Perfformiad Rhan Pedwar
Mae rhan pedwar o'r mesur yn sicrhau bod gan bob claf mewnol yng Nghymru sy'n cael asesiad neu driniaeth ar gyfer anhwylder meddyliol yr hawl i ofyn am gymorth gan eiriolwr iechyd meddwl annibynnol (IMHA).

Rhan 4 Canran y cleifion cymwys (gorfodol ac anffurfiol/gwirfoddol) a gafodd eu cysylltiad cyntaf ag IMHA o fewn 5 diwrnod gwaith i'w cais am IMHA: targed o 100%
Llwyddwyd yn gyson i gyrraedd y targed o 100% ar gyfer pob mis yn 2019/20.

GOFAL EFFEITHIOL-

Mae pobl yng Nghymru yn cael y gofal a'r cymorth cywir mor lleol â phosibl a chânt eu galluogi i gyfrannu at sicrhau bod y gofal hwnnw yn llwyddiannus

Mae'r mesurau ym maes gofal effeithiol yn canolbwyntio ar sicrhau bod cleifion yn cael y driniaeth gywir a bod prosesau effeithiol yn cael eu dilyn.

	Ebrill-19	Mai-19	Mehefin-19	Gorffennaf-19	Awst-19	Medi-19	Hydref-19	Tachwedd-19	Rhagfyr-19	Tuedd
Cyfradd fras marwolaethau yn yr ysbyty (yn 74 oed neu iau)*	0.74%	0.74%	0.75%	0.76%	0.76%	0.77%	0.76%	0.77%	0.79%	↓
Canran y cyfnodau gofal wedi'u codio'n glinigol o fewn un mis adrodd ar ôl dyddiad rhyddhau olaf y cyfnod gofal	95.6%	95.5%	96.9%	96.0%	95.9%	96.4%	95.6%	95.5%	95.4%	↓
Canran y gydymffurfiaeth ag elfen hyfforddi Llywodraethu Gwybodaeth (Cymru) lefel 1 a gwblhawyd o'r Fframwaith Sgiliau Craidd a Hyfforddiant	84.3%	84.0%	83.3%	84.2%	85.3%	84.8%	84.6%	84.5%	84.4%	↑
Nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal nad yw'n gysylltiedig ag iechyd meddwl gan y bwrdd iechyd	49	67	70	61	69	69	76	61	53	↓
Nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal iechyd meddwl gan y bwrdd iechyd	18	23	27	20	18	19	22	22	22	↓
Canran yr adolygiadau marwolaethau cyffredinol a gynhaliwyd o fewn 28 diwrnod i farwolaeth	98.5%	97.8%	99.4%	99.3%	100.0%	100.0%	95.9%	100.0%	98.5%	↑

	Tueddiadau 3 chwarter			
	C1 2019/20	C2 2019/20	C3 2019/20	Tuedd
Rhaid i'r holl feddyginiaethau newydd a argymhellir gan Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan a NICE, yn cynnwys argymhellion dros dro ar gyfer meddyginiaethau canser, fod ar gael lle y bo'n briodol yn glinigol, heb fod yn hwyrach na dau fis ar ôl cyhoeddi Penderfyniad Arfarnu Terfynol NICE ac argymhelliad arfarnu Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan	98.4%	98.5%	98.6%	↑


* Cymerwyd o ddata CHKS diweddaraf mis Ebrill

Cyflawni cydymffurfiaeth targed

Heb gyflawni cydymffurfiaeth targed

Adolygiadau o Farwolaethau Cyffredinol (UMRs)

Mae gwasanaeth iechyd Cymru wedi gwneud gwaith arloesol i sicrhau bod adolygiadau'n cael eu cwblhau o gofnodion clinigol cleifion sy'n marw mewn ysbytai. Datblygwyd y broses drwy ddefnyddio offeryn adolygu marwolaethau cyffredinol (UMR) i safoni'r broses adolygu ledled Cymru. Mae'r UMR yn golygu bod pob achos yn cael adolygiad cam un i weld a oedd gofal da, neu a oes rhai arwyddion sy'n golygu bod angen adolygiad manylach ar gam dau. Drwy gydol 2019-20, bodlonodd y Bwrdd Iechyd y targed cenedlaethol o 95% ar gyfer y mesur hwn, ac roeddem yn aml yn rhagori ar y targed hwnnw, gan ddangos yn gyson y perfformiad gorau yng Nghymru. Ym mis Mawrth 2020, cwblhawyd 96% o UMRs o fewn 28 diwrnod, yn erbyn y targed cenedlaethol o 95%.



GOFAL EFFEITHIOL

Oedi wrth Drosglwyddo Gofal (DTOCs)


Mae achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal yn parhau'n her i lawer o fyrddau iechyd ledled Cymru. Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar leihau cyfnod pobl yn yr ysbyty, ond hefyd ar leihau'r nifer sy'n ddigon iach i'w cael eu rhyddhau ac nad yw o'r budd pennaf iddynt fod mewn gwely yn yr ysbyty.

Un o brif achosion yr oedi mewn ambiwlansys yw'r llif (o ran rhyddhau gwelyau) drwy'r ysbyty ac er gwaethaf y gwelliannau wrth y 'drws ffrynt', mae oedi wrth y 'drws cefn' yn parhau'n ffactor allweddol sy'n cyfrannu at hyn. Mae nifer y cleifion sy'n iach yn feddygol sydd mewn gwelyau ysbytai ar draws y Bwrdd Iechyd yn parhau i gyfyngu ar lif y gofal wedi'i drefnu a heb ei drefnu. Yn 2019-20, mewn partneriaeth â'n cydweithwyr mewn awdurdodau lleol, cyflwynodd y Bwrdd Iechyd y llwybrau 'Adre o'r Ysbyty' er mwyn cefnogi llif mwy amserol o ran trosglwyddo cleifion o'r ysbyty i'r gymuned.

Mae 'Adre o'r Ysbyty' yn ddarpariaeth sy'n cwmpasu lles corfforol a meddyliol unigolion, gan gynnwys y rheini sy'n byw gyda dementia a nam gwybyddol, ac mae'r sgyrsiau'n canolbwyntio ar "Yr hyn sy'n bwysig i mi". Pan gaiff ei weithredu'n llawn, teimlir y bydd gan y gwasanaeth hwn y potensial i helpu i wneud y defnydd gorau o'r capasiti gofal cymdeithasol presennol er mwyn cael yr effaith orau a sicrhau bod llif ar draws y system.

Cafodd cam un 'Adre o'r Ysbyty' ei weithredu ar gyfer cleifion llai cymhleth ym mis Rhagfyr 2019 ac mae'r ffigurau cychwynnol yn dangos y cafwyd effaith gadarnhaol ar gleifion sy'n ddigon iach yn feddygol i'w rhyddhau (MFFD). Fodd bynnag, bydd y gwerthusiad yn cynnwys yr effaith ar ein niferoedd o oedi wrth drosglwyddo gofal (DTOC), sy'n parhau'n uwch na'r hyn a nodwyd yn ein cynllun blynyddol ar gyfer 2019-20. Y nod yn y pen draw yw y bydd 'Adre o'r Ysbyty' yn helpu i sicrhau'r galw a'r capasiti cywir ar gyfer gofal cartref, sy'n achosi oedi yn y maes hwn.

Mae'r siartiau isod yn dangos ein perfformiad ar gyfer DTOC ar gyfer iechyd meddwl, a iechyd nad yw'n ymwneud â'r meddwl, dros 2019-20. Mae iechyd meddwl wedi aros yn is nag ein proffil mewnol drwy gydol y flwyddyn. Fodd bynnag, bu'r sefyllfa'n fwy heriol o ran iechyd nad yw'n ymwneud â'r meddwl. Wrth i'r model 'Adre o'r Ysbyty' ddatblygu, gobeithir y bydd ei effeithiolrwydd yn cael ei adlewyrchu drwy fod gennym lai o gleifion MFFD a DTOC.



GOFAL EFFEITHIOL

Codio Clinigol



Rydym wedi gwella'n sylweddol ein cydymffurfiaeth â'r mesur codio sy'n ymwneud â chanran y digwyddiadau a gaiff eu codio'n glinigol o fewn mis, gan gynyddu perfformiad o lefel mor isel ag 20% yn 2016 i 94% ym mis Mawrth 2020. Er i ni syrthio ychydig yn brin o'r targed o 95%, rydym wedi dileu'r ôl-groniad hanesyddol o gyfnodau heb godau. Rydym hefyd wedi cyflawni 91% o ran cydymffurfiaeth ag archwiliad cenedlaethol Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS) ar gywirdeb codio, sy'n darparu sicrwydd am ansawdd y codio a gwblhawyd. Caiff y canfyddiadau a'r argymhellion eu cynnwys yn yr archwiliad o godio clinigol a'r cynlluniau datblygu ar gyfer 2020/21.

GOFAL GYDAG URDDAS


Caiff pobl yng Nghymru eu trin ag urddas a pharch ac maent yn parchu ac yn trin eraill yn yr un modd

Mae'r maes Gofal gydag Urddas yn canolbwyntio ar brofiad ac adborth cleifion. Mae'r tabl canlynol yn dangos ein bod wedi cyflawni'r targed o 80% yn gyson o ran ymateb i gwynion gan gleifion. Mae nifer o fesurau lleol sy'n ymwneud ag adborth cleifion hefyd wedi'u cynnwys yn yr adran hon er mwyn rhoi trosolwg mwy gwybodus.

	Tueddiadau 3 chwarter			
	C1 2019/20	C2 2019/20	C3 2019/20	Tuedd
Canran y pryderon sydd wedi cael ymateb terfynol (o dan Reoliad 24) neu ymateb dros dro (o dan Reoliad 26) hyd at ac yn cynnwys 30 diwrnod gwaith o'r dyddiad y daeth y pryder i law'r sefydliad am y tro cyntaf	80.7%	83.7%	88.6%	↑

Cyflawni cydymffurfiaeth targed
Heb gyflawni cydymffurfiaeth targed

Cwynion
Yn ystod 2019-20, derbyniodd y Bwrdd Iechyd dros 1,300 o gwynion ac roedd y prif themâu yn ymwneud â chyfathrebu, derbyniadau, a thriniaeth glinigol. Drwy gydol 2019-20, cafodd 100% o gwynion eu cydnabod o fewn dau ddiwrnod gwaith, a phob mis gwnaethom gyflawni'r targed cenedlaethol o ddarparu ymateb terfynol i gwynion o fewn 30 diwrnod gwaith.



Bob mis, mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal grŵp sicrwydd ar gyfer gwneud iawn am gamweddau (CRAG), pan fo tîm cwynion y gorfforaeth yn adolygu cwynion a gaewyd yn ddiweddar. Yn eu tro, caiff adolygiad manwl ei gynnal ar bob uned sy'n cyflenwi gwasanaethau. Cynhelir adolygiad hefyd o ddetholiad o gwynion caeedig o'r unedau eraill sy'n cyflenwi gwasanaethau. Yn ystod yr adolygiad hwn, caiff unrhyw gamau y cytunir arnynt gan yr unedau cyflenwi gwasanaethau eu monitro gan dîm cwynion y gorfforaeth i gadarnhau bod y camau gweithredu wedi'u cwblhau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. Mae CRAG yn datblygu ac yn esblygu'n barhaus i sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn cyflawni'r dysgu a'r sicrwydd gorau posibl. Rydym hefyd wedi cyflwyno gweithdai CRAG lle caiff yr hyn a ddysgwyd ei rannu gydag uwch aelodau'r unedau cyflenwi gwasanaethau.

GOFAL GYDAG URDDAS


Profiad ac Adborth y Claf
Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio adborth o ddigwyddiadau, cwynion, holiaduron 'Ffrindiau a Theulu' a systemau fel "Gadewch i ni siarad" a "Barn am Ofal" i ddysgu, yn dilyn adborth gan gleifion, perthnasau a staff.

Rydym wedi bod yn casglu'r data ar gyfer 'Ffrindiau a Theulu' (arolygon byr - amser real) ar draws y sefydliad ers nifer o flynyddoedd. Mae'r holiadur hwn yn ein galluogi i gipio adborth amser real ac mae adroddiadau wythnosol yn cael eu cynhyrchu ar gyfer pob ward ac ardal glinigol ochr yn ochr ag arolwg Cymru gyfan.

Mae pob un o'r unedau cyflenwi gwasanaethau'n derbyn adroddiad misol manwl yn nodi'r themâu ac maent yn datblygu cynllun gweithredu ar gyfer gwella ar lefel uned. Mae'r prif themâu a nodwyd yn y meysydd lle ceir sgoriau isel yn cynnwys parcio ar bob safle; gwell bwyd; a chyfathrebu rhwng staff.

Er mwyn gwella'r ffordd rydym yn casglu data ymhellach, dyma rai o'r camau rydym yn bwriadu eu cymryd dros y 12 mis nesaf:

- Mae camau'n cael eu cymryd ar lefel Cymru gyfan i brynu system electronig ar gyfer profiad y claf. Bydd hyn yn caniatáu mwy o hyblygrwydd o ran cael mwy o adborth am brofiad y claf a hefyd o ran dadansoddi'r data. Rhagwelir y bydd y system newydd yn cael ei gweithredu yn hydref/gaeaf 2020-21. Fodd bynnag, gallai'r amserlen hon gael ei gohirio oherwydd Covid-19.
- Gosodwyd peiriannau 'Hapus neu Beidio' yn adran damweiniau ac achosion brys Treforys ddiwedd Chwefror 2020. Symudwyd y rhain oddi yno ar ôl tair wythnos oherwydd Covid-19 a materion yn ymwneud â heintio. Byddant yn cael eu hailosod ar ôl hyn.
- Nid yw strwythur yr arolygon 'Ffrindiau a Theuluoedd ' yn hawdd i ddefnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl ac anableddau dysgu ei ddefnyddio. Mae dull newydd o gipio adborth gan gleifion o fewn y gwasanaeth yn cael ei roi mewn grym. Unwaith y bydd y data ar gael, bydd yn elfen allweddol o'n dull o ddysgu o brofiad y claf.



✓ Byddai **95%** o gleifion yn argymell y Bwrdd Iechyd neu'n ei argymell yn gryf



Sgoriodd **90%** o arolygon Cymru gyfan 9 neu 10 ar gyfer boddhad

Yn unol ag adroddiadau blynyddol sector cyhoeddus Trysorlys ei Mawrhydi, mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd gyhoeddi data sy'n ymwneud â metrigau cynaliadwyedd allweddol gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- ddefnyddio cyfleustodau;
- cynhyrchu gwastraff;
- rheoli'r amgylchedd.

Mae'r cyflwyniad canlynol yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM ym mis Mawrth 2016 ac mae pob ffactor trosi CO^2 (carbon deuocsid) yn gyson â'r ffactorau trosi ar gyfer adrodd am nwyon tŷ gwydr Llywodraeth y DU, ac eithrio'r ffactorau trosi CO^2 ar gyfer gwastraff clinigol arbenigol, a dderbyniwyd gan gontractwr gwastraff clinigol y Bwrdd Iechyd.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gyfrifol am 67 o safleoedd sy'n cynnwys tri ysbyty aciwt, pedwar ysbyty cymunedol, clinigau, canolfannau iechyd ac unedau anableddau dysgu, yn ogystal â thri adeilad cefnogi cysylltiedig lle nad oes mynediad uniongyrchol i gleifion, sy'n cynnwys y pencadlys a golchdy canolog.

- **Llywodraethu Rheolaeth Amgylcheddol**

Yn 2015-16, sefydlodd y Bwrdd Iechyd bwyllgor amgylcheddol y cyflwynwyd yr adroddiad rheoli amgylcheddol blynyddol iddo yn 2019-20. Roedd y pwyllgor yn gyfrifol am nodi a sicrhau bod polisïau a strategaethau yn eu lle i gyflawni amcanion corfforaethol y Bwrdd Iechyd mewn perthynas â rheoli'r amgylchedd. Yn 2020, fodd bynnag, caiff ei ddisodli gan Bwyllgor Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol newydd a gadeirir gan y Cyfarwyddwr Strategaeth.

Mae pob un o'r chwe safle y mae angen ardystiad Rheoli Amgylcheddol ISO14001 arnynt, wedi llwyddo i'w gadw yn 2019-20.

- **Targedau Amgylcheddol**

Pennwyd y targedau canlynol ar gyfer gwastraff, trydan, a nwy a dŵr ar gyfer 2019-20 fel rhan o amcanion amgylcheddol y Bwrdd Iechyd:

Gwastraff	Targed	4.5% o gynnydd mewn ailgylchu/adfer.
	Canlyniad	Cafwyd 23.22% (1,125 tunnell) o ostyngiad ym maint gwastraff cyffredinol y Bwrdd Iechyd. Roedd hyn yn bennaf o ganlyniad i'r newidiadau i'r ffiniau a chreu Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. O ran gwastraff a ailddefnyddiwyd/ailgylchwyd, nad yw'n wastraff clinigol, bu cynydd o 3% yn yr hyn a gofnodwyd, gan olygu i'r ffigwr gynyddu i 28% (606 tunnell).
Trydan	Targed	1% o ostyngiad yn y defnydd o drydan.
	Canlyniad	Mae cyfanswm y kWh o drydan a ddefnyddiwyd wedi gostwng 24%. Mae hyn yn bennaf oherwydd bod y portffolio

		o adeiladau wedi'i leihau yn sgil newid y ffiniau wrth greu Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.
Nwy	Targed	1% o ostyngiad yn y defnydd o nwy.
	Canlyniad	Mae cyfanswm y kWh o nwy a ddefnyddiwyd wedi gostwng 20%. Mae hyn yn bennaf oherwydd bod y portffolio o adeiladau wedi'i leihau yn sgil newid y ffiniau wrth greu Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.
Dŵr	Targed	1% o ostyngiad yn y defnydd o ddŵr.
	Canlyniad	Mae cyfanswm y m^3 o ddŵr a ddefnyddiwyd wedi gostwng 34%. Mae hyn yn bennaf oherwydd bod y portffolio o adeiladau wedi'i leihau yn sgil newid y ffiniau wrth greu Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

- **Datblygiad Cynaliadwy**

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo'n llwyr i leihau ei ôl troed carbon ac mewn blynyddoedd blaenorol cyflawnodd a chadwodd ardystiad ISO14001:2015 ar gyfer y systemau rheoli amgylcheddol yn ei holl ysbytai. Mae hyn yn dangos yr ymrwymiad i sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol a rheoliadol.

Cafodd strategaeth lleihau carbon ei chymeradwyo gan bwyllgor yr amgylchedd yn 2016, sy'n parhau i gydgysylltu cyfrifoldebau corfforaethol y Bwrdd Iechyd a'r weledigaeth ddeng mlynedd ynghylch lleihau allyriadau carbon. Mae'r weledigaeth yn nodi chwe maes i weithredu arnynt o fewn y Bwrdd Iechyd:

- Adeiladau heb garbon
- Teithiau heb garbon
- Gwastraff heb garbon
- Caffael heb garbon
- Diwylliant heb garbon
- Dyfodol heb garbon

Mae targedau cysylltiedig a dangosyddion perfformiad allweddol cysylltiedig wedi'u datblygu gan bwyllgor yr amgylchedd ac yn cael eu monitro ganddo.

- **Polisi a Gweithdrefnau**

Diwygiodd y Bwrdd Iechyd ei bolisi amgylcheddol yn 2020, ac mae'r llawlyfr ar weithdrefnau rheoli systemau ar gyfer rheoli amgylcheddol ISO14001 wedi cael ei ddiweddaru i adlewyrchu fersiwn 2015 o'r safon.

- **Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr**

Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr		**2017-18**	**2018 -19**	**2019 20**
Dangosyddion nad ydynt yn ariannol (1, 000t CO2e)	Cyfanswm yr allyriadau gros	40	34.2	21.9
	Allyriadau gros cwmpas 1 (uniongyrchol) - (Olew Tanwydd)	0.17	0.18	0.14

	Allyriadau gros cwmpas 1 (uniongyrchol) - (Nwy)	17.32	16.04	11.77
	Allyriadau gros cwmpas 1 (uniongyrchol) - (trafnidiaeth sy'n eiddo i'r Bwrdd)	0.41	0.36	0.03
	Allyriadau gros cwmpas 2 (anuniongyrchol) - (trydan a brynwyd)	20.32	15.17	8.32
	Allyriadau gros cwmpas 3 (anuniongyrchol arall) - (teithio ar gyfer busnes)	1.79	2.34	1.6
	Allyriadau gros cwmpas 3 (anuniongyrchol arall) - gwastraff	0.156	0.136	0.106
Defnydd cysylltiedig o ynni (miliwn kWh)	Trydan: cyfanswm a ddefnyddiwyd	49	49.8	37.3
	Trydan: hunangynhyrchwyd (PV)	0.083	0.085	0.056
	Nwy	94	87.4	64.0
	LPG	0	0	0
	Arall (olew)	0.6	0.6	4.4
Dangosyddion ariannol (£miliwn)	Gwariant ar ynni heb TAW	7.41	8.21	6.53
	Gwariant ar drwydded CRC (2010 ymlaen)	£580,117	£521,845	Cynllun wedi dod i ben
	Gwariant ar wrthbwysiadau trwyddedig (e.e.GCOF)	0	0	0
	Gwariant ar deithio swyddogol	2.78	3.29	2.24

- **Ynni**

Cafwyd 20% o ostyngiad yn y defnydd o nwy. Roedd hyn yn bennaf o ganlyniad i resymoli safleoedd, ond hefyd oherwydd manteision y prosiect rheoli adeiladau yn Ysbyty Singleton yn 2018-19, a ddefnyddir i reoli amrywiaeth o offer sy'n defnyddio ynni. Mae'r prosiect hwn wedi rheoli tymheredd yr ysbyty'n well, yn ogystal â lleihau'r defnydd o nwy a lleihau'r CO^2 a gynhyrchir mewn perthynas â hynny. Mae'r llosgwyr newydd a brynwyd ar gyfer bwyleri'r ysbyty hefyd wedi helpu i leihau'r defnydd o nwy oherwydd eu bod yn fwy effeithlon.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i brynu trydan sy'n 100% adnewyddadwy, ac er mwyn ei gael mae'n talu ardollau ar gyfer ynni o ffynonellau adnewyddadwy. Mae hefyd wedi symud ymlaen gyda benthyciadau "Re:fit - Twf Gwyrdd" drwy Lywodraeth Cymru. Mae'r gronfa yn caniatáu i'r Bwrdd Iechyd fenthyg arian am y tro cyntaf i ariannu cynlluniau lleihau carbon, sef rhaglen o waith dros ddwy flynedd, mewn dau gam. £7.7 miliwn yw cyfanswm y gwariant ar gyfer cam un, a hynny ar gyfer mesurau arbed ynni sy'n ymwneud â chynyddu'r galw amdanynt. Caiff hyn ei ad-dalu o'r arbedion ynni a wneir.

Dechreuodd y gwaith yn ymwneud â buddsoddiad cynllun Re:fit Llywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2019, a chytunwyd ar fesurau arbed ynni terfynol gwerth £7.7m yn chwarter tri, ynghyd ag ad-daliad o chwech i wyth mlynedd a fyddai'n cyfateb i arbedion o tua £1.8m (chwyddiant o 4%) ac arbedion CO^2 o 2,500 tunnell y flwyddyn. Dechreuodd gwaith ar y safleoedd ym mis Ionawr 2020, ond mae wedi'i ohirio oherwydd pandemig Covid-19.

- **Fferm Solar**

Yn ail gam y rhaglen Re:fit, bu'r Bwrdd Iechyd yn asesu hyfywedd fferm solar pum megawat ar dir trydydd parti. Mae wedi negodi hawliau unigryw gyda pherchennog y tir. Amcangyfrifir y bydd y fferm solar yn costio tua £5.8m ac awgrymir ad-daliad dros ryw naw mlynedd ar gyfer y prosiect cyfan, sy'n cyfateb i arbedion o 1,000 tunnell o CO^2 a thua £500,000.

- **Gwastraff**

Gwastraff		2017-18	2018-19	2019-20
Dangosyddion nad ydynt yn ariannol (tunelli)	Cyfanswm y Gwastraff	5301	4843	3718
	Tirlenwi	185	152	147
	Ailddefnyddio/ Ailgylchu	583	683	585
	Compostiwyd	0	21	21
	Llosgi heb adfer ynni	0	0	0
	Llosgi gan adfer ynni	4533	3987	2965
Dangosyddion ariannol (£)	Cyfanswm Cost y Gwaredu	1,380,383	1,241,240	941,174
	Tirlenwi	43,070	36,215	36,009

	Ailddefnyddio/ Ailgylchu	177,947	180,122	153,126
	Compostiwyd	0	1,838	1,844
	Llosgi heb adfer ynni	0	0	0
	Llosgi gan adfer ynni	1,159,366	1,023,064	750,195

(Ni chaiff TAW ei chofnodi yn y dangosyddion ariannol ar gyfer gwastraff yn unol â chanllaw EFPMS [System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau])

Yn seiliedig ar gyfanswm y ffigurau gwastraff a amlinellir yn y tabl uchod, mae'r dadansoddiad o wastraff clinigol peryglus, gwastraff tramgwyddus, gwastraff domestig, ailgylchu cymysg sych a gwastraff bwyd fel a ganlyn:

Gwastraff domestig	42% (1543 tunnell)
Gwastraff clinigol peryglus	38% (1415 tunnell)
Gwastraff ailgylchu cymysg sych	14% (530 tunnell)
Gwastraff tramgwyddus	4% (153 tunnell)
Cyfarpar trydanol ac electronig a gwastraff cemegol peryglus	1.5% (56 tunnell)
Gwastraff bwyd	0.5% (21 tunnell)

Eleni, gwelwyd gostyngiad o 23.22% (1,125 tunnell) yng nghyfanswm y gwastraff a gynhyrchwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a gwelwyd gostyngiad o 24.17% (£300,066) hefyd yn y gost yn gyffredinol. Mae hyn yn bennaf oherwydd y newidiadau i'r ffiniau, ac mae'r broses barhaus o godi ymwybyddiaeth, ynghyd â'r pwyslais cryfach ar hierarchaeth y gwastraff a lleihau gwastraff ar draws safleoedd hefyd yn parhau i wella perfformiad.

Mae contract gwastraff domestig ac ailgylchu'r Bwrdd Iechyd yn parhau i olygu y gellir osgoi tirlenwi bron yn gyfan gwbl (100%). Caiff gwastraff ei ddidoli mewn cyfleuster adfer deunyddiau a chaiff deunyddiau gweddilliol eu defnyddio mewn cyfleuster 'Troi Gwastraff yn Ynni'. Mae hyn yn helpu'r Bwrdd Iechyd i gydymffurfio â strategaeth 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff' Llywodraeth Cymru. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fynd ar drywydd gwneud casgliadau ar wahân ar gyfer gwastraff bwyd ar draws yr ystad. Y targed yw gwneud casgliadau gwastraff bwyd ym mhob ysbyty acíwt yn 2020-21, yn unol â thargedau deddfwriaethol Llywodraeth Cymru.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod y ffactorau sy'n arwain at gynnydd yn y gwastraff a gynhyrchir yn sgil yr eitemau meddygol untro sy'n cael eu cyflwyno'n barhaus ac sy'n cyfyngu ar y gallu i ailddefnyddio ac atgyweirio eitemau o fewn meysydd clinigol. Fodd bynnag, mae dulliau ailgylchu addas yn cael eu harchwilio er mwyn cynnig opsiwn economaidd ac amgylcheddol cynaliadwy ar gyfer cael gwared ar yr eitemau hyn.

Er y bu gostyngiad ym maint cyffredinol y gwastraff y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei adfer neu'n ei ailddefnyddio, bydd yn gwneud ymdrech barhaus i sicrhau bod ailgylchu gwastraff cymysg sych glân yn cael ei wahanu'n well yn 2020-21 er mwyn lleihau costau gwaredu. Mae'r lefelau ailgylchu ar gyfer gwastraff cymysg sych wedi cynyddu ar

safleoedd yr ysbytai acíwt a chymunedol yn 2019-20, a bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i ymdrechu i gynyddu faint o ailgylchu sy'n cael ei wahanu yn y lleoedd y mae'r gwastraff yn tarddu ohonynt, yn unol â Deddf yr Amgylchedd 2016 Llywodraeth Cymru a thargedau cysylltiedig.

Dylid nodi bod y Bwrdd Iechyd wedi rhagori ar ei darged ISO14001 blynyddol o wneud cynnydd o 4.5% ar gyfer ailgylchu/adfer a'i fod ar y trywydd iawn i gyrraedd targed strategaeth Llywodraeth Cymru i sicrhau cyfradd ailgylchu/adfer o 70% i bawb erbyn 2025.

Mae prosiectau ar gyfer gwella'r cyfraddau ailgylchu ac adfer yn cael eu datblygu drwy system rheoli amgylcheddol ISO14001 y Bwrdd Iechyd. Mae'r targedau hyn yn ceisio sicrhau bod yr holl wastraff a gynhyrchir yn cael ei reoli'n gywir a bod y sefydliad yn cyflawni ei amcanion ailgylchu ac adfer yn unol â strategaeth lleihau gwastraff 2020-25.

Mae arian cyfalaf wedi'i roi fel y gellir gosod gorsafoedd biniau ailgylchu ychwanegol mewn ardaloedd lle ceir llawer o wastraff, er mwyn cynyddu faint y gall ysbytai ei ailgylchu.

- **Defnydd o Adnoddau**

Defnydd o adnoddau y mae pen draw iddynt			**2017-18**	**2018-19**	**2019- 20**
Dangosyddion nad ydynt yn rhai ariannol (000m3)	Defnydd o ddŵr (rhannau o'r ystâd nad ydynt yn swyddfeydd)	Wedi'u cyflenwi	494	439	291
		Carthffosiaeth	411	367	245
		Wedi'u tynnu	0	0	0
Dangosyddion ariannol (£miliwn)	Defnydd o ddŵr (rhannau o'r ystâd nad ydynt yn swyddfeydd)	Wedi'u cyflenwi	0.5	0.52	0.33
		Carthffosiaeth	0.57	0.54	0.37

		Wedi'u tynnu	0	0	0

Roedd y defnydd o ddŵr yn cyfateb i 24.3m^3 y pen yn gyfwerth ag amser llawn (FTE) y flwyddyn (12,000 FTE), sef gostyngiad o 0.7m^3 y pen o'i gymharu â 2018-19 a gostyngiad o 5.7m^3 y pen o'i gymharu â 2017-18.

- **Mentrau Cynaliadwyedd Eraill**

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu ei gydweithio â phartneriaethau lleol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r posibilrwydd o brynu'r hawliau ar gyfer fferm solar a gwifren breifat o fferm solar fawr a leolir tua dwy filltir o Ysbyty Treforys.

- **Seilwaith Gwyrdd**

Ers i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r dyfodol gael ei chyflwyno, mae'r Bwrdd Iechyd wedi mynd ati i ymgysylltu â chyrff eraill yng Nghymru sy'n gyfrifol am warchod yr amgylchedd naturiol er mwyn hyrwyddo seilwaith gwyrdd o fewn y Bwrdd Iechyd a chyfrannu at amcanion llesiant y Bwrdd Iechyd. Mae'r sefydliad wedi cynhyrchu portffolio o safleoedd y Bwrdd Iechyd, sy'n rhoi manylion am diroedd gan gynnwys arolygon am gynefinoedd a daeareg lle maent ar gael, ac mae wedi ymgysylltu â sefydliadau trydydd parti i gynnal adolygiadau pellach.

Yn unol â chanllawiau'r GIG ar gyfer annog pryfed peillio ar ei ystâd, mae'r Bwrdd Iechyd, am y bumed flwyddyn yn olynol, yn parhau i blannu blodau gwyllt ar y prif safleoedd.

Mae mesurau ychwanegol wedi'u cymryd yn Ysbyty Treforys i adael i'r ardaloedd o dir droi'n ôl yn gynefin naturiol drwy, er enghraifft, beidio â thorri'r borderi o amgylch y meysydd parcio. Prynwyd amrywiaeth o gynefinoedd bioamrywiaeth (gwestai pryfed/blychau adar), yn benodol ar gyfer y safleoedd sydd mewn lleoliadau trefol.

Cyllid 'Dewis y Bobl' gan y Loteri Genedlaethol - llwyddodd y Bwrdd Iechyd i sicrhau grant gan y Loteri Genedlaethol a weinyddir gan Cadwch Gymru'n Daclus. Derbyniodd y Bwrdd Iechyd £50,000 i wella dwy iard yn ysbytai Treforys a Gorseinon. Mae'r gwaith dylunio a'r gwaith ar y safle wedi datblygu'n dda gan ddefnyddio rhwydwaith o wirfoddolwyr, ond bu'n rhaid atal y prosiect hwn oherwydd pandemig Covid-19.

Drwy gydweithio â Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a Phrifysgol Abertawe, hybwyd iechyd drwy gynyddu mynediad at fyd natur. Gwnaed cais am arian ar gyfer "Cymru Fioffilig" i raglen datblygu gwledig Llywodraeth Cymru 2014-20 a dyfarnwyd £1.2m ar gyfer rhaglen tair blynedd. Dechreuodd yr astudiaeth yn ardal Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot, gan adolygu 40 o safleoedd i ganolbwyntio arnynt ar gyfer prosiectau seilwaith gwyrdd cymunedol a ddatblygir ar y cyd. Roedd y rhain yn cynnwys ysbytai, canolfannau iechyd a chyfleusterau iechyd meddwl. Mae'r prosiect yn ceisio cynyddu gwerth bioamrywiaeth, hygyrchedd, gwasanaethau ecosystem a chysylltedd, yn ogystal â chreu mannau gwyrdd ysbrydoledig i bobl a gwerthuso'r hyn sy'n gweithio orau i ddatblygu modelau y gellir eu cymhwyso ledled Cymru. Dechreuwyd ar y prosiect hwn ond bu'n rhaid gohirio gwaith ar y safleoedd oherwydd pandemig Covid-19.




Yn ystod y prosiect "Tyfu'r Dyfodol" a ddatblygwyd gan Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, cafodd gardd les ei dylunio ym mis Ionawr 2019. O ganlyniad, cafwyd arddangosfa o blanhigion yr ardd les yn y Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol yng Nghaerdydd, a fydd yn cael ei hefelychu yn Ysbyty Treforys. Mae'r dyluniad wedi'i gwblhau, ond bu'n rhaid atal gwaith ar y safle oherwydd pandemig COVID 19.

❖ Tueddiadau Gwariant Tymor Hir

Mae'r gwariant yr adroddir amdano yn yr adroddiad hwn ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019-20 yn ymwneud â Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe tra bo'r gwariant mewn blynyddoedd blaenorol yn ymwneud â'r bwrdd iechyd blaenorol, sef Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, a rhaid cadw hyn mewn cof wrth gymharu'r gwariant rhwng blynyddoedd. Er mwyn helpu i ddeall y gostyngiad mewn gwariant rhwng blynyddoedd mae'n bwysig nodi bod y dyraniad adnoddau sylfaenol i Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe 28% yn is na'r dyraniad sylfaenol ar gyfer hen Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

		2015-16 £000	2016-17 £000	2017-18 £000	2018-19 £000	2019-20 £000
Gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol		237,071	232,790	242,052	245,546	181,823
Gofal iechyd gan ddarparwyr eraill		216,761	236,363	238,469	250,518	232,061
Gwasanaethau ysbytai a chymunedol		802,341	868,757	887,423	898,238	784,902



Mae gwariant ar wasanaethau gofal iechyd sylfaenol yn cynnwys gwariant ar y contractau gofal sylfaenol ar gyfer gwasanaethau meddygol cyffredinol, gwasanaethau fferyllol, gwasanaethau deintyddol cyffredinol, gwasanaethau offthalmig cyffredinol, cyffuriau a

chyfarpar ar bresgripsiwn a gwariant arall ar ofal iechyd sylfaenol. Ar gyfer 2019-20, gostyngodd y gwariant i £181.823m, sef gostyngiad o 26% sy'n cyd-fynd yn fras â'r gostyngiad yn nyraniad y sefydliad newydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, o'i gymharu â hen Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Roedd y gostyngiad yn gyson ar draws pob maes gwariant ar gyfer gofal sylfaenol.

Mae gwariant ar ofal iechyd gan ddarparwyr eraill yn cynnwys gwariant gyda sefydliadau eraill y GIG, awdurdodau lleol, sefydliadau gwirfoddol, darparwyr preifat ac ar gyfer nyrsio a gofal iechyd parhaus a ariennir gan y GIG. Yn 2019-20, gostyngodd y gwariant o 7.4% o ganlyniad i newid yn y Bwrdd Iechyd. Un ffactor arwyddocaol yn y gwariant ar gyfer 2019-20 oedd i wariant gyda chyrff eraill GIG Cymru ddyblu bron, o £21.9m yn 2018-19 i £42m yn 2019-20. Roedd hyn o ganlyniad i'r cytundebau lefel gwasanaeth clinigol a sefydlwyd ar gyfer gwasanaethau yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, gan fod nifer sylweddol o wasanaethau yn yr ysbyty yn cael eu darparu gan staff clinigol ym Mhen-y-bont ar Ogwr a drosglwyddodd i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg fel rhan o newid ffin Pen-y-bont ar Ogwr ar 1 Ebrill 2019. Gostyngodd gwariant gyda'r rhan fwyaf o ddarparwyr gofal iechyd allanol yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i'r newid yn y Bwrdd Iechyd ac eithrio awdurdodau lleol a sefydliadau gwirfoddol oherwydd y gronfa gofal canolraddol (ICF).

Mae'r gwariant ar wasanaethau ysbytai a chymunedol yn cynnwys gwariant ar wasanaethau a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd ar draws ei holl ysbytai ac mewn lleoliadau cymunedol. Yn 2019-20, gostyngodd y gwariant i £784.902m, sef gostyngiad o 12.6% (£113.3m) sy'n adlewyrchu'r newid o Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg i Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Gostyngodd gwariant staff £90.2m (13.7%) gyda chostau nad ydynt yn rhai staff yn gostwng £23.1m (9.6%). Yn gynwysedig o fewn costau staff ceir cynnydd o £23.584m mewn perthynas â'r cynnydd o 6.3% yng nghyfraniadau pensiwn cyflogwyr a £8.8m mewn perthynas â dyfarniad cyflog 2019/20. Gostyngodd costau nad oeddent yn gostau staff ym mhob maes ac eithrio cynnydd o £3.262m mewn amhariadau asedau, £2.468m mewn colledion, taliadau arbennig a dyledion anadenilladwy a £1.181m mewn taliadau amorteiddio mewn perthynas ag asedau sefydlog anniriaethol.

❖ Adroddiad Ariannol

Mae'r adroddiad hwn yn darparu datganiadau ariannol cryno sy'n disgrifio perfformiad ariannol Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020. Mae'r flwyddyn ariannol 2019-20 yn cynrychioli blwyddyn gyntaf Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn dilyn newid ffin Pen-y-bont ar Ogwr a oedd yn weithredol o 1 Ebrill 2019. Rhaid nodi bod y gwerthoedd ar gyfer 2018-19 a nodir yn y cyfrifon hyn yn ymwneud â hen Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, tra bo'r gwerthoedd ar gyfer 2019-20 yn ymwneud â Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Gellir gweld set lawn o gyfrifon blynyddol y Bwrdd Iechyd ar wefan Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Newid Ffin Pen-y-Bont ar Ogwr

Cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 14 Mehefin 2018 y byddai'r cyfrifoldeb dros ddarparu gwasanaethau gofal iechyd i bobl yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn symud o 1 Ebrill 2019 i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf.

Mae Gorchymyn y Byrddau Iechyd Lleol (Newid Ardaloedd) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2019 wedi trosglwyddo prif ardal llywodraeth leol Pen-y-bont ar Ogwr o Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg i Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Cwm Taf a hefyd wedi newid enwau'r byrddau iechyd i Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Bae Abertawe.

Yn unol â Gorchymyn y Byrddau Iechyd Lleol (Newid Ardal) (Trosglwyddo Staff, Eiddo a Rhwymedigaethau) (Cymru) 2019 a wnaed ar 19 Mawrth 2019 ac a fu'n weithredol ar 1af Ebrill 2019, trosglwyddwyd yr asedau a'r rhwymedigaethau'n ymwneud â gwasanaethau Pen-y-bont ar Ogwr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ar 1 Ebrill 2019. Ystyriwyd y trosglwyddiad fel 'Trosglwyddo drwy Amsugno', yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth. Daethpwyd â'r symiau o asedau net a gofnodwyd i mewn i ddatganiadau ariannol Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Cwm Taf Morgannwg o 1 Ebrill 2019. Nid oedd angen ailddatgan y balansau olaf ar 31 Mawrth 2019 yn y flwyddyn flaenorol.

Roedd y balansau a drosglwyddwyd i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ar 1 Ebrill 2019 yn cyfateb i £150.340m o asedau sefydlog (tir, adeiladau ac offer), £6.089m o asedau cyfredol (stoc a symiau derbyniadwy) a £26.150m o rwymedigaethau cyfredol (symiau taladwy a darpariaethau). Roedd trosglwyddo gwasanaethau hefyd yn golygu bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn cael gostyngiad o 28% yn ei gyllid sylfaenol gan Lywodraeth Cymru o'i gymharu â'r cyllid a ddarparwyd yn flaenorol i Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

❖ Perfformiad Dyletswyddau Ariannol

Targedau Statudol

Mae dwy ddyletswydd ariannol statudol y mae'n ofynnol i Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe eu cyflawni. Y dyletswyddau a ddaeth i rym o 1 Ebrill 2014, yw bod yn rhaid i bob Bwrdd Iechyd sicrhau nad yw'n gwario mwy na chyfanswm y cyllid a ddyrannwyd iddo dros gyfnod o dair blynedd, yn hytrach nag o fewn pob blwyddyn ariannol (Deddf GIG (Cymru) 2014). Mae'r ddyletswydd hon yn cynnwys cyllid adnoddau refeniw (y terfyn adnoddau refeniw) a chyllid adnoddau cyfalaf (y terfyn adnoddau cyfalaf). Y pedwerydd cyfnod o dair blynedd yw 2017/18 i 2019/20.

Terfyn Adnoddau Refeniw	Blwyddyn un o dair 2017-18 £000	Blwyddyn dau o dair 2018-19 £000	Blwyddyn tri o dair 2019-20 £000	Cyfanswm £000
Cyllid adnoddau refeniw	1,096,250	1,133,300	913,670	3,143,220
Cyfanswm costau gweithredu	1,128,667	1,143,179	929,954	3,201,800
Gwariant dan/(dros) yn erbyn dyraniad	(32,417)	(9,879)	(16,284)	(58,580)
Fel % o'r targed	2.96%	0.87%	1.78%	1.86%
Ni lwyddodd y Bwrdd Iechyd hwn i gyflawni ei ddyletswydd ariannol i fantoli'r arian yn erbyn ei derfyn adnoddau refeniw dros y tair blynedd rhwng 2017-18 a 2019-20.				

Terfyn Adnoddau Cyfalaf	Blwyddyn un o dair 2017-18 £000	Blwyddyn dau o dair 2018-19 £000	Blwyddyn tri o dair 2019-20 £000	Cyfanswm £000
Cyllid adnoddau cyfalaf	40,093	36,447	30,901	107,441
Cyfanswm costau gweithredu	40,051	36,407	30,873	107,331
Gwariant dan/(dros) yn erbyn dyraniad	42	40	28	110
Fel % o'r targed	0.10%	0.11%	0.09%	0.10%
Fe wnaeth y Bwrdd Iechyd hwn gyflawni ei ddyletswydd ariannol i fantoli'r cyfrifon yn erbyn ei derfyn adnoddau cyfalaf dros y tair blynedd rhwng 2017-18 a 2019-20.				

❖ Dyletswydd i Baratoi Cynllun Tair Blynedd

Ar ôl i'r Bwrdd Iechyd gael ei roi mewn ymyrraeth wedi'i dargedu ym mis Medi 2016, nid oedd mewn sefyllfa i gyflwyno cynllun tymor canolig integredig (CTCI) tair blynedd ar gyfer 2019-20 ac felly ni lwyddodd i gyflawni'r ddyletswydd i gael CTCI tair blynedd cymeradwy. Yn hytrach, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithredu, mewn cytundeb â Llywodraeth Cymru, o dan drefniadau cynllunio blynyddol. Nododd cynllun gweithredu blynyddol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2019/20 gynllun ariannol cytbwys a gymeradwywyd mewn egwyddor gan ei Fwrdd ym mis Mawrth 2019, yn amodol ar gytundeb ar effaith newid ffin Pen-y-bont ar Ogwr.

Yn ystod 2019-20, profodd y Bwrdd Iechyd bwysau gweithredol sylweddol a arweiniodd at gynyddu'r diffyg blynyddol a gynlluniwyd gan y Bwrdd Iechyd i £16.3m. Yn y pen draw, diffyg y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2019/20 oedd £16.284m.

Targed Anstatudol

Mae gan y Bwrdd Iechyd darged hefyd i dalu sefydliadau a phobl sy'n darparu nwyddau a gwasanaethau iddo o fewn 30 diwrnod i'w darparu. Nid yw hyn yn ddyletswydd statudol; fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd dalu eu cyflenwyr yn unol â chod talu'n brydlon y CBI a rheolau cyfrifyddu'r Llywodraeth (Polisi Taliadau'r Sector Cyhoeddus (PSPP)). Dylai anelu at dalu 95% o'r anfonebau hyn o fewn 30 diwrnod i'w danfon.

Mae'r tabl isod yn dangos perfformiad yn erbyn y targed hwn am y 3 blynedd diwethaf:

	2017/18	2018/19	2019/20
Nifer yr Anfonebau a Dalwyd	**300,160**	**310,861**	**300,160**
Anfonebau a Dalwyd o fewn y Targed	**282,150**	**294,597**	**282,150**
% yr Anfonebau a Dalwyd o fewn y Targed	**94.0%**	**94.8%**	**94.0%**

Cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol adroddiad archwilio amodol ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd a chefnogwyd hyn gan adroddiad o sylwedd. Sail y farn amodol ar reoleidd-dra oedd bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe wedi torri ei derfyn adnoddau drwy wario £58.580m dros y £3,143m yr oedd wedi'i awdurdodi i'w wario yn y cyfnod o dair blynedd rhwng 2017-18 a 2019-20. Mae'r £58.580m yn gyfystyr â gwariant afreolaidd.

Cadarnhaodd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol fod y datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd a'i gostau gweithredu net am y flwyddyn a'u bod wedi'u paratoi'n briodol.

❖ Adolygiad o 2019-20

Ar ôl rhoi gwybod am ddiffyg o £9.879m yn y flwyddyn ariannol flaenorol, roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn wynebu rhagolygon ariannol heriol iawn ar ddechrau'r flwyddyn ariannol 2019/20. Cafodd diffyg blaenorol ei ddwyn ymlaen o 2018/19, ac roedd angen i'r Bwrdd reoli'r dadarbedion maint dros dro a throsiannol yn dilyn newid ffin Pen-y-bont ar Ogwr ar 1 Ebrill 2019, ynghyd â wynebu cynnydd yn y costau a'r galw ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir ganddo. Er gwaethaf y pwysau hyn o ran y gwasanaethau ac yn ariannol, roedd y Bwrdd Iechyd yn gallu nodi cynllun ariannol cytbwys i ddechrau, yn amodol ar gytundeb ar effaith newid ffin Pen-y-bont ar Ogwr. Fodd bynnag, yn ystod y flwyddyn, profodd y Bwrdd Iechyd bwysau gweithredol sylweddol a arweiniodd at gynyddu'r diffyg blynyddol a gynlluniwyd gan y Bwrdd Iechyd i £16.3m gan gynnwys yr elfennau canlynol:

Cynllun Fframwaith Ariannol y CTCI ar gyfer 2019/20	
	£m
Rhagolwg Cychwynnol o'r Sefyllfa ar ôl Trosgwyddo Pen-y-bont	23.3
Pwysau Anochel ar Gostau	42.3
Ymgodiad Cyllid Craidd	-33.2
Budd-dal LTA	-0.4
Cyllid anghylchol Llywodraeth Cymru ar gyfer Cefnogi Datblygiadau	-10.0
Arbedion Gofynnol	22.0
Arbedion a Chyfyngu Costau	-22.0
Sefyllfa Cyn Newid Ffin Pen-y-bont	0.0
Methiant i Gyflawni Arbedion Maint ar ôl Newid Ffin Pen-y-bont	3.0
Diffyg Cyflawniad o ran Arbedion	3.0
Pwysau Gweithredol	10.3
2019/20 Diffyg a Ragwelwyd	16.3
2019/20 Sefyllfa Wirioneddol	16.284

Roedd cynllun y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2019-20 yn hynod heriol, yn enwedig o ystyried effaith newid ffin Pen-y-bont ar Ogwr ar ddarparu gwasanaethau a chostau clinigol a rheoli corfforaethol. Roedd y cynllun yn gofyn am arbedion o £22m a oedd yn uwch na'r lefel yr anelwyd ati yn y flwyddyn ariannol flaenorol ac roedd angen eu darparu ar batrwm gwasanaeth a sylfaen wariant a oedd yn llawer llai.

Fe wnaeth y Bwrdd Iechyd gynnal ei ffocws ar adferiad a chynaliadwyedd yn ystod 2019-20 a datblygu ei agenda drawsnewidiol ymhellach drwy nodi cyfleoedd gwerth uchel. Drwy adferiad a chynaliadwyedd, llwyddodd y Bwrdd Iechyd i gyflawni £19m o'r arbedion gofynnol o £22m, a oedd yn lefel uwch o gyflawniad nag mewn blynyddoedd blaenorol.

Yn ystod 2019-20, profodd y Bwrdd Iechyd alwadau sylweddol ar ei wasanaeth, a oedd yn fwy na'r rhai a gynlluniwyd. Arweiniodd hyn at gynnydd mewn lefelau gwariant yn deillio o'r angen i gynyddu'r capasiti a gofynion y gweithlu er mwyn bodloni galwadau ar y gwasanaeth a gofal ar gyfer cleifion.

Mewn ymateb i'r pwysau a wynebir a'r sefyllfa ariannol heriol, sefydlodd y Bwrdd Iechyd dîm cymorth cyflawni i ddarparu gwell cymorth o fewn y Bwrdd Iechyd i ailedrych ar gynlluniau arbedion, adolygu prosesau ar gyfer rheoli gwariant a chefnogi'r sefydliad i nodi cyfleoedd newydd i wella perfformiad ariannol.

Cefnogwyd y Bwrdd Iechyd hefyd gan KPMG yn ystod rhan olaf 2019-20, a helpodd hyn i wella dulliau rheoli a rhoi mwy o ffocws ar y cyfleoedd effeithlonrwydd allweddol.

Ar ddiwedd 2019-20, nododd y Bwrdd Iechyd ddiffyg o £16.284m.

❖ Edrych i'r Dyfodol

Uchelgais a ffocws clir y Bwrdd Iechyd yw datblygu a chyflwyno cynllun ariannol cynaliadwy a chytbwys. Yng ngoleuni maint yr her, cynllun y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2020-21 yw sefydlogi'r perfformiad ariannol a gafwyd yn 2019-20. Mae'r blynyddoedd i ddod yn seiliedig ar wella effeithlonrwydd a pherfformiad ariannol sy'n cyd-fynd â newidiadau mewn modelau darparu gwasanaethau.

Mae'r dull o gynllunio ariannol yn 2020-21 yn syml, wrth i'r sefydliad ymdrechu i sefydlogi ei sylfaen gostau. Bydd y ffocws ar reoli pwysau cost yn llym ac osgoi costau, yn ogystal ag ar ddatblygu a chyflawni arbedion drwy gynlluniau lleol a'r cyfleoedd effeithlonrwydd allweddol. Mae'r olaf yn adeiladu ar y gwaith a wnaed gyda KPMG yn 2019/20, a ddefnyddiodd wybodaeth feincnodi leol a chenedlaethol a gwybodaeth am wasanaethau i nodi ac asesu cyfleoedd. Fel y gellid ei ddisgwyl, mae ymateb y sefydliad i Coivd-19 wedi effeithio ar y dull gweithredu hwn, ond mae'r uchelgais o ran cael cynllun ariannol cynaliadwy ar gyfer y blynyddoedd i ddod yn dal i fod yn bendant, a'r dull o gyflawni hyn yw'r sail ar gyfer gweithgareddau yn 2020-21.

Bydd ffocws sylweddol hefyd ar gefnogi'r gwaith o weithredu'r cynllun gwasanaethau clinigol ar ei newydd wedd dros y tymor byr a chanolig, a fydd yn cael ei ddatblygu fel rhan o'r portffolio trawsnewid sefydliadol ehangach. Bydd hyn yn sylfaenol o ran hwyluso'r gwaith o ailffurfio a thrawsnewid ein gwasanaethau, o fewn y cyd-destun strategol o ddarparu gofal integredig gwell gyda'n partneriaid, a gwella canlyniadau iechyd a lles y boblogaeth. Yn 2020-21, bydd angen i'r Bwrdd ddatblygu'r prosiectau a'r datblygiadau y cytunwyd i'w blaenoriaethu er mwyn sicrhau ei fod yn symud yn ddidrafferth ac yn gyflym i gyflawni'r rhain, gan wneud y gorau o bob cyfle i wneud hynny. Bydd cymorth ariannol yn allweddol o ran ystyried costau, manteision a fforddiadwyedd er mwyn sicrhau bod y portffolio yn cyflawni gwerth gorau.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio tuag at gynllun blynyddol yn 2020-21, sy'n destun trafodaethau ac adolygiadau parhaus gyda Llywodraeth Cymru. Ystyrir hyn fel rhagflaenydd i ddatblygu CTCI cymeradwy ar gyfer 2021-22 ymlaen, sy'n dangos gallu'r Bwrdd Iechyd i sicrhau cydbwysedd ariannol cynaliadwy ochr yn ochr â blaenoriaethau allweddol eraill.

Darren Griffiths
Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro

Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben ar 31 Mawrth 2020

Mae'r datganiad hwn yn crynhoi costau gweithredu Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, yn yr un ffordd ag y byddech yn defnyddio cyfrif ar gyfer treuliau eich cartref. Hynny yw, mae'n dangos y meysydd eang lle mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwario ei arian, minws yr incwm y mae wedi'i dderbyn ar ben yr hyn a ddyrannwyd iddo gan Lywodraeth Cymru, i ddangos ei gostau gweithredu net (neu gyllideb yr aelwyd). Mewn cartref, byddai hyn yn cynnwys costau fel taliadau rhent neu forgais, trethi, biliau cyfleustodau, bwyd, gwyliau a cheir, namyn unrhyw arian ad-hoc a dderbyniwyd megis llog ar gynilion neu roddion ariannol ac ati. Mae datganiad cost gweithredu'r Bwrdd Iechyd yn cynnwys taliadau i gontractwyr gofal sylfaenol (h.y. meddygon teulu, fferyllwyr, optegwyr a deintyddion cymunedol), cartrefi nyrsio, ei staff, cyflenwyr a chostau rhedeg ei ysbytai a safleoedd eraill ac ati. Caiff y wybodaeth hon ei hadrodd yn fisol i'r Bwrdd a Llywodraeth Cymru sy'n monitro perfformiad ariannol y Bwrdd Iechyd, ac mae'n cael ei harchwilio'n flynyddol i sicrhau ei bod yn gywir.

Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr	2019/20 £000	2018/19 £000
Gwariant ar Wasanaethau Gofal Iechyd Sylfaenol *Yn cynnwys taliadau i Feddygon Teulu, Fferyllwyr, Optegwyr a Deintyddion Cymunedol*	181,823	245,546
Gwariant ar Ofal Iechyd gan Ddarparwyr Eraill *Yn cynnwys taliadau i ddarparwyr gofal iechyd eraill y GIG, cartrefi nyrsio a darparwyr gofal iechyd preifat*	232,061	250,518
Gwariant ar Wasanaethau Ysbytai a Chymunedol *Yn cynnwys taliadau i staff a chyflenwyr a chostau rhedeg ysbytai ac adeiladau cymunedol*	784,902	898,238
Is-gyfanswm	1,198,786	1,394,302
Namyn: Incwm Amrywiol *Yr holl incwm ac eithrio'r hyn a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cymru e.e. gan gomisiynwyr gofal iechyd eraill, ffioedd llety ac arlwyo, incwm ar gyfer nwyddau a gwasanaethau a ddarperir i fyrddau iechyd eraill ac ati*	-271,930	-255,796

Costau Gweithredu Net y Bwrdd Iechyd Lleol Cyn Llog ac Enillion a Cholledion Eraill	926,856	1,138,506
(Enillion) / Colledion Eraill *Yn deillio o waredu tir, adeiladau a chyfarpar*	-5	-292
Costau Cyllid *Taliadau llog ar asedau sefydlog a chontract PFI*	4,926	5,165
Costau Gweithredu Net ar gyfer y Flwyddyn Ariannol	931,777	1,143.379
Enillion/(colled) net yn deillio o ailbrisio eiddo offer a chyfarpar	-3,487	-3,526
Enillion/(colled) net yn deillio o ailbrisio asedau ariannol sydd ar gael i'w gwerthu	88	0
Trosglwyddo i/(o) gyrff eraill yn y gyfundrefn cyfrifo adnoddau *(Trosglwyddo balansau asedau o ganlyniad i newid ffin Pen-y-bont)*	150,340	0
Cyfanswm y Gwariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y Flwyddyn	1,078,718	1,129,853

Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2020

Mae'r datganiad hwn yn gweithio yn yr un ffordd ag y byddech yn cofnodi eich gwerth ariannol net ar adeg benodol. Er enghraifft, gallech gynnwys gwerth eich tŷ a'ch car (asedau anghyfredol), eich arian yn y banc, llog sy'n ddyledus o gynilion (asedau cyfredol, masnach a symiau derbyniadwy eraill) ac a oes gennych unrhyw filiau y mae angen i chi eu talu (rhwymedigaethau cyfredol, masnach a symiau taladwy eraill). Ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, mae'r datganiad hwn yn cofnodi gwerth ei dir, ei ysbytai, ei glinigau a'i gyfarpar, yr arian sydd gennym yn ddyledus gan sefydliadau eraill (e.e. byrddau iechyd eraill, awdurdodau lleol a chleifion preifat) a faint sy'n ddyledus gennym i'n cyflenwyr a sefydliadau eraill. Caiff y datganiad hwn ei fonitro'n fisol ac mae'n cael ei archwilio'n flynyddol i sicrhau ei fod yn gywir.

Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth	2020 £000	2019 £000
Asedau nad ydynt yn gyfredol: *(tir, adeiladau a chyfarpar y Bwrdd Iechyd)*		
Eiddo, Offer a Chyfarpar	460,560	611,982
Asedau Anniriaethol	4,928	2,751
Masnach a Symiau Derbyniadwy Eraill	102,559	108,880
Cyfanswm asedau nad ydynt yn gyfredol	**568,047**	**723,613**
Asedau cyfredol:		
Stocrestrau (stociau o gyffuriau, tanwydd ac ati)	10,012	10,234
Masnach a Symiau Derbyniadwy Eraill *(symiau sy'n ddyledus i'r Bwrdd Iechyd)*	66,267	66,331
Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod *(balansau cyfrifon banc ac arian mân)*	486	830
	76,765	77,395
Asedau nad ydynt yn gyfredol a ddosberthir yn "rhai i'w gwerthu"	475	155
Cyfanswm Asedau Cyfredol	**77,240**	**77,550**
Cyfanswm Asedau	**645,287**	**801,163**
Rhwymedigaethau Cyfredol:		
Masnach a Symiau Derbyniadwy Eraill *(symiau sy'n ddyledus gan y Bwrdd Iechyd)*	-127,631	-151,171
Darpariaethau *(symiau a neilltuir gan y Bwrdd Iechyd i gwrdd â chostau disgwyliedig yn y dyfodol e.e. esgeulustod clinigol, costau pensiwn, gofal iechyd parhaus)*	-28,761	-35,458
Cyfanswm Rhwymedigaethau Cyfredol	**-156,392**	**-186,629**
Asedau/Rhwymedigaethau Net Cyfredol	**-79,152**	**-109,079**
Rhwymedigaethau Anghyfredol:		
Masnach a Symiau Derbyniadwy Eraill *(symiau sy'n ddyledus yn y dyfodol ar gyfer contract PFI a chontractau prydlesau cyllid eraill)*	-37,136	-40,178
Darpariaethau *(symiau a neilltuir gan y Bwrdd Iechyd i gwrdd â chostau disgwyliedig yn y dyfodol e.e. esgeulustod clinigol, costau pensiwn, gofal iechyd parhaus)*	-108,031	-115,048
Cyfanswm y Rhwymedigaethau Anghyfredol	**-145,437**	**-155,226**
Cyfanswm yr Asedau	**343,458**	**459,308**
Ariannwyd gan: ecwiti trethdalwyr		
Cronfa Gyffredinol	310,914	408,417
Cronfa Ailbrisio wrth Gefn	32,544	50,891

Cyfanswm Ecwiti Trethdalwyr	**343,458**	**459,308**

Llofnodwyd ar ran y Bwrdd ar 25ain Mehefin 2020
Tracy Myhill
Prif Weithredwr

Datganiad o'r Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben ar 31 Mawrth 2020

Mae'r datganiad hwn yn crynhoi'r symudiad yng nghronfa gyffredinol Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a'r gronfa ailbrisio wrth gefn yn ystod y flwyddyn. Mae'n dangos bod ei werth cyffredinol wedi lleihau £115.850m yn ystod y flwyddyn. Y prif reswm dros y gostyngiad yw trosglwyddo £150.340m o dir, adeiladau a chyfarpar i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ar 1 Ebrill 2019, sy'n cynrychioli'r asedau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau gofal iechyd yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr. Trosglwyddwyd y cyfrifoldeb dros ddarparu'r rhain i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ar 1 Ebrill 2019 o ganlyniad i newid ffin Pen-y-bont ar Ogwr.

Hefyd yn weithredol o 1 Ebrill 2019, cynyddodd cyfraniad y cyflogwr ar gyfer pensiwn y GIG i 6.3%. Talwyd cyfraniadau uwch y cyflogwr gan Lywodraeth Cymru ar ran GIG Cymru. Er mwyn cydnabod y costau cynyddol yng nghyfrifon cyrff GIG Cymru, mae'r costau staff a nodir yn y datganiad o wariant net cynhwysfawr yn cynnwys y costau hyn, a oedd yn dod i gyfanswm o £23.584m yn 2019/20, gyda'r costau'n cyfateb i arian tybiannol Llywodraeth Cymru y rhoddir cyfrif amdano drwy'r gronfa gyffredinol.

Datganiad o'r Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr	**Cronfa Gyffredinol £000**	**Cronfa Ailbrisio Wrth Gefn £000**	**Cyfanswm cronfeydd wrth gefn £000**
Balans ar 31 Mawrth 2019	**408,417**	**50,891**	**459,308**
Cost gweithredu net am y flwyddyn	-931,777		-931,777
Enillion/(colled) net yn deillio o ailbrisio eiddo/offer a chyfarpar	0	3,487	3,487
Enillion/(colledion) net yn deillio o ailbrisio asedau sydd yn rhai i'w gwerthu	0	-88	-88
Trosglwyddiadau rhwng Cronfeydd wrth Gefn	2,895	-2,895	0
Trosglwyddo (i)/o Fyrddau Iechyd Lleol eraill	-131,489	-18,851	-150,340
Cyfanswm Incwm a Threuliau Cydnabyddedig ar gyfer 2019/20	**-1,060,371**	**-18,347**	**-1,078,718**
Cyllid Net Llywodraeth Cymru	939,284		939,284

Cyllid Tybiannol Llywodraeth Cymru	23,584		23,584
Balans ar 31 Mawrth 2020	**310,914**	**32,544**	**343,458**

Datganiad Llif Arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020

Mae'r datganiad llif arian yn dangos yr arian i mewn ac allan yn ystod y flwyddyn ariannol. Yn gyffredinol, mae'r datganiad yn dangos bod y Bwrdd Iechyd wedi lleihau ei falansau arian yn ystod y flwyddyn ariannol.

Datganiad Llif Arian	2019-20 £000	2018-19 £000
Llif Arian o Weithgareddau Gweithredu		
Cost gweithredu net ar gyfer y flwyddyn ariannol	-931,777	-1,143,379
Symudiadau mewn cyfalaf gweithio	-18,657	27,348
Addasiadau eraill i lif arian	62,689	22,203
Darpariaethau a ddefnyddiwyd	-19,699	-25,389
All-lif Arian Net o Weithgareddau Gweithredu	-907,444	-1,119,217
Llif arian parod o weithgareddau buddsoddi		
Prynu eiddo, offer a chyfarpar	-34,882	-35,340
Elw o waredu eiddo, offer a chyfarpar	43	644
Prynu asedau anniriaethol	-381	-994
Mewnlif/(all-lif) Arian Net o Weithgareddau Buddsoddi	**-35,220**	**-35,690**
Mewnlif/(all-lif) Arian Net Cyn Cyllido	**-942,664**	**-1,154,907**
Llif Arian o Weithgareddau Cyllido		
Cyllid gan Lywodraeth Cymru (yn cynnwys cyfalaf)	939,284	1,151,658
Grantiau cyfalaf a dderbyniwyd	197	384
Elfen gyfalaf taliadau mewn perthynas â phrydlesi cyllid a chynlluniau PFI yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol	2,839	3,204
Cyllid Net		
Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod	**942,320**	**1,155,246**
Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod (a gorddrafftiau banc) ar 1 Ebrill 2019	**-344** **830**	**339** **491**
Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod (a gorddrafftiau banc) ar 1 Ebrill 2019	**486**	**830**

Roedd grantiau cyfalaf a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn yn ymwneud ag arian grant gan gyrff ar wahân i Lywodraeth Cymru tuag at gost cynlluniau cyfalaf a gyflawnwyd o fewn y Bwrdd Iechyd. Mae Elfen Gyfalaf Taliadau mewn perthynas â Phrydlesi Cyllid a sefyllfa ariannol PFI (Menter Cyllid Preifat) yn ymwneud â thaliadau a wneir yn erbyn elfen gyfalaf prosiect PFI Ysbyty Castell-nedd Port Talbot a phrydlesi cyllid eraill. Dangosir elfen llog y taliadau yn y gost weithredol net ar gyfer y flwyddyn ariannol.

ADRODDIAD ATEBOLRWYDD

2019-20

Llofnod: Tracy Myhill (Prif Weithredwr)

Dyddiad: 25.06.2020

CWMPAS YR ADRODDIAD ATEBOLRWYDD

Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru a Thrysorlys EM, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe wedi cynhyrchu adroddiad atebolrwydd ar gyfer y cyfnod adrodd ariannol 2019-20.

Diben yr adroddiad, sy'n rhan o'r gyfres o ddogfennau'r adroddiad blynyddol, yw adrodd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru am y gofynion atebolrwydd allweddol.

Bydd yr adroddiad atebolrwydd yn cael ei lofnodi a'i ddyddio gan y Prif Weithredwr fel y swyddog atebol ac mae'n cynnwys yr adrannau canlynol:

- Adroddiad Llywodraethu Blynyddol;
- Adroddiad Taliadau a Staff;
- Cyfrifon Blynyddol.

CYNNWYS

Testun	Tudalen
1. Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol	85
- Adroddiad y Cyfarwyddwr	85
- Datganiad o Fuddiant y Cyhoedd	91
- Datganiadau Datgelu	91
- Datganiad o Gyfrifoldebau'r Prif Weithredwr fel Swyddog Atebol	94
- Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr mewn Perthynas â'r Cyfrifon	96
2. Datganiad Llywodraethu	96
- Cyflwyniad	96
- Meysydd Cyfrifoldeb	96
- System o Lywodraethu a Sicrwydd	99
- Strwythur Sefydliadol	105
- System o Reolaeth Fewnol	106
- Datgeliadau gorfodol	112
- Adolygu Effeithiolrwydd	120
- Casgliad	124
- Atodiadau	125
3. Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Senedd Cymru	150
4. Tystysgrif ac Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru	
5. Adroddiad Atebolrwydd a Thaliadau a Staff	151

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

2019-20

Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Mae'r adroddiad hwn gan y Cyfarwyddwyr yn dwyn ynghyd wybodaeth am y Bwrdd Iechyd, yn cynnwys gwybodaeth am Aelodau Annibynnol a Chyfarwyddwyr Gweithredol, cyfansoddiad y Bwrdd ac elfennau eraill o'i strwythur llywodraethu a rheoli risgiau.

Mae hefyd yn cynnwys y datgeliadau a'r adroddiadau sy'n ofynnol gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe o ran gweithredu busnes o ddydd i ddydd.

Mae'r Bwrdd yn cynnwys Cyfarwyddwyr Gweithredol, sy'n weithwyr i'r Bwrdd Iechyd, ac Aelodau Annibynnol, a benodwyd gan y Gweinidog drwy broses o benodiadau cyhoeddus agored a chystadleuol. Isod, rhestrir aelodau presennol y Bwrdd ac aelodau eraill yr uwch dîm, ond cafwyd rhai newidiadau drwy gydol 2019-20. Gwnaeth Lynne Hamilton, y Cyn Gyfarwyddwr Cyllid a Sandra Husbands, y Cyn Gyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus, adael y Bwrdd Iechyd i ddilyn cyfleoedd newydd, ac fe adawodd Aelod Annibynnol y Brifysgol hefyd, sef Julian Hopkin. Yn ogystal â hyn, ymddiswyddodd Andrew Davies fel Cadeirydd ym mis Mai 2019.

❖ Cadeiryddion ac Aelodau Annibynnol



Emma Woollett, Cadeirydd (Cadeirydd Dros Dro hyd 31 Mawrth 2020)

Penodiad:
Penodwyd Emma yn Is-gadeirydd ym mis Hydref 2017 ond daeth yn Gadeirydd dros dro ym mis Mai 2019. Cafodd ei phenodi'n Gadeirydd parhaol ym mis Ebrill 2020.

Aelodaeth o'r Bwrdd a Phwyllgorau
Mae Emma yn cadeirio'r Bwrdd, y Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth a Grŵp Cynghori'r Cadeirydd. Caiff ei chefnogi gan nifer o Aelodau Annibynnol.



Martyn Waygood, Is-gadeirydd dros dro

Penodiad:
Penodwyd Martyn yn Aelod Annibynnol ym mis Mehefin 2017 ond daeth yn Is-Gadeirydd dros dro ym mis Gorffennaf 2019

Maes Arbenigedd:
Cyfreithiol

Aelodaeth o'r Bwrdd a Phwyllgorau

Mae Martyn yn cadeirio'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol a'r Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl. Mae'n aelod o'r Bwrdd, y Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth, y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch, a Grŵp Cynghori'r Cadeirydd.



Maggie Berry, Aelod Annibynnol

Penodiad:
Penodwyd Maggie yn Aelod Annibynnol ym mis Mai 2015.

Aelodaeth o'r Bwrdd a Phwyllgorau
Mae Maggie yn cadeirio'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch. Mae'n aelod o'r Bwrdd, y Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth, Grŵp Cynghori'r Cadeirydd, y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch a'r Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl.



Martin Sollis, Aelod Annibynnol

Penodiad:
Penodwyd Martin yn Aelod Annibynnol ym mis Mehefin 2017.

Maes Arbenigedd:
Cyllid

Aelodaeth o'r Bwrdd a Phwyllgorau
Mae Martin yn cadeirio'r Pwyllgor Archwilio. Mae'n aelod o'r Bwrdd, y Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth, Grŵp Cynghori'r Cadeirydd, y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol a'r Pwyllgor Perfformiad a Chyllid.



Jackie Davies, Aelod Annibynnol

Penodiad:
Penodwyd Jackie yn Aelod Annibynnol ym mis Awst 2017.

Maes Arbenigedd:
Undebau Llafur

Aelodaeth o'r Bwrdd a Phwyllgorau
Mae Jackie yn aelod o'r Bwrdd, y Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl, y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, Grŵp Cynghori'r Cadeirydd, Pwyllgor y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch a'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol.



Tom Crick, Aelod Annibynnol

Penodiad:
Penodwyd Tom yn Aelod Annibynnol ym mis Hydref 2017.

Maes Arbenigedd:
Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu.

Aelodaeth o'r Bwrdd a Phwyllgorau
Mae Tom yn cadeirio Pwyllgor y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol. Mae'n aelod o'r Bwrdd, y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch, y Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth, Grŵp Cynghori'r Cadeirydd a'r Pwyllgor Archwilio.



Mark Child, Aelod Annibynnol

Penodiad:
Penodwyd Mark yn Aelod Annibynnol ym mis Hydref 2017.

Maes Arbenigedd:
Awdurdod lleol

Aelodaeth o'r Bwrdd a Phwyllgorau
Mae Mark yn aelod o'r Bwrdd, y Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth, Grŵp Cynghori'r Cadeirydd, a'r Pwyllgor Perfformiad a Chyllid.



Reena Owen, Aelod Annibynnol

Penodiad:
Penodwyd Reena yn Aelod Annibynnol ym mis Awst 2018.

Maes Arbenigedd:
Cymuned

Aelodaeth o'r Bwrdd a Phwyllgorau
Mae Reena yn cadeirio'r Pwyllgor Perfformiad a Chyllid. Mae'n aelod o'r Bwrdd, y Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth, y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch, Grŵp Cynghori'r Cadeirydd a'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch.



Nuria Zolle, Aelod Annibynnol

Penodiad:
Penodwyd Nuria yn Aelod Annibynnol ym mis Hydref 2019.

Maes Arbenigedd:
Trydydd Sector

Aelodaeth o'r Bwrdd a Phwyllgorau
Mae Nuria yn aelod o'r Bwrdd, y Pwyllgor Archwilio, Pwyllgor y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth a Grŵp Cynghori'r Cadeirydd.

❖ Aelodau Cyswllt y Bwrdd



Andrew Jarrett, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Castell-nedd Port Talbot

Penodiad:
Penodwyd Andrew yn Aelod Cyswllt y Bwrdd ym mis Ebrill 2020.

Aelodaeth o'r Bwrdd a Phwyllgorau
Mae Andrew yn mynychu'r Bwrdd, y Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth a Grŵp Cynghori'r Cadeirydd.

❖ Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr Gweithredol



Tracy Myhill, Prif Weithredwr

Penodiad:
Penodwyd Tracy yn Brif Weithredwr ym mis Chwefror 2018.

Aelodaeth o'r Bwrdd a Phwyllgorau
Mae Tracy yn mynychu'r Bwrdd, y Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth a Grŵp Cynghori'r Cadeirydd.

Cefnogir Tracy gan saith Cyfarwyddwr Gweithredol yn ogystal ag aelodau cyswllt eraill o'r Bwrdd Gweithredol.



Chris White, Prif Swyddog Gweithredu/Cyfarwyddwr Therapïau a Gwyddorau Iechyd/Dirprwy Brif Weithredwr

Penodiad:
Penodwyd Chris yn Brif Swyddog Gweithredu ym mis Rhagfyr 2017.

Aelodaeth o'r Bwrdd a Phwyllgorau
Mae Chris yn mynychu'r Bwrdd, y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch, y Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl, y Pwyllgor Perfformiad a Chyllid a Phwyllgor y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol.



Gareth Howells, Cyfarwyddwr Nyrsio a Phrofiad y Claf

Penodiad:
Penodwyd Gareth yn Gyfarwyddwr Nyrsio a Phrofiad y Claf ym mis Gorffennaf 2018.

Aelodaeth o'r Bwrdd a Phwyllgorau
Mae Gareth yn mynychu'r Bwrdd, y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, y Pwyllgor Archwilio, y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch, y Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl a Phwyllgor y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol.



Richard Evans, Cyfarwyddwr Meddygol

Penodiad:
Penodwyd Richard yn Gyfarwyddwr Meddygol ym mis Tachwedd 2018.

Aelodaeth o'r Bwrdd a Phwyllgorau
Mae Richard yn bresennol yn y Bwrdd, y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, a Phwyllgor y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol.



Hazel Robinson, Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol

Penodiad:
Penodwyd Hazel yn Gyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol ym mis Ebrill 2018.

Aelodaeth o'r Bwrdd a Phwyllgorau
Mae Hazel yn mynychu'r Bwrdd, Pwyllgor y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch, a'r Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth.



Darren Griffiths, Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro

Penodiad:
Penodwyd Darren yn Gyfarwyddwr Cyllid Dros Dro ym mis Chwefror 2020.

Aelodaeth o'r Bwrdd a Phwyllgorau
Mae Darren yn mynychu'r Bwrdd, y Pwyllgor Perfformiad a Chyllid, y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol, y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch.



Siân Harrop-Griffiths, Cyfarwyddwr Strategaeth

Penodiad:
Penodwyd Siân yn Gyfarwyddwr Strategaeth ym mis Tachwedd 2014.

Aelodaeth o'r Bwrdd a Phwyllgorau
Mae Siân yn mynychu'r Bwrdd, y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, y Pwyllgor Perfformiad a Chyllid a'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol.



Keith Reid, Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus

Penodiad:
Penodwyd Keith yn Gyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus ym mis Rhagfyr 2019.

Aelodaeth o'r Bwrdd a Phwyllgorau
Mae Keith yn bresennol yn y Bwrdd, y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch a'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch.

❖ Aelodau'r Tîm Gweithredol (nad ydynt yn aelodau o'r Bwrdd)



Pamela Wenger, Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol

Penodiad:
Penodwyd Pam yn Gyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol ym mis Ionawr 2018.

Aelodaeth o'r Bwrdd a Phwyllgorau
Pam yw prif gynghorydd llywodraethu'r Bwrdd. Mae'n mynychu'r Bwrdd, y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch, y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol, y Pwyllgor Archwilio, y Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl, y Pwyllgor Perfformiad a Chyllid, y Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth a Phwyllgor y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol.



Hannah Evans, Cyfarwyddwr Trawsnewid

Penodiad:
Penodwyd Hannah yn Gyfarwyddwr Trawsnewid ym mis Awst 2018.

Aelodaeth o'r Bwrdd a Phwyllgorau
Mae Hannah yn bresennol yn y Bwrdd a'r Pwyllgor Perfformiad a Chyllid.



Matt John, Cyfarwyddwr Cyswllt ar gyfer Gwasanaethau Digidol

Penodiad:
Er i Matt weithio yn y Bwrdd Iechyd ers nifer o flynyddoedd, cafodd ei benodi'n Gyfarwyddwr Cyswllt Gwasanaethau Digidol ym mis Awst 2018.

Penodwyd Matt yn Gyfarwyddwr Cyswllt ar gyfer Gwasanaethau Digidol ym mis Awst 2014.

Aelodaeth o'r Bwrdd a Phwyllgorau
Mae Matt yn mynychu'r Bwrdd.



Irfon Rees, Pennaeth y Staff

Penodiad:
Penodwyd Irfon yn Bennaeth y Staff ym mis Awst 2018.

Aelodaeth o'r Bwrdd a Phwyllgorau
Mae Irfon yn mynychu'r Bwrdd.

Datganiad o Fuddiant y Cyhoedd

Mae pob aelod o'r Bwrdd wedi datgan yn ysgrifenedig ei fod wedi cymryd yr holl gamau y dylid bod wedi'u cymryd er mwyn gwneud yr archwilwyr yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol.

Mae aelodau'r Bwrdd ac Uwch Reolwyr wedi datgan unrhyw fuddiannau mewn cwmnïau a allai arwain at wrthdaro â'u cyfrifoldebau ar y Bwrdd Corfforaethol. Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau perthnasol yn 2019-20 ac mae cofrestr lawn o fuddiannau ar gael drwy wneud cais i'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol.

Datganiadau Datgelu

Byddai Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn gwneud y datganiadau datgelu canlynol ar gyfer 2019-20.

- Mae wedi cael saith achos lle y golygai gwendidau mewn diogelwch data ei bod yn ofynnol adrodd amdanynt i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth fel y manylir ar dudalen 118:

- Er nad yw'n ofynnol cydymffurfio â phob elfen o'r Cod Llywodraethu Corfforaethol ar gyfer adrannau'r llywodraeth ganolog, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe wedi cynnal asesiad yn erbyn y prif egwyddorion fel y maent yn berthnasol i sefydliad sector cyhoeddus y GIG yng Nghymru. Mae'r asesiad hwn wedi'i hysbysu gan yr asesiad llywodraethu ac mae hefyd wedi'i dystio gan archwiliadau mewnol ac

allanol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio â phrif egwyddorion y Cod lle y bo'n gymwys, ac yn dilyn ysbryd y Cod yn effeithiol ac yn cynnal ei fusnes yn agored ac yn unol â'r Cod. Mae'n cydnabod nad yw holl elfennau adrodd y Cod wedi'u hamlinellu yn y datganiad llywodraethu hwn ond adroddir yn llawnach amdanynt yn yr adroddiad blynyddol ehangach. Nid oes unrhyw wyriadau oddi wrth y Cod Llywodraethu Corfforaethol wedi'u hadrodd/wedi'u nodi yn ystod y flwyddyn.

- Uchelgais Llywodraeth Cymru yw bod y sector cyhoeddus yn garbon niwtral erbyn 2030. Mae'r uchelgais hon yn cyd-fynd â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 fel sbardunau deddfwriaethol ar gyfer datgarboneiddio'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Yn unol â'r gofynion o ran paratoi ar gyfer argyfyngau ac argyfyngau sifi (ar sail rhagamcanion y tywydd yn Rhaglen Effeithiau Hinsawdd y DU 2009, er mwyn sicrhau y cydymffurfir â rhwymedigaeth y sefydliad dan y Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd a'r gofynion adrodd ar ymaddasu), mae gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau wrth gefn ar gyfer tywydd eithafol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflawni a chadw ISO:14001, sef yr ardystiad ar gyfer ein system rheoli amgylcheddol, ers 2012. Mae ganddo fatrics asesu risg cynhwysfawr ar gyfer nodi a monitro'r holl effeithiau a'r holl agweddau ar yr amgylchedd, sy'n ddarostynedig i archwiliad annibynnol. Cymeradwyodd Pwyllgor Rheoli'r Amgylchedd y strategaeth lleihau carbon (Gofal heb Garbon: Gweledigaeth 2025) yn 2016, sy'n nodi amcanion clir ar gyfer lleihau carbon, ac mae targedau wedi'u pennu. Mae'r cynnydd yn erbyn yr amcanion a'r targedau hyn yn cael eu dogfennu yn yr adroddiad blynyddol ar gyfer y system rheoli amgylcheddol. Yn 2019, disodlwyd y pwyllgor gan y Pwyllgor Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol – er mwyn mynd i'r afael â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae strategaeth lleihau carbon y Bwrdd Iechyd yn cynnwys chwe gweledigaeth allweddol sy'n cynnwys cwmpas un, dau a thri o'r Protocol Nwyon Tŷ Gwydr, a bennwyd gan Sefydliad Adnoddau'r Byd (WRI) a Chyngor Busnes y Byd ar Ddatblygu Cynaliadwy (WBCSD) ac mae iddi nifer o amcanion:
  - Datgarboneiddio ei gyfleusterau yn unol â thargedau cenedlaethol;
  - Datgarboneiddio ein gweithrediadau teithio a thrafnidiaeth a lleihau'r effeithiau amgylcheddol a'r effeithiau iechyd sy'n gysylltiedig â symud staff a deunyddiau;
  - Cyfrannu at staff a lles drwy helpu i symud oddi wrth ddibyniaeth ar geir i opsiynau teithio mwy cynaliadwy sy'n arwain at fanteision ychwanegol i'r amgylchedd ac i iechyd
  - Lleihau allyriadau CO2;
  - Bydd y Bwrdd Iechyd yn lleihau gwastraff drwy ein gweithgareddau gweithredol yn unol â thargedau Llywodraeth Cymru i ailgylchu neu adennill 70% o wastraff erbyn 2025 (gyda 2007 yn flwyddyn sylfaen);
  - Dileu gwastraff o'n cadwyn gyflenwi drwy weithredu ein polisïau caffael a'n prosesau tendro a thrwy gydweithredu'n rhagweithiol â phrif bartneriaid ein cadwyn gyflenwi;
  - Datblygu ei raglen hyfforddi i sicrhau bod pob aelod o staff yn cael hyfforddiant lleihau carbon a hyfforddiant newid yn yr hinsawdd fel sy'n briodol i'w rolau;
  - Hysbysu, grymuso ac ysgogi ein gweithlu i gymryd camau i ddarparu gofal o ansawdd uchel heddiw nad yw'n amharu ar ein gallu i ddarparu gofal yn y dyfodol a sicrhau bod hyn yn dod yn rhan o'r gwerthoedd;
  - Ymrwymiad i ddyfodol heb garbon.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod y rôl hanfodol y gall ein staff ei chwarae o ran ein helpu i gyflawni'r strategaeth hon yn ogystal ag yn cydnabod grym partneriaeth er mwyn cyflymu cynnydd a sicrhau llwyddiant.

- Mae adran benodol ar ansawdd data yn adroddiad blynyddol yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO). Mae pwysigrwydd gwybodaeth o ansawdd da yn ofyniad sylfaenol ar gyfer trin cleifion yn effeithiol ac yn brydlon ac er mwyn diwallu anghenion llywodraethu clinigol, gwybodaeth reoli, atebolrwydd, cynllunio iechyd a chytundebau gwasanaethau. Nid yn unig y gall data o ansawdd gwael effeithio ar driniaeth claf, ond gall hefyd gael effaith andwyol ar incwm i'r Bwrdd Iechyd ac ar y gallu i gynllunio a datblygu'r gwasanaethau sydd eu hangen ar y gymuned yn gywir. Mae gwybodaeth gywir hefyd yn ofyniad allweddol ac yn un o egwyddorion y ddeddfwriaeth diogelu data. Mae'r adroddiad yn cynnwys y dangosyddion data ar gyfer ansawdd sy'n orfodol o fewn GIG Cymru ac yn cynnwys y setiau canlynol o ddata:-

    - Set ddata ar gyfer Gofal Cleifion sy'n Cael eu Derbyn i'r Ysbyty (APC)
    - Set ddata ar gyfer Gweithgaredd Cleifion Allanol (OPA)
    - Set ddata ar gyfer Atgyfeirio Cleifion Allanol (OPR)
    - Set ddata ar gyfer Adrannau Achosion Brys (ED)
    - Set ddata ar gyfer Gofal Critigol (CC)

  Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r Bwrdd Iechyd yn cymharu'n eithriadol o dda ag eraill yng Nghymru, fel y dangosir yn yr adroddiadau perfformiad blynyddol a gyhoeddir gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru ac adroddiad yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth.

- Fel cyflogwr â staff sydd â'r hawl i fod yn aelodau o gynllun pensiwn y GIG, mae mesurau rheoli ar waith i sicrhau y cydymffurfir â holl rwymedigaethau'r cyflogwr o fewn rheoliadau'r cynllun. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod didyniadau a wneir o gyflogau, cyfraniadau'r cyflogwr a thaliadau yn unol â rheolau'r cynllun, a bod cofnodion aelodau'n cael eu diweddaru'n gywir yn unol â'r amserlenni a nodir yn y rheoliadau.

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Prif Weithredwr fel Swyddog Atebol

Mae Gweinidogion Cymru wedi gorchymyn mai'r Prif Weithredwr ddylai fod yn swyddog atebol ar gyfer y Bwrdd Iechyd.

Mae cyfrifoldebau perthnasol swyddogion atebol, gan gynnwys eu cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y maent yn atebol amdano, a'u cyfrifoldeb am gadw cofnodion cywir, wedi'u nodi gan Lywodraeth Cymru ym Memorandwm y Swyddog Atebol.

Mae'n ofynnol i'r swyddog atebol gadarnhau, cyn belled ag y mae'n ymwybodol, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr yr endid yn ymwybodol ohoni, a bod y swyddog atebol wedi cymryd yr holl gamau y dylai fod wedi'u cymryd i'w gwneud ei hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod archwilwyr yr endid yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Mae'n ofynnol i'r swyddog atebol gadarnhau bod yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon cyfan yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a'i bod yn cymryd cyfrifoldeb personol am yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon ac am y dyfarniadau sy'n ofynnol ar gyfer penderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, rwyf wedi cyflawni'n briodol y cyfrifoldebau a nodwyd yn fy llythyr penodi fel swyddog atebol.

Dyddiad: 25.06.2020



Prif Weithredwr

Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr mewn perthynas â'r cyfrifon

O dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, mae'n ofynnol i'r Cyfarwyddwyr baratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Mae Gweinidogion Cymru, gyda chymeradwyaeth y Trysorlys, yn gorchymyn bod y cyfrifon hyn yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Bwrdd Iechyd ac o incwm a gwariant y Bwrdd Iechyd am y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r cyfrifon hynny, mae'n ofynnol i'r Cyfarwyddwyr:

- weithredu ar sail gyson egwyddorion cyfrifyddu a osodwyd gan Weinidogion Cymru gyda chymeradwyaeth y Trysorlys;
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon sy'n gyfrifol ac yn ddarbodus;
- nodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddu, yn amodol ar unrhyw wyriadau o bwys a ddatgelir ac a eglurir yn y cyfrif.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn cadarnhau eu bod wedi cydymffurfio â'r gofynion uchod wrth baratoi'r cyfrifon.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu cywir sy'n datgelu gyda chywirdeb rhesymol, ar unrhyw adeg, sefyllfa ariannol yr awdurdod ac yn eu galluogi i sicrhau bod y cyfrifon yn cydymffurfio â'r gofynion a amlinellir yn y cyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru a grybwyllwyd uchod.

Drwy orchymyn y Bwrdd, llofnodwyd gan:

Cadeirydd		Dyddiad: 25.06.2020
Prif Weithredwr		Dyddiad: 25.06.2020
Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro		Dyddiad: 25.06.2020

Datganiad Llywodraethu

Cyflwyniad

Yn ystod 2019-20, roedd gan y Bwrdd Iechyd gyllideb o £913,670,000 ac roedd yn cyflogi 12,991. Adroddwyd mai'r sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn, cyn cynnal archwiliad o'r cyfrifon, oedd diffyg o £16.3m. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn unol â'r rhagolwg ariannol drwy gydol y flwyddyn, gan mai'r gred wreiddiol oedd y byddai'r gyllideb yn cael ei mantoli. Yng nghyfarfod y Bwrdd Iechyd ar 28 Tachwedd 2019 ystyriwyd y camau yr oedd angen eu cymryd i fantoli'r gyllideb. Er y cytunwyd ar nifer o gamau gwella, ni chytunwyd ar gamau gweithredu a fyddai wedi effeithio'n andwyol ar ofal cleifion. Felly, yn dilyn cyfnod wyth, gwnaeth y Bwrdd Iechyd addasu ei ragolwg ar ddiwedd y flwyddyn ariannol i orwariant o £12.3m. Cafwyd trafodaeth bellach ar 27 Chwefror 2020 pan gytunwyd ar y diffyg o £16.3m. Dyma flwyddyn gyntaf y sefydliad fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe yn dilyn newid ffin Pen-y-bont ar Ogwr, a olygai fod y cyfrifoldeb am y gwasanaethau iechyd yn ardal yr awdurdod lleol hwnnw wedi trosglwyddo i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu gwasanaethau gofal sylfaenol (meddygon teulu, optegwyr, gwasanaethau fferyllol a deintyddol) a gwasanaethau gofal eilaidd, sydd wedi'u lleoli mewn tri ysbyty acíwt; Treforys, Singleton a Chastell-nedd Port Talbot. Yn ogystal â hyn, darperir gwasanaethau trydyddol, sef gwasanaethau mwy arbenigol fel llawdriniaethu plastig, ac sydd ond ar gael mewn nifer llai o ysbytai ledled Cymru. Yn ogystal â'r rhain, darperir gwasanaethau iechyd meddwl fforensig i Dde Cymru gyfan, ynghyd â gwasanaethau anableddau dysgu o Abertawe i Gaerdydd ac i ardaloedd Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful. Yn olaf, darperir rhai gwasanaethau hefyd yng nghartrefi cleifion, mewn ysbytai cymunedol, mewn canolfannau iechyd ac mewn clinigau, gan hefyd ddarparu gwasanaethau meddygol a deintyddol cyffredinol i Hillside, sef uned ddiogel i blant, ac i Garchar Abertawe.

Meysydd Cyfrifoldeb

Mae'r Bwrdd yn atebol am lywodraethu da, rheoli risgiau a phrosesau rheoli mewnol y sefydliad. Fel Prif Weithredwr, mae gennyf gyfrifoldeb am gynnal strwythurau a gweithdrefnau llywodraethu priodol, yn ogystal ag am sicrhau bod system effeithiol o reolaeth fewnol ar waith sy'n cefnogi'r broses o gyflawni polisïau, nodau ac amcanion y sefydliad, gan ddiogelu'r arian cyhoeddus ac asedau'r Bwrdd Iechyd yr wyf yn bersonol yn gyfrifol amdanynt. Cyflawnir y rhain yn unol â'r cyfrifoldebau a bennwyd gan swyddog atebol GIG Cymru.

Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb hwn, rwyf i, ynghyd â'r Bwrdd, yn gyfrifol am roi trefniadau ar waith ar gyfer llywodraethu'r Bwrdd Iechyd yn effeithiol, gan hwyluso'r broses o weithredu swyddogaethau'r Bwrdd yn effeithiol a'r broses o reoli risg yn effeithiol.

Ar adeg paratoi'r datganiad llywodraethu blynyddol hwn, mae'r Bwrdd Iechyd a GIG Cymru yn wynebu pwysau digynsail a chynyddol wrth gynllunio a darparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion y rheini sy'n cael eu heffeithio gan Covid-19, gan gynllunio hefyd i ailddechrau gweithgareddau eraill yr effeithiwyd arnynt.

Mae'r ymateb a oedd yn ofynnol gennym wedi golygu bod y sefydliad cyfan wedi gorfod gweithio'n wahanol iawn yn fewnol a chyda ein staff, ein partneriaid a'n rhanddeiliaid, a bu'n rhaid adolygu'r ffordd y caiff y fframwaith llywodraethu a gweithredu ei gyflawni.
I gydnabod hyn, ysgrifennodd Dr Andrew Goodall, Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/Prif Weithredwr GIG Cymru at holl brif weithredwyr y GIG yng Nghymru, i roi arweiniad am benderfyniadau a materion ariannol ar gyfer Covid-19. Roedd ei lythyr yn cydnabod y byddai sefydliadau'n debygol o symud yn gyflym i wneud penderfyniadau a allai fod yn anodd, a hynny heb dystiolaeth gadarn neu gefnogaeth gan unigolion allweddol, a fyddai fel arfer ar gael o dan amgylchiadau gweithredu arferol. Serch hynny, mae'n dal yn ofynnol i'n sefydliad ddangos i'r broses o wneud penderfyniadau fod yn effeithlon ac y bydd y broses honno'n cael ei hystyried yn gadarn pan eir ati i graffu ar y graddau y cydymffurfiwyd â 'Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru' ac y dangoswyd gwerth am arian ar ôl i argyfwng Covid-19 dawelu ac ar ôl i'r sefydliad ddychwelyd i amodau gweithredu mwy arferol.

I ddangos hyn, mae'r sefydliad yn cofnodi sut mae effeithiau Covid-19 wedi dylanwadu ar unrhyw newidiadau i'r prosesau arferol o wneud penderfyniadau. Lle bo'n berthnasol, mae'r camau hyn, a chamau eraill a gymerwyd, wedi'u hegluro yn y datganiad llywodraethu blynyddol.

❖ Ein Pwrpas, ein Gweledigaeth a'n Gwerthoedd

Mae gan y Bwrdd bwrpas, uchelgais, nodau strategol ac amcanion galluogi clir sydd wedi eu datblygu i gyflawni ein cyfrifoldebau dinesig drwy wella iechyd cymunedau, lleihau anghydraddoldebau iechyd a darparu gofal iechyd darbodus lle mae cleifion a defnyddwyr gwasanaethau'n teimlo eu bod yn cael eu gofalu amdanynt, ac yn teimlo'n hyderus ac yn ddiogel.

Ein bwriad yw i'r Bwrdd Iechyd symud i fod yn sefydliad sy'n canolbwyntio ar iechyd y boblogaeth, gan gomisiynu gwasanaethau i gwrdd ag anghenion y claf a'r gymuned. Mae ein dau nod strategol, *Cefnogi Iechyd Gwell* a *Cyflawni Gofal Gwell*, a'r amcanion galluogi sy'n gysylltiedig â'r rhain, yn glir o ran ein huchelgais i newid, a byddant yn canolbwyntio fwyfwy ar weithio gyda'n partneriaid er mwyn gwella lles ein poblogaeth.

Tra bydd ein hamcanion yn sicrhau ein bod yn cwrdd â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol, ynghyd â safonau proffesiynol, mae ein ffyrdd o weithio'n seiliedig ar fframwaith o werthoedd ac ymddygiad, a ddatblygwyd yn dilyn llawer o sgyrsiau â staff, cleifion, perthnasau a gofalwyr.

❖ Blaenoriaethau Ansawdd



Cytunwyd ar ugain o flaenoriaethau ansawdd fel rhan o Ddatganiad Ansawdd Blynyddol 2018-19. Dewiswyd y rhain er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r meysydd sy'n berthnasol i'n statws ymyrraeth wedi'i thargedu, yn ogystal ag mewn ymateb i wybodaeth busnes a ddangosodd feysydd i wella arnynt o ran ansawdd. Mae mwy o fanylion ar gael yn natganiad ansawdd blynyddol y flwyddyn hon, a fydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Medi 2020.

❖ Ymyrraeth Wedi'i Thargedu

Arhosodd y Bwrdd Iechyd ar lefel 'ymyrraeth wedi'i thargedu' fel rhan o drefniadau uwchgyfeirio ac ymyrryd GIG Cymru drwy gydol y flwyddyn. Rhoddwyd ffocws cadarn ar wella meysydd gwasanaeth penodol, sy'n cynnwys gofal heb ei drefnu, canser, gofal wedi'i gynllunio, rheoli heintiau, strôc a rheolaeth ariannol.

Rhoddwyd camau gwella helaeth ar waith i fynd i'r afael â pherfformiad ar gyfer gofal heb ei drefnu, yn cynnwys gweithredu'r rhaglen 'Adre o'r Ysbyty', a ddechreuodd ddod i rym tua diwedd y flwyddyn. Cyrhaeddodd ein perfformiad pedair awr 75%; roedd cyfraddau ymateb categori A yn uwch na tharged Cymru gyfan o 65%; yn ogystal â hyn cafwyd gostyngiad mewn oriau coll, ynghyd â gwelliannau o fis i fis mewn perthynas ag oedi wrth drosglwyddo gofal.

Cafodd perfformiad ar gyfer gofal wedi'i gynllunio ei effeithio'n sylweddol gan y pwysau ar ofal heb ei drefnu, yn ogystal â chan y newidiadau i reolau'r dreth bensiwn a oedd yn lleihau hyblygrwydd y gweithlu anaesthetig. O ganlyniad, cynyddodd nifer y cleifion a oedd yn aros mwy na 36 wythnos am driniaeth i dros 5,000. O'r herwydd, ni ellid cytuno ar darged diwedd blwyddyn gyda Llywodraeth Cymru, gan fod yr ystod yn parhau i amrywio. Rhoddwyd nifer o gamau ar waith i fynd i'r afael â'r niferoedd a oedd yn aros, a sefydlogodd y sefyllfa yn chwarter olaf y flwyddyn.

O ran perfformiad canser, gwelwyd tystiolaeth o wella cyson mewn perthynas ag achosion brys yn ail hanner y flwyddyn, gyda gostyngiad yn nifer yr achosion o fethu targedau ym mis Ionawr 2020. Cyrhaeddwyd perfformiad o 90% hefyd am y tro cyntaf mewn blwyddyn.

O ran heintiau sy'n cael eu dal wrth gael gofal iechyd, gwelwyd bod nifer yr achosion o *e-coli* yn well na'r hyn a ragamcanwyd ar gyfer pob mis drwy gydol y flwyddyn. Bu rhywfaint o welliant hefyd o ran *clostridium difficile*, *klebsiella,*, *pseudomonas aeruginosa* a *staph.aureus,* gyda mân gynnydd yn y rhagamcaniadau a adroddwyd yn ystod y flwyddyn. Ers Tachwedd 2019, mae bacteria aml-wrthiannol wedi bod yn

bresennol ar ward G yn Ysbyty Treforys, a arweiniodd at ei chau hyd nes y gellid cymryd camau i'w dileu.

Cryfhawyd rheolaeth ariannol yn sylweddol wrth gyflawni'r cynllun arbedion yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, roedd y pwysau gweithredol, y costau gofal iechyd parhaus a'r annarbodion maint a oedd yn ymwneud â newid ffin Pen-y-bont ar Ogwr, yn golygu nad oedd modd i'r Bwrdd Iechyd fantoli'r gyllideb fel y rhagwelwyd ar ddechrau'r flwyddyn. Ym mis Tachwedd 2019, penderfynwyd newid ei ragolwg i £12.3m, ac fe'i newidiwyd eto ym mis Chwefror 2020 i £16.3m, gan lwyddo i gadw at hynny. Yn ystod y flwyddyn, comisiynodd Llywodraeth Cymru KPMG i gynnal adolygiad o lywodraethu ariannol, a roddodd nifer o argymhellion a meysydd i'r Bwrdd Iechyd eu hystyried er mwyn gwella ei reolaeth ariannol.

System o Lywodraethiant a Sicrwydd

❖ Trosolwg

Mae'n ofyniad statudol ar y Bwrdd Iechyd i gydymffurfio â Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009 ac mae'n cynnwys Cadeirydd, Is-gadeirydd, Prif Weithredwr, naw Aelod Annibynnol a saith Cyfarwyddwr Gweithredol. Ym mis Mai 2019, gwnaed yr Is-gadeirydd parhaol, Emma Woollett, yn Gadeirydd dros dro, gyda Martyn Waygood, yr Aelod Annibynnol Cyfreithiol, yn ymgymryd â rôl ddeuol fel Is-gadeirydd dros dro hefyd. Penodwyd Emma yn Gadeirydd ym mis Ebrill 2020 a bydd y broses recriwtio ar gyfer swydd yr Is-gadeirydd yn cychwyn ar ôl i bandemig Covid-19 arafu. Ar gyfer rhan olaf y flwyddyn, roedd gan y Bwrdd Iechyd swydd wag ar gyfer Aelod Annibynnol y Brifysgol a oedd yn golygu i'r aelodau eraill gymryd dyletswyddau ychwanegol er mwyn sicrhau bod cworwm a bod ymrwymiadau corfforaethol yn cael eu cyflawni. Penodwyd i'r swydd hon ym mis Mai 2020. Mae yna hefyd dair swydd ar gyfer Aelodau Cyswllt, ac mae dwy ohonynt yn wag ar hyn o bryd. Un o'r swyddi hyn yw Cadeirydd Fforwm y Gweithwyr Iechyd Proffesiynol, sydd yn y broses o gael ei gytuno gan fod y Fforwm bellach wedi ailgychwyn ar ôl cyfnod o absenoldeb. Y swydd arall yw Cadeirydd y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid, gan i'r Cadeirydd ymddiswyddo ym mis Mawrth 2020 oherwydd rôl newydd.

Mae'r rhain i gyd yn sicrhau bod y Bwrdd yn cynnwys pobl o amrywiol gefndiroedd, disgyblaethau ac arbenigeddau. Caiff hyn ei gyfoethogi ymhellach drwy swyddi lle nad yw'r aelodau'n aelodau gweithredol, sef y Cyfarwyddwr Trawsnewid, y Cyfarwyddwr Cyswllt ar gyfer Gwasanaethau Digidol a Phennaeth y Staff. Bu Cyfarwyddwr Cyswllt ar gyfer Perfformiad a Chyllid hefyd hyd nes i ddeiliad y swydd ymgymryd â rôl y Cyfarwyddwr Cyllid dros dro ym mis Chwefror 2020.

Mae'r Bwrdd yn gweithio fel corff sy'n gwneud penderfyniadau corfforaethol, gyda chyfarwyddwyr gweithredol ac aelodau annibynnol yn rhannu cyfrifoldebau fel aelodau cyfartal. Prif rôl y Bwrdd yw arwain, cyfeirio a rheoli, sy'n cynnwys pennu'r cyfeiriad strategol cyffredinol ar gyfer y sefydliad (yn unol â pholisïau a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru) a sefydlu a chynnal lefelau uchel o lywodraethu ac atebolrwydd corfforaethol, sy'n cynnwys rheoli risgiau a rheolaeth fewnol. Mae hefyd yno er mwyn:

- Sicrhau bod nodau ac amcanion yn cael eu cyflawni drwy herio a chraffu'n effeithiol ar berfformiad ar draws pob un o'r meysydd cyfrifoldeb;

- Sicrhau y darperir gofal diogel o ansawdd uchel i gleifion;
- Meithrin galluoedd a galluogrwydd y gweithlu i adeiladu ar werthoedd y Bwrdd Iechyd a chreu diwylliant cryf o ddysgu a datblygu;
- Rhoi stiwardiaeth ariannol effeithiol ar waith drwy sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn cael ei weinyddu'n ddarbodus ac yn ddiwastraff gan ddefnyddio adnoddau'n briodol ac yn effeithlon;
- Sefydlu cyfathrebu effeithiol rhwng y sefydliad a'i gymuned er mwyn sicrhau bod ei wasanaethau wedi'u cynllunio ac yn ymateb i'r anghenion sy'n cael eu nodi;
- Penodi, arfarnu a goruchwylio trefniadau ar gyfer rhoi taliadau cydnabyddiaeth i swyddogion gweithredol.

Ymdrinnir â'r modd y caiff y Bwrdd ei redeg o ddydd i ddydd drwy ei reolau sefydlog a'i gyfarwyddiadau ariannol sefydlog cymeradwy sy'n lleoleiddio gofynion statudol Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009, ynghyd â chynllun dirprwyo sy'n berthnasol i swyddogion ac i'r Bwrdd a'i bwyllgorau. Adolygir y rheolau sefydlog a'r cyfarwyddiadau ariannol sefydlog yn rheolaidd ac fe'u hategir gan gyfres o bolisïau a gweithdrefnau corfforaethol.

Yn ystod 2019-20, gwnaed y gwelliannau canlynol:

- Datblygwyd Pwyllgor y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol fel ei fod yn canolbwyntio'n fwy ar sicrwydd a chraffu;
- Datblygwyd fframwaith sicrwydd y Bwrdd;
- Datblygwyd rhaglen ymsefydlu leol ar gyfer Aelodau Annibynnol;
- Canllawiau a rhaglen teithiau ar gyfer ymweliadau â gwasanaethau;
- Rhaglen waith ar gyfer y Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth;

Yn ystod y flwyddyn, cafwyd rhai adolygiadau allanol a fu'n allweddol i lywodraethiant corfforaethol, llywodraethiant clinigol a sicrwydd y Bwrdd, gan gynnwys:

- **KPMG (Cymorth ar gyfer Cynllunio Ariannol a Chyflawni)**

Comisiynwyd KPMG gan Lywodraeth Cymru i roi cymorth i'r Bwrdd Iechyd gyda ffocws ar wella sefyllfa ariannol y sefydliad, gan brofi ei gynlluniau sylfaenol a'i fframwaith cyflawni.

Mae'r adroddiad cyffredinol yn cyflwyno rhai heriau i'r sefydliad ac er ei bod yn glir bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud gwelliannau o ran llywodraethu a chyflawni dros y blynyddoedd diwethaf, mae angen newid sylweddol o ran pa mor gyflym y mae'n trawsnewid ac mae angen mwy o bwyslais ar gydymffurfio yn erbyn rheolaethau. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod wrthi'n ddiwyd yn rhoi sylw i argymhellion yr adroddiadau, er enghraifft, o ran sicrhau bod y blaenoriaethau o fewn y cynllun gwasanaethau clinigol yn gydnaws â'r angen i wneud arbedion mewn meysydd allweddol (yn cynnwys cleifion allanol, llif cleifion a theatrau). Fodd bynnag, mae angen mwy o frys a chyfeiriad o ystyried yr asesiad o raddfa'r her ariannol ar gyfer y flwyddyn nesaf. Cafodd cynllun gweithredu ei ddatblygu a'i rannu â'r Bwrdd ym mis Mawrth 2020, ynghyd â'r adroddiad llawn, gyda'r cynnydd i'w gael ei fonitro'n ofalus gan y Pwyllgor Archwilio drwy gydol 2020-21.

- **Hysbysiadau Gwella'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)**

Fel rhan o raglen arolygu'r HSE o drais ac ymddygiad ymosodol ac anhwylderau cyhyrysgerbydol mewn gofal iechyd yn 2018-2019, cafodd y Bwrdd Iechyd ymweliadau arolygu rhwng 27 a 29 Tachwedd 2018, gan arwain at naw hysbysiad gwella ym mis Chwefror 2019, a gafodd eu dilyn gan y 10fed hysbysiad ym mis Gorffennaf 2019. Rhoddwyd cynllun gweithredu cadarn ar waith, a'r terfyn amser ar gyfer cwblhau'r camau gweithredu a chyflwyno ymateb i'r HSE oedd 10 Medi 2019. Y terfyn amser ar gyfer ailarolygu'r holl feysydd a amlygwyd yn yr hysbysiadau gwella oedd 16 a 17 Medi 2019. Yn dilyn hyn, cafwyd cadarnhad y byddai'r mwyafrif o'r hysbysiadau'n cael eu cau. Cytunwyd ar estyniad ar gyfer y gweddill, a chaewyd yr un olaf ym mis Chwefror 2020.

Mae'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch wedi chwarae rôl sicrhau hanfodol wrth oruchwylio'r gwaith o weithredu'r camau a amlygwyd yn yr hysbysiadau gwella.

- **Adolygiad o drefniadau llywodraethu ansawdd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg**

Amcan cyffredinol y trefniadau adolygu ar y cyd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf oedd archwilio a oedd ei drefniadau llywodraethu yn cefnogi darparu gwasanaethau diogel ac effeithiol o ansawdd uchel. Er mwyn cael sicrwydd ynghylch pa mor gadarn yw trefniadau llywodraethu ansawdd ar draws GIG Cymru, gofynnodd Llywodraeth Cymru i bob Bwrdd Iechyd gynnal hunanasesiad yn erbyn yr argymhellion erbyn 2020 Ionawr, gan ddarparu'r lefel bresennol o sicrwydd ac amlinellu unrhyw gamau gweithredu a oedd yn ofynnol. Ystyriwyd adolygiad y Bwrdd Iechyd gan y Bwrdd Gweithredol a chynhaliwyd gwaith craffu a herio gan Grŵp Cynghori'r Cadeirydd pan gyflwynwyd yr adroddiad ym mis Rhagfyr 2019. Cadarnhaodd y Bwrdd y fersiwn derfynol yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2020. Mae rhaglen waith ar gyfer llywodraethu ansawdd wedi'i sefydlu i fynd i'r afael â'r camau gweithredu sy'n weddill a chaiff cynnydd ei fonitro drwy'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch.

- **Adolygiad o Wasanaethau Mamolaeth ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg**

Cyhoeddwyd adolygiad Coleg Brenhinol yr Obstetregwyr a'r Gynaecolegwyr a Choleg Brenhinol y Bydwragedd i wasanaethau mamolaeth ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ym mis Ebrill 2019, gyda 77 o argymhellion. Roedd yn ofynnol i bob Bwrdd Iechyd yng Nghymru gyflwyno adroddiad i Lywodraeth Cymru i feincnodi eu gwasanaethau mamolaeth yn erbyn yr argymhellion. Adroddodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe nad oedd unrhyw argymhellion coch, fod 25 o rai ambr a 43 o rai gwyrdd, a bod naw argymhelliad nad oeddent yn berthnasol. Ym mis Chwefror 2020, roedd tri argymhelliad yn dal yn ambr ac mae'r Bwrdd Gweithredol yn craffu ar gynnydd yn rheolaidd.

- **Ymweliad gan yr Awdurdod Meinweoedd Dynol: Ysbyty Treforys**

Ym mis Mehefin 2019, arolygwyd Ysbyty Treforys gan yr Awdurdod Meinweoedd Dynol. Er i'r arolygiad ganfod bod y Bwrdd Iechyd wedi bodloni'r rhan fwyaf o'r safonau, canfuwyd diffygion mewn perthynas â'r safonau ar gyfer systemau caniatâd, llywodraethu ac ansawdd, olrhain, y safle, y cyfleusterau a'r offer. Adroddwyd am hyn i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch a oedd wedyn yn monitro'r cynnydd yn erbyn y camau gweithredu hyd nes y nodwyd bod pob un wedi'i gau.

❖ Rôl y Bwrdd

Y Bwrdd sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am gyfeiriad strategol y sefydliad ac mae'n darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad. Mae ganddo hefyd rôl allweddol o ran sicrhau bod trefniadau llywodraethu cadarn ar waith yn ogystal â diwylliant agored a safonau uchel yn y ffordd y caiff ei waith ei wneud. Mae aelodau'r Bwrdd yn rhannu cyfrifoldeb corfforaethol dros bob penderfyniad ac yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o fonitro perfformiad y sefydliad.

Yn arferol, mae'r Bwrdd yn cyfarfod yn gyhoeddus chwe gwaith y flwyddyn, ond bydd achlysuron yn ystod y cyfnod hwn pan fydd cyfarfodydd arbennig o'r Bwrdd yn cael eu trefnu, er enghraifft ym mis Mai i gytuno ar y cyfrifon blynyddol. Mae pob cyfarfod rheolaidd yn dechrau gyda stori am glaf, gan nodi profiad personol rhywun sydd wedi defnyddio un o wasanaethau'r Bwrdd Iechyd. Mae hon yn ffordd gyfamserol o ddysgu gwersi ac o helpu i wella a chynllunio gwasanaethau ar gyfer y dyfodol. Yn sgil pandemig Covid-19, gwnaed newidiadau i'r ffordd y cynhaliwyd cyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd o Fawrth 2020 er mwyn cydymffurfio â chanllawiau ar gyfer cadw pellter cymdeithasol a sicrhau diogelwch y cyhoedd a staff. Roedd y sesiynau hyn ar gau i'r cyhoedd ond cyhoeddwyd crynodeb o'r drafodaeth ar wefan y Bwrdd Iechyd o fewn rhai dyddiau i gynnal y cyfarfod.

Yn ogystal â chyfarfodydd Bwrdd ffurfiol, cynhelir sesiynau datblygu chwe gwaith y flwyddyn sy'n gyfle i'r Bwrdd ymgymryd â hyfforddiant neu glywed am arferion da o fewn y sefydliad ac yn allanol. Mae aelodau hefyd yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau eraill ar ran y Bwrdd, fel ymweliadau â gwasanaethau, a chyfarfodydd â phartneriaid lleol.

I gefnogi ei raglen waith flynyddol, cynhaliodd y Bwrdd asesiad o sgiliau i nodi meysydd gwaith ar gyfer y flwyddyn i ddod. Ynghyd â hyn, mae pob aelod yn cwblhau gwerthusiad blynyddol o'u cyfraniad a'u perfformiad unigol fel aelodau o'r Bwrdd, ac yn achos y Cyfarwyddwyr Gweithredol, mae hyn yn wahanol i'w rolau yn gweithredu ac arwain.

❖ Pwyllgorau'r Bwrdd

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu nifer o bwyllgorau, fel y nodir yn y diagram yn **atodiad un**. Mae pob pwyllgor yn cael ei gadeirio gan Aelod Annibynnol ac mae gan bob pwyllgor rôl allweddol mewn perthynas â'r system llywodraethiant a sicrwydd, gwneud penderfyniadau, craffu, asesu risgiau cyfredol a monitro perfformiad. Yn dilyn pob cyfarfod, mae crynodeb o'r drafodaeth yn cael ei rannu â'r Bwrdd yn ei gyfarfod ffurfiol nesaf ac mae'r holl bapurau ar gyfer y sesiynau cyhoeddus o gyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau i'w gweld ar wefan y Bwrdd Iechyd. Mae rhai cyfarfodydd nad ydynt yn cael eu cynnal yn gyhoeddus, naill ai oherwydd natur gyfrinachol y busnes neu am fod yr eitemau'n cael eu datblygu.

Ar 1 Ebrill 2020, cymerodd y Cadeirydd gamau i symleiddio trefniadau'r Bwrdd a'r pwyllgorau i leihau'r pwysau ar y sefydliad oherwydd y pandemig presennol. Yn benodol, roedd hyn yn golygu cyfarfodydd Bwrdd misol na fyddent yn para mwy na thair awr, ynghyd â phwyllgorau archwilio a diogelwch deufisol yn canolbwyntio ar Covid-19 a gwasanaethau hanfodol. Gohiriwyd yr holl bwyllgorau eraill. Yn dilyn hyn, cafwyd arweiniad gan Lywodraeth Cymru ynghylch sut y dylai'r cyfarfodydd hyn weithredu

Dau bwyllgor sicrwydd y mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd eu cael yw'r Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch:

Pwyllgor Archwilio
Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cefnogi'r trefniadau cyffredinol ar gyfer fframwaith sicrwydd y Bwrdd, yn cynnwys datblygu'r datganiad llywodraethu blynyddol, ac mae'n rhoi cyngor a sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd y trefniadau sydd ar waith mewn perthynas â llywodraethu strategol, rheoli risgiau a rheolaethau mewnol. Yn fwy penodol, mae wedi:

- Goruchwylio'r system o reolaethau mewnol;
- Parhau i ganolbwyntio ar wella'r systemau ariannol a'r gweithdrefnau rheoli;
- Goruchwylio'r broses o ddatblygu a gweithredu fframwaith sicrwydd y Bwrdd;
- Monitro trefniadau gwrth-dwyll lleol;
- Ceisio sicrwydd mewn perthynas â'r broses rheoli risgiau;
- Ystyried adolygiadau o reolau sefydlog a chyfarwyddiadau ariannol sefydlog, a'u hargymell i'w cymeradwyo;
- Adolygu canfyddiadau a wnaed yn sgil archwiliadau mewnol ac allanol ac adolygu cynnydd yn erbyn cynlluniau gweithredu cyfatebol;
- Galw ar gyfarwyddwyr gweithredol i roi cyfrif lle y bo hynny'n briodol;
- Trafod ac argymell bod y Bwrdd yn cymeradwyo'r cyfrifon blynyddol archwiliedig, yr adroddiad atebolrwydd, yr adroddiad blynyddol a barn y Pennaeth Archwilio Mewnol;
- Parhau i fonitro'r broses o weithredu'r argymhellion fel y cânt eu nodi yn y rhaglen waith ar gyfer llywodraethiant.

Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch
Y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yw'r brif drefn sicrwydd ar gyfer cyflwyno cyngor amserol ar sail tystiolaeth i'r Bwrdd mewn perthynas ag ansawdd a diogelwch gofal iechyd, yn ogystal â'r trefniadau ar gyfer diogelu a gwella gwella gofal cleifion yn unol â'r safonau a'r gofynion a nodir ar gyfer GIG Cymru. Mae pob cyfarfod yn dechrau gyda stori am glaf ac mae hefyd yn cynnwys diweddariadau gan gyrff rheoleiddio mewnol ac allanol, a lle mae adroddiadau wedi codi pryderon, caiff cynlluniau gweithredu eu monitro gan y pwyllgor.

Yn atodiadau dau i bump, crynhoir dyddiadau'r Bwrdd a'r pwyllgorau, gwybodaeth am yr aelodaeth, presenoldebau a materion allweddol a ystyriwyd.

❖ Grwpiau Cynghori a Chyd-bwyllgorau

Yn ogystal â'i bwyllgorau ar lefel y Bwrdd, mae gan y Bwrdd Iechyd dri grŵp cynghori sy'n adrodd i'r Bwrdd, sef Y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid, Fforwm y Gweithwyr Iechyd Proffesiynol a'r Fforwm Partneriaeth Lleol. Yn ogystal â'r rhain, mae amrywiaeth o fyrddau a grwpiau gyda phartneriaid allanol y mae'r sefydliad yn ymgysylltu â nhw ac yn adrodd amdanynt wrth y Bwrdd.

Byrddau Cynghori

- *Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid*

Mae'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid wedi'i ffurfio o amrywiaeth o sefydliadau partner o bob rhan o gymunedau lleol y Bwrdd Iechyd ac mae'n ymgysylltu â'r cyfeiriad strategol, yn rhoi adborth ar gynigion i wella gwasanaethau ac yn cynghori ar effaith y ffyrdd presennol o weithio ar gymunedau lleol. Ymhlith ei aelodau mae cynrychiolwyr o ystod eang o grwpiau cymunedol, gan gynnwys plant a phobl ifanc, LGBT (lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol), pobl hŷn a lleiafrifoedd ethnig, yn ogystal â chyrff statudol fel yr heddlu, y gwasanaethau tân ac achub ac Asiantaeth yr Amgylchedd. O ganlyniad, mae gan y grŵp gysylltiadau rhagorol â'r cyhoedd yn gyffredinol a gall pob aelod dynnu sylw at faterion a godir gan eu cymunedau penodol. Mae'r grŵp yn darparu adroddiad sy'n crynhoi ei drafodaethau i bob cyfarfod.

- *Fforwm y Gweithwyr Iechyd Proffesiynol*

Mae rôl Fforwm y Gweithwyr Iechyd Proffesiynol yn rhoi cyngor proffesiynol amlddisgyblaethol, cytbwys i'r Bwrdd ar strategaeth leol a darpariaeth leol. Yn ystod 2019-20, ailsefydlwyd Fforwm y Gweithwyr Iechyd Proffesiynol gydag aelodaeth newydd. Mae'r grŵp yn darparu adroddiad sy'n crynhoi ei drafodaethau i bob cyfarfod.

- *Fforwm Partneriaeth Lleol*

Rôl y Fforwm Partneriaeth Lleol yw darparu ffordd y gall y Bwrdd Iechyd fel cyflogwr, a'r cyrff proffesiynol sy'n cynrychioli staff, fel undebau llafur, weithio gyda'i gilydd i wella gwasanaethau iechyd. Mae'n gyfle i ymgysylltu â'n gilydd, i lywio trafodaethau ac i gytuno ar flaenoriaethau lleol ar gyfer y gweithlu yn y gwasanaethau iechyd. Mae Cadeirydd y Fforwm yn amrywio bob yn ail rhwng cynrychiolwyr y Bwrdd Iechyd a chynrychiolwyr y staff. Cyflwynir adroddiad i bob cyfarfod o'r Bwrdd yn crynhoi trafodaethau'r grŵp.

Cyd-bwyllgorau a Phwyllgorau Cymru Gyfan

Mae tri phwyllgor Cymru gyfan sy'n adrodd i bob Bwrdd Iechyd yng Nghymru.

- *Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC)*

Sefydlwyd WHSSC ym 2010 gan y saith Bwrdd Iechyd i sicrhau bod y boblogaeth yn cael mynediad teg a chyfartal i'r ystod lawn o wasanaethau arbenigol. Cynhelir y cyd-bwyllgor gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Cynrychiolir y Bwrdd Iechyd gan y Prif Weithredwr ac mae adroddiadau rheolaidd yn dod i law'r Bwrdd.

- *Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys (EASC)*

Mae EASC yn gyd-bwyllgor o'r saith Bwrdd Iechyd, gyda thair Ymddiriedolaeth y GIG yn aelodau cyswllt, ac fe'i sefydlwyd ym mis Ebrill 2014. Mae'n gyfrifol am gynllunio a chomisiynu gwasanaethau ambiwlans brys ar gyfer Cymru gyfan. Cynhelir y cyd-bwyllgor gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Cynrychiolir y Bwrdd Iechyd gan y Prif Weithredwr ac mae adroddiadau rheolaidd yn dod i law'r Bwrdd.

- *Pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP)*

Sefydlwyd Pwyllgor NWSSP ym 2012 ac fe'i cynhelir gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre. Mae'n gofalu am y swyddogaethau a rennir ar gyfer GIG Cymru, fel caffael, recriwtio a gwasanaethau cyfreithiol. Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol sy'n cynrycholi'r Bwrdd Iechyd ac mae adroddiadau rheolaidd yn cael eu derbyn gan y Bwrdd.

❖ Gweithio mewn Partneriaeth

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio mewn partneriaeth gyda nifer o sefydliadau, yn cynnwys awdurdodau lleol, Prifysgol Abertawe sefydliadau GIG eraill sy'n cynnwys Cydweithfa GIG Cymru, a'r trydydd sector. At hyn, mae ganddo grwpiau gweithredol ar y cyd â byrddau iechyd Caerdydd a'r Fro, Cwm Taf Morgannwg a Hywel Dda.

Strwythur Sefydliadol

Yn ystod 2019-20, roedd pum uned gwasanaeth yn y sefydliad:

- Ysbyty Treforys;
- Ysbyty Singleton;
- Ysbyty Castell-nedd Port Talbot;
- Gwasnaethau Gofal Sylfaenol a Chymunedol;
- Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu.

Mae pob un yn cael ei arwain gan gyfarwyddwr gwasanaeth, a gefnogir gan nyrs uned a chyfarwyddwyr meddygol, ac yn achos gwasanaethau sylfaenol a chymunedol, mae Cyfarwyddwr Deintyddol ar gyfer yr uned hefyd. Mae cyfarwyddiaethau corfforaethol, fel cyllid, llywodraethu, y gweithlu, gwasanaethau digidol a strategaeth/cynllunio hefyd yn chwarae rhan ganolog yn y gwaith o gefnogi'r unedau yn ogystal â'r sefydliad cyfan. Mae pob un o'r elfennau hyn o'r strwythur yn destun adolygiadau perfformiad rheolaidd.

Gan i'r cyfrifoldeb am gomisiynu a chynllunio gwasanaethau ar gyfer poblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr gael ei symud i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ar 1 Ebrill 2019, bu traean o leihad yn y boblogaeth rydym yn ei gwasanaethu, yn ein cyllideb ac yn ein gweithlu. Cytunodd y Bwrdd Iechyd i adolygu strwythurau'r sefydliad newydd, sef Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, er mwyn sicrhau bod ei strwythur a'i ffocws yn briodol a'i fod yn adlewyrchu uchelgais y sefydliad fel yr amlinellir yn ei strategaeth, *Iechyd Gwell, Gofal Gwell, Bywydau Gwell*.

Cytunwyd ar newidiadau i strwythur y sefydliad yn 2019-20 a byddant yn cael eu rhoi ar waith yn 2020-21. Bydd y newidiadau hyn yn golygu y bydd y Bwrdd Iechyd yn symud o bum uned i bedwar grŵp gwasanaeth:

Grŵp 1- Sylfaenol, Cymunedol, a Therapïau
Grŵp 2 - Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu
Grŵp 3 - Singleton a Chastell-nedd Port Talbot
Grŵp 4 - Treforys

Drwy gydol y flwyddyn, bu rhai newidiadau i'r tîm gweithredol, sef ymadawiad Sandra Husbands, Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus a Lynne Hamilton, y Cyfarwyddwr Cyllid; cymerodd Keith Reid a Darren Griffiths eu lle dros dro, yn y drefn honno. Yn dilyn proses recriwtio lwyddiannus, penodwyd Keith Reid yn Gyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus a bydd rôl y Cyfarwyddwr Cyllid yn cael ei hysbysebu yn 2020-21. Yr unig newid arall i'w nodi o fewn y tîm gweithredol yw i bortffolio'r Cyfarwyddwr Therapïau a Gwyddorau Iechyd gael ei ychwanegu at rôl Chris White fel y Prif Swyddog Gweithredu.

Er mwyn sicrhau bod gwasanaethau diogel o ansawdd uchel sy'n addas ar gyfer y dyfodol yn cael eu darparu'n effeithiol, mae portffolio trawsnewid ar waith i ganoli pob gwaith o'r fath, gan symud oddi wrth ddulliau amrywiol o weithio ar draws y sefydliad. Drwy'r rhaglen hon, mae gan y Bwrdd drefn glir ar gyfer goruchwylio'r gwaith o gyflawni'r strategaeth sefydliadol, y cynllun gwasanaethau clinigol a blaenoriaethau allweddol eraill.

System o Reolaeth Fewnol

Bwriad systemau rheoli yw deall a rheoli risgiau i lefel resymol, yn hytrach na dileu pob risg. O ganlyniad, dim ond sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd, yn hytrach na sicrwydd absoliwt, y gallant ei roi. Mae system rheolaeth fewnol y Bwrdd Iechyd yn seiliedig ar broses barhaus er mwyn nodi a blaenoriaethu'r risgiau iddo wrth gyflawni ei bolisïau a'i amcanion; gwerthuso pa mor debygol y mae'r risgiau hynny'n digwydd; a gwerthuso'r effaith effeithlon, effeithiol ac economaidd bosib a geir yn sgil gorfod eu rheoli. Mae hyn wedi bod ar waith ar gyfer 2019-20 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad atebolrwydd a'r cyfrifon blynyddol.

❖ Gallu i Ymdrin â Risg

Mae'r gwaith o ddatblygu a gwreiddio'r broses rheoli risgiau ym mhob rhan o'r sefydliad wedi datblygu yn ystod y flwyddyn. Mae deall risgiau yn llywio blaenoriaethau a chamau gweithredu'r Bwrdd, a'i ddull cyffredinol o'u rheoli, ac yn sicrhau gofal diogel o ansawdd uchel i'r cymunedau lleol yn ogystal ag amgylchedd gwaith diogel ac effeithiol i staff.

Y Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am reoli risg yn gyffredinol, ond y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol sy'n arwain y gwaith. Hyd at 1 Mawrth 2020, roedd hynny mewn partneriaeth â'r Cyfarwyddwr Nyrsio a Phrofiad y Claf. Mae trefniadau ar waith i asesu a rheoli risgiau yn effeithiol ar draws y sefydliad, sy'n cynnwys adolygu a diweddaru cofrestr risgiau'r Bwrdd Iechyd yn barhaus. Mae'r Prif Weithredwr hefyd yn dirprwyo elfennau o reoli risg i uwch reolwyr eraill, ac mae hyn wedi'i nodi yn y fframwaith rheoli risgiau.

❖ Rheoli Risgiau a'r Fframwaith

Mae'r fframwaith rheoli risgiau yn nodi'r ffordd y caiff risgiau eu nodi, eu gwerthuso a'u rheoli. Caiff y gwaith o gyflawni'r fframwaith ei oruchwylio gan y Pwyllgor Archwilio, ac mae gan swyddogion gweithredol ac uwch reolwyr gyfrifoldebau dirprwyedig penodol.

Ceir ymrwymiad ar draws y Bwrdd Iechyd i sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi ac yn hyderus i asesu, rheoli, uwchgyfeirio ac adrodd am risgiau, a chaiff y gwaith ei lywio gan enghreifftiau o arferion gorau drwy archwiliadau mewnol, Swyddfa Archwilio Cymru ac Uned Gyflawni GIG Cymru.

Oherwydd amrywioldeb gwasanaethau gofal iechyd, mae proffil risg y Bwrdd Iechyd yn newid yn barhaus, gyda'r risgiau allweddol yn cael eu sgorio a'u nodi ar y gofrestr risgiau yn seiliedig ar eu gallu i effeithio ar gyflawni'r amcanion. Caiff y gofrestr risgiau ei

diweddaru bob chwarter a'i hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio a'r Bwrdd, gan ei bwydo i'r cynllun blynyddol.

Yng nghyfarfodydd mis Mawrth 2020 yr adolygwyd y gofrestr risgiau gan y Pwyllgor Archwilio a'r Bwrdd ddiwethaf. Fel rhan o'r fframwaith rheoli risgiau, rhoddodd y Bwrdd ystyriaeth i'w brif amcanion, yn strategol ac yn weithredol, a nododd y risgiau oedd yn fwyaf tebygol o atal y rhain rhag cael eu cyflawni. Mae felly'n ymwybodol o risgiau posibl ac, yn sgil hyn, nid adweithio yn unig y byddai'n ei wneud pe bai risg yn digwydd. Wrth benderfynu ar agwedd y Bwrdd tuag at risgiau, mae'n cydnabod na ellir darparu gofal iechyd oni bai bod risgiau'n cael eu cymryd, a bod rhaid hefyd wrth y canlyniadau a'r camau lliniaru sy'n dilyn. Mae hefyd yn sicrhau nad yw risgiau'n cael eu hystyried ar wahân gan eu bod yn cael eu cymryd o'r holl risgiau sy'n codi drwy'r sefydliad cyfan.

Ystyriwyd yr agwedd tuag at risgiau gan y Bwrdd yn flaenorol yn ystod gweithdy rheoli risgiau, ac eto gan y Grŵp Rheoli Risgiau ym mis Mawrth 2019 er mwyn adolygu polisi rheoli risgiau y sefydliad. Roedd y rhai a fu'n bresennol yn cynnwys aelodau annibynnol, archwilwyr mewnol a Swyddfa Archwilio Cymru.

Wrth benderfynu a ddylid goddef risg, mae'r Bwrdd yn ystyried nifer o ffactorau, fel deddfwriaeth, ansawdd a diogelwch, profiad y claf, gofynion comisiynwyr a'r awydd i gael y risgiau hyn. Mae agwedd at risgiau a lefelau goddefiant yn golygu ystyried pa risgiau y mae'r Bwrdd Iechyd yn barod i'w cymryd er mwyn cyflawni ei amcanion. Mae'r polisi rheoli risgiau hwn yn nodi lefelau'r risgiau. O fewn y lefelau hyn, ceir strwythur rheoli sy'n cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau o ran agwedd tuag at risgiau a lefelau goddefiant. Mae risgiau sydd â sgôr o hyd at 15, gan gynnwys risgiau ar y sgôr hwnnw, yn cael eu rheoli. Mae hynny'n cynnwys penderfynu ar yr agwedd tuag atynt a'r lefelau goddefiant o fewn yr unedau. Mae risgiau a raddiwyd ar sgôr o 16 ac yn uwch yn cael eu hystyried ar lefel weithredol o ran yr agwedd tuag atynt ac o ran lefelau goddefiant. Ystyrir pob risg yn unigol er mwyn penderfynu ar ei lefelau o ran agwedd a goddefiant. Mae hefyd yn sicrhau nad yw risgiau'n cael eu hystyried ar wahân i'w gilydd, gan eu bod yn cael eu cymryd o'r holl risgiau sy'n codi drwy'r sefydliad cyfan.

Mae **Atodiad 6** yn nodi prif risgiau'r Bwrdd Iechyd yn ôl eu sgoriau.

Mae pob cyfarwyddwr gweithredol yn gyfrifol am reoli risg o fewn ei faes cyfrifoldeb gan sicrhau bod:

- cyfrifoldebau clir ar gyfer llywodraethu clinigol, corfforaethol a gweithredol yn ogystal ag ar gyfer rheoli risgiau;
- hyfforddiant priodol i staff mewn asesu a rheoli risgiau;
- dulliau wedi'u sefydlu ar gyfer nodi a rheoli risgiau sylweddol drwy adroddiadau rheolaidd, prydlon a chywir i'r Uwch Dîm Arwain, y pwyllgorau a'r Bwrdd;
- systemau ar waith i ddysgu gwersi o unrhyw ddigwyddiadau neu achosion anffodus, a bod camau unioni'n cael eu cymryd lle bo angen;
- prosesau sy'n caniatáu i fanylion am y risgiau allweddol gael eu hadrodd i'r Bwrdd;
- cydymffurfiaeth â pholisïau, deddfwriaeth, rheoliadau a safonau proffesiynol y Bwrdd Iechyd ar gyfer y swyddogaethau.

O fewn yr unedau,Cyfarwyddwyr y Gwasanaethau sy'n rheoli risgiau ac yn sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith i gyflawni hyn. Caiff unrhyw risgiau y tu hwnt i reolaeth yr unedau eu trosglwyddo i'r Prif Swyddog Gweithredu fel yr arweinydd proffesiynol ar gyfer yr unedau, yn ogystal â'u trosglwyddo i'r cyfarwyddwr gweithredol sy'n gyfrifol am yr ardal lle mae'r risg wedi'i nodi.

Mae'n bwysig cyfathrebu ac ymgynghori â rhanddeiliaid a phartneriaid mewnol ac allanol, fel y bo'n briodol, ym mhob cam o'r broses rheoli risgiau ac mewn perthynas â'r broses yn ei chyfanrwydd. Bydd amlder y cyfathrebu'n amrywio gan ddibynnu ar ddifrifoldeb y risg, a chaiff ei drafod a'i gytuno gyda'r rhanddeiliaid a'r partneriaid. Caiff y broses hon ei harwain gan y sawl a enwebwyd fel arweinydd i reoli'r risg. Y cyfarwyddwr gweithredol a benodwyd i arwain y risg fydd yn cyfathrebu â rhanddeiliaid allanol.

Mae'n bwysig cyfathrebu'n effeithiol yn fewnol ac allanol er mwyn sicrhau bod y rhai sy'n gyfrifol am weithredu rheoli risgiau, a'r rhai sydd â rhan yn y mater, yn deall ar ba sail y gwneir penderfyniadau a pham y mae angen camau gweithredu penodol. Bydd y rhanddeiliaid allanol yn amrywio, gan ddibynnu ar natur y risg, a bydd angen i arweinydd y risg ar gyfer yr uned ystyried pa randdeiliaid allanol y bydd naill ai angen eu hysbysu a'u cynnwys, neu eu briffio ar ôl i grwpiau gorchwyl a gorffen/grwpiau trefn reoli aur gweithredol gael eu sefydlu, sef grwpiau a drefnir i oruchwylio'r camau gweithredu a gymerir i leihau'r risg. Bydd pob risg sylweddol yn cael ei hadrodd i Lywodraeth Cymru drwy'r briff wythnosol gan sefydliadau a thrwy gyfarfodydd adolygu perfformiad chwarterol.

❖ Rheoli Risgiau yn ystod Covid-19

Mae'r Bwrdd Iechyd mewn cyfnod digynsail wrth ymateb i Covid-19, ond mae'n parhau'n atebol. Mae'n bwysig, felly, ei fod yn cael ei weld yn gwneud y peth iawn a bod y rhesymeg y tu ôl i benderfyniadau allweddol yn dryloyw.

Ar 13 Mawrth 2020, cyhoeddodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fframwaith o gamau i ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol lleol wneud penderfyniadau o'i fewn er mwyn sicrhau y gellid gwneud paratoadau mewn ffordd gynlluniedig a mesuredig ar gyfer rheoli Covid-19. Roedd hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Gohirio apwyntiadau cleifion allanol nad oeddent yn rhai brys a sicrhau bod apwyntiadau brys yn cael blaenoriaeth;
- Gohirio derbyniadau a llawdriniaethau nad oeddent yn rhai brys (gan sicrhau fod llawdriniaethau brys a llawdriniaethau mewn argyfwng ar gael);
- Blaenoriaethu'r defnydd o'r gwasanaeth cludo cleifion mewn achosion nad ydynt yn rhai brys i ganolbwyntio ar ryddhau o'r ysbyty ac ymateb i argyfyngau ambiwlans;
- Hwyluso'r broses o ryddhau cleifion sy'n agored i niwed o ysbytai aciwt a chymunedol;

Er mwyn galluogi gwasanaethau i baratoi ar gyfer pandemig Covid-19 a delio ag ef, mae pob adolygiad perfformiad ar gyfer y timau gweithredol wedi'i ohirio tan ddiwedd Mehefin 2020 a dim ond cyfarfodydd pwyllgor hanfodol sy'n cael eu cynnal, ond er y

gellir gohirio adrodd am risgiau, mae'r rheolwyr yn dal yn atebol am y gwasanaeth y maent yn ei ddarparu.

Er y cydnabyddir y pwysau sylweddol sydd ar wasanaethau, mae angen ymateb yn gytbwys i risg, gan gydbwyso hyn â'r pwysau a'r heriau presennol y mae'r pandemig yn eu hachosi o ran capasiti, ac â'r gwaith o reoli'r materion a'r risgiau sy'n ymwneud â 'busnes fel arfer'.

Mae'r cyfarwyddwyr gweithredol (swyddogaethau corfforaethol) a'r cyfarwyddwyr gwasanaethau, a gefnogir gan gyfarwyddwyr nyrsio a meddygol yr unedau, yn parhau'n gyfrifol am risgiau nad ydynt ar gofrestr risgiau Covid-19. Mae hunanlywodraethu, tryloywder a rheolaeth o'r risgiau hyn yn hanfodol ar adeg pan fo'r gwaith craffu allanol ar ei lefel isaf, gyda gostyngiad digynsail yng ngweithgarwch Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac archwilwyr mewnol ac allanol.

Bydd angen i reolwyr hefyd benderfynu a oes ganddynt y gallu (a yw'r adnoddau a'r sgiliau ar gael) i weithredu eu camau arfaethedig, a chynnal effeithiolrwydd eu rheolaethau presennol.

I wneud hyn, gofynnodd y Cyfarwyddwr Llywodraethu i'r cyfarwyddwyr gweithredol/cyfarwyddwyr gwasanaethau adolygu eu risgiau gweithredu presennol ar Fodiwl Risgiau Datix (gan ystyried yr effeithiau cadarnhaol/negyddol y gallai Covid-19 fod wedi'u cael arnynt), gan

- Gytuno ar y risgiau sy'n parhau'n flaenoriaeth i'w rheoli a'u lliniaru yn ystod pandemig Covid-19;
- Cytuno ar (archifo) y risgiau nad ydynt yn peri risg sylweddol yn ystod pandemig Covid-19 (fodd bynnag, rhaid iddynt sicrhau bod y rheolaethau sy'n bodoli ar waith a'u bod yn parhau'n effeithiol, neu fel arall gallai'r risgiau gynyddu);
- Ystyried risgiau newydd a risgiau sy'n dod i'r amlwg i'w gwasanaeth o ganlyniad i bandemig Covid-19 (yn cynnwys risgiau posibl wrth ddychwelyd i fusnes arferol)

Ym mis Ebrill 2020, adolygodd y Bwrdd ei agwedd at risgiau a gosododd lefelau newydd sy'n rhoi cyfarwyddyd am y ffiniau risg sy'n dderbyniol a sut y dylid cydbwyso risg a gwobr; mae hefyd yn egluro lefel y risg y mae'r Bwrdd yn barod i'w derbyn. Mae hyn yn golygu bod y Bwrdd bellach yn adolygu unrhyw risgiau sy'n sgorio mwy nag 20, yn hytrach na'r rhai sy'n sgorio mwy na 16.

❖ Prif Risgiau'r Bwrdd Iechyd

Ym mis Mawrth 2020, roedd 35 o risgiau ar gofrestr risgiau'r Bwrdd Iechyd, gyda'r sgoriau'n amrywio o 12 i 25. Y risgiau â'r sgoriau uchaf oedd:

- Mynediad at Ofal Heb ei Drefnu;
- Methu â chyrraedd targedau ar gyfer triniaeth radiotherapi radical;
- Triniaeth Gwrth-ganser Systemig (SACT);
- Rheoli heintiau;
- Gwasanaeth TAVI (mewnblaniad falf aorta drwy gathetr);
- Capasiti'r clinig offthalmoleg;
- Mynediad at wasanaethau gofal wedi'i gynllunio;

- Mynediad at wasanaethau canser;
- Sgrinio ar gyfer asesiad o dwf y ffetws yn unol â GAP-GROW;
- Monitro CTG (cardiotocograffi) mewn wardiau geni;
- Pandemig y Coronafeirws;
- Pobl ifanc yn cael eu derbyn i wardiau iechyd meddwl oedolion;
- Diffoddiadau canolfannau data.

Mae'r camau sy'n cael eu cymryd i reoli'r risgiau hyn wedi'u cynnwys ar gofrestr risgiau'r Bwrdd Iechyd.

❖ Rheoli Risgiau

Er mai'r Pwyllgor Archwilio sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros oruchwylio rheoli risgiau, mae wedi dirprwyo risgiau perthnasol i bob un o is-bwyllgorau eraill y Bwrdd er mwyn sicrhau bod eu rhaglenni gwaith yn cyd-fynd â'r rhain, er mwyn sicrhau eu bod yn adolygu ac yn derbyn adroddiadau ar y cynnydd a wneir i liniaru risgiau allweddol cyn belled ag y bo modd.

Yn 2019-20, rheolwyd nifer o risgiau gan y Bwrdd Iechyd, yn cynnwys:

- *TAVI*

Yn 2017, daeth y Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o amseroedd aros hir ar gyfer llawdriniaethau TAVI. Comisiynwyd adolygiad o'r achosion gan Goleg Brenhinol y Meddygon, ac yn dilyn hynny cafwyd ymweliad â'r safle ynghyd ag adolygiad gan ail garfan, i benderfynu a wnaeth yr amseroedd aros gyfrannu at farwolaethau rhai o'r cleifion a oedd ar y rhestr aros. Derbyniwyd y canfyddiadau yn chwarter olaf y flwyddyn a datblygwyd cynllun gweithredu a chynllun cyfathrebu cynhwysfawr wrth gyhoeddi'r adroddiadau yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd ym mis Mawrth 2020. Cyn hyn, darparwyd diweddariadau rheolaidd i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ac i'r Bwrdd am y gwelliannau a wnaed.

- *Offthalmoleg*

Ym mis Medi 2019, nododd y Bwrdd Iechyd fod ganddo nifer fawr o gleifion (dros 10,000) a oedd y tu hwnt i'w dyddiad targed ar gyfer aros am apwyntiadau dilynol ym maes offthalmoleg, a oedd yn broblem gyffredin ledled Cymru. Roedd angen ymateb cadarn ar unwaith, wedi'i arwain ar lefel weithredol, er mwyn lleihau'r perygl o niwed i gleifion, ynghyd â'r niwed ariannol a'r niwed i enw da'r Bwrdd. Sefydlwyd trefn reoli aur ar gyfer offthalmoleg er mwyn cydgysylltu a hwyluso'r gwaith o lunio cynlluniau gweithredu i liniaru risgiau ac o fonitro'r broses o leihau risgiau. Cyflwynir adroddiadau rheolaidd am hyn i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch.

- *Coronafeirws*

Y risg fwyaf y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei hwynebu ar hyn o bryd yw pandemig Covid-19, a ddechreuodd effeithio ar allu'r sefydliad i weithredu 'busnes fel arfer'. Sefydlwyd strwythur trefn reoli aur yn gyflym i reoli ymateb y Bwrdd Iechyd a rhoddwyd y gorau i'r holl wasanaethau nad ydynt yn rhai brys, fel cleifion allanol a llawdriniaethau dewisol. Cafodd y pandemig effaith sylweddol ar allu'r Bwrdd Iechyd i weithredu 'fel arfer' ac adlewyrchir hyn yn y data perfformiad ar gyfer chwarter olaf y flwyddyn. Wrth i'r flwyddyn ariannol newydd ddechrau, mae'r risg yn parhau o hyd a bydd y sefydliad wedi'i newid yn sylweddol yn yr adroddiadau blynyddol ar gyfer 2020-21.

❖ Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI)

Nid oedd yn bosib i'r sefydliad gyflwyno CTCI ym 2019-20, ond fe wnaeth gyflwyno cynllun blynyddol drafft i'r Bwrdd ym mis Ionawr 2019, a gafodd ei gymeradwyo cyn cael ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru, ond heb gynllun ariannol oherwydd yr ansicrwydd ynghylch newid ffin Pen-y-bont ar Ogwr. Er bod hyn wedi'i ddatrys erbyn hydref 2019, diwygiwyd y rhagamcanion ar gyfer gofal wedi'i gynllunio ac ar gyfer gofal heb ei drefnu oherwydd pwysau amrywiol a brofwyd yn ystod y flwyddyn. Felly, ymrwymodd y Bwrdd i ddiwygio'r rhagamcanion ar gyfer gofal heb ei drefnu a gofal wedi'i gynllunio ym mis Hydref 2019. Derbyniodd yr angen i newid ei ragolygon ariannol i ddiffyg o £12.3m ym mis Tachwedd 2019 ac yna i £16.3m ym mis Chwefror 2020. Mae adroddiad chwarterol sy'n nodi'r cynnydd yn erbyn y cynllun blynyddol yn cael ei drafod gan y Pwyllgor Perfformiad a Chyllid cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Ar 18 Mawrth 2020, derbyniodd y Bwrdd Iechyd lythyr gan Lywodraeth Cymru yn cadarnhau bod proses y CTCI/cynllun blynyddol yn cael ei ohirio er mwyn galluogi sefydliadau GIG Cymru i ganolbwyntio ar y camau sydd angen eu cymryd ar unwaith mewn ymateb i bandemig Covid-19.

- **Asesiad yn erbyn adran 175 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014**

O dan y Ddeddf, mae dau ofyniad ar gyfer y Bwrdd Iechyd:

- sicrhau nad yw'r gwariant yn fwy na chyfanswm y cyllid a ddyrannwyd iddo dros gyfnod o dair blynedd ariannol;
- paratoi cynllun sy'n nodi'r strategaeth ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â'i ddyletswydd wrth wella gofal iechyd, a hwnnw'n gynllun a gyflwynir i Lywodraeth Cymru ac a gymeradwyir ganddi.

Ar gyfer 2019-20, er bod y Bwrdd Iechyd wedi cyflawni ei ddyletswydd ariannol i fantoli'r gyllideb yn erbyn y terfyn adnoddau cyfalaf, methodd â bodloni'r gofyniad cyntaf gan nad oedd yn cyflawni balans ariannol, fel y nodir isod. Yn ogystal â hyn, gan nad oedd ganddo gynllun tair blynedd a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru, methodd hefyd â bodloni'r ail ofyniad.

	2017-18	2018-19	2019-20	**Cyfanswm**
	£'000	£'000	£'000	£'000
Costau gweithredu net ar gyfer y flwyddyn	1,129,492	1,143,379	930,886	**3,203,757**
Namyn y gwariant ar gyfer gwasanaethau offthalmig cyffredinol a gwariant arall heb derfyn arian parod	726	1,484	993	**3,203**
Namyn y refeniw yn sgil cynnwys cynlluniau Menter Cyllid Preifat (PFI) yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol	(1,551)	(1,684)	(1,925)	**(5,160)**
Cyfanswm	1,128,667	1,143,179	929,954	**3,201,800**
Dyraniad Adnoddau Refeniw	1,096,250	1,133,300	913,670	**3,143,220**

Tanwariant / Gwariant (gorwariant) yn erbyn y Dyraniad	(32,417)	(9,879)	(16,284)	**(58,580)**

❖ Datblygu Cynllun Blynyddol 2020-21

Y bwriad ar gyfer 2019-20 oedd datblygu CTCI cymeradwy ar gyfer 2020-23, a rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd am y gwaith hwn drwy gydol y flwyddyn, gan fod hyn yn cael ei ystyried yn rhywbeth a allai gynorthwyo'r Bwrdd Iechyd i wella ei statws dwysáu. Mewn cyfarfod gyda Llywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2020, er i'r adborth ar y gwaith tan hynny fod yn gadarnhaol, nodwyd bod disgwyl cynllun un flwyddyn manwl o fewn cynllun tair blynedd, i'w gyflwyno erbyn diwedd Mawrth 2020. Craffodd y Pwyllgor Perfformiad a Chyllid ar y cynlluniau cyfalaf, perfformiad ac ariannol ym mis Chwefror, a theimlwyd bod gwaith sylweddol i'w wneud o hyd, yn enwedig o ran y cynllun ariannol. O'r herwydd, trefnwyd cyfarfod Bwrdd arbennig ar gyfer dechrau Mawrth 2020, er mwyn gallu ystyried y diwygiadau cyn gofyn i'r aelodau gytuno ar y cynllun yng nghyfarfod arferol y Bwrdd ym Mawrth 2020. Fodd bynnag, oherwydd y sefyllfa a oedd yn datblygu ar y pryd o ran Covid-19, penderfynwyd cyflwyno'r cynllun i Lywodraeth Cymru ar yr un pryd ag yr oedd yn cael ei rannu â'r Bwrdd fel dogfen pwynt mewn amser.

DATGELIADAU GORFODOL

❖ Cod Llywodraethiant Corfforaethol



Yn y GIG yng Nghymru, diffinnir llywodraethu fel 'system o atebolrwydd i ddinasyddion, defnyddwyr gwasanaethau, rhanddeiliaid a'r gymuned ehangach, lle mae sefydliadau gofal iechyd yn gweithio, yn gwneud penderfyniadau ac yn arwain eu pobl i gyflawni eu hamcanion". Mae hyn yn sicrhau bod cyrff y GIG yn gwneud y pethau cywir, yn y ffordd gywir, ar gyfer y bobl gywir, mewn ffordd sy'n cynnal y gwerthoedd a osodir ar gyfer y sector cyhoeddus.

Cynhaliwyd asesiad o gydymffurfiaeth â'r Cod ym mis Ebrill 2020 ac adroddwyd y canlyniadau i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Mai 2020. Ni chanfuwyd unrhyw wyro oddi wrth y Cod, er y nodwyd bod yr adolygiad o effeithiolrwydd y Bwrdd, sy'n ystyried hunanasesiadau gan unedau yn erbyn y safonau iechyd a gofal, wedi'i ohirio oherwydd pandemig Covid-19.

Caiff achosion o dorri rheolau sefydlog eu hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio. Trafodwyd un ym mis Gorffennaf 2019, yn ymwneud ag adnewyddu ward 12 yn Ysbyty Singleton yn dilyn tân. Trefnwyd bod contractwr adeiladu'n ymgymryd â'r gwaith adnewyddu a chwblhawyd ffurflen tendr sengl ôl-weithredol ar gyfer £310,786.67, heb gynnwys TAW

(treth ar werth), fis ar ôl i'r gwaith ddechrau. Er bod rhesymau clir dros yr angen i ddechrau ar y gwaith cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau y gellid parhau â'r gwasanaeth, nid oedd y camau gweithredu'n bodloni gofynion y rheoliadau ar gyfer contractau cyhoeddus nac yn bodloni cyfarwyddiadau ariannol sefydlog y Bwrdd Iechyd, gan nad yw cyfyngiadau amser yn rheswm y gellir ei gyfiawnhau ar gyfer rhoi tendr sengl. Er na ellid cymryd unrhyw gamau adferol, cytunwyd y byddai materion caffael yn cael eu hystyried yn gynt yn y broses yn y dyfodol er mwyn cael strategaeth a fyddai'n hyfyw ac yn cydymffurfio â'r rheoliadau.

Yn ogystal â hyn, mae'r methiant i gyflawni'r ddwy ddyletswydd ariannol, fel a drafodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, hefyd yn torri'r rheolau sefydlog a'r cyfarwyddiadau ariannol sefydlog.

❖ Safonau Iechyd a Gofal

Daeth y safonau presennol i fodolaeth ym mis Ebrill 2015 ac maent yn ffurfio fframwaith safonau cyffredin Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo GIG Cymru a sefydliadau partner i ddarparu gwasanaethau gofal iechyd effeithiol ac amserol o ansawdd. Mae ei fframwaith yn cynnwys y 'Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru (2010)' a'r 'Safonau Hanfodion Gofal (2003)'. Maent yn rhoi'r claf wrth wraidd y cyfan, gan bwysleisio pwysigrwydd arweinyddiaeth, llywodraethu ac atebolrwydd cryf.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe wedi gwneud y safonau'n rhan gwbl annatod o'i brosesau ar gyfer llywodraethu ansawdd a diogelwch, er mwyn helpu i sicrhau ein bod yn cyflawni ein nodau a'n hamcanion ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd diogel o ansawdd uchel.Gwnawn hyn drwy lywodraethu rheolaidd a thrwy hunanasesu yn erbyn y safonau ar draws yr holl weithgareddau, gyda chyfarwyddwyr gwasanaethau, cyfarwyddwyr meddygol unedau a chyfarwyddwyr nyrsio unedau yn gyfrifol ar y cyd am sefydlu a monitro'r safonau o fewn eu meysydd. At hynny, drwy adrodd ar y safonau drwy'r grwpiau a'r pwyllgorau llywodraethu, sicrheir yr ymgorfforir ac y gweithredir ar y risgiau sydd wedi eu cofrestru.

Ym mis Hydref 2019, cyflwynwyd grŵp safonau iechyd a gofal i reoli a goruchwylio'r broses hunanasesu.Yn ogystal â hyn, sefydlwyd paneli craffu bach i oruchwylio'r cyflwyniadau a dderbyniwyd gan unedau cyflawni gwasanaethau, yn barod ar gyfer yr adroddiad hunanasesu blynyddol ddiwedd y flwyddyn, a gyflwynir i'r Bwrdd ac i'r Pwyllgor Ansawdd a diogelwch er mwyn iddynt ei gymeradwyo. Mae aelodau'r panel craffu yn cynnwys cynrychiolwyr o'r gweithlu, iechyd a diogelwch, Iechyd Cyhoeddus, rheoli heintiau a pherfformiad.

❖ Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i drin pawb yn deg ac nid yw'n goddef gwahaniaethu ar sail oedran, anabledd, hunaniaeth o ran rhywedd, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd neu famolaeth, hil neu genedligrwydd, crefydd neu gredo, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol. I gefnogi hyn, pennwyd amcanion cydraddoldeb fel rhan o gynllun cydraddoldeb strategol 2017-20, sy'n nodi'r camau gweithredu a fydd yn sbarduno cynnydd o ran cyflawni'r rhain. Rhoddir diweddariad blynyddol ar gynnydd i Bwyllgor y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol a gytunodd, ym mis Chwefror 2020, ar y cynllun cydraddoldeb strategol ar gyfer 2020-24. Mae enghreifftiau o uchafbwyntiau allweddol mewn perthynas â chydraddoldeb ar gyfer 2019-20 yn cynnwys:

- Enwebwyd tair nyrs am wobr newydd fel rhan o'r Gwobrau Anableddau Dysgu ac Awtistiaeth, sef y wobr am Nyrs Anableddau Dysgu, ac fe'i henillwyd gan un ohonynt, sef Denise Bromfield;
- Bu Sefydliad Ffrwythlondeb Cymru yn gweithio gyda staff Pride Cymru i godi ymwybyddiaeth o wasanaethau IVF i'r gymuned LGBT+ (lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsrywiol);
- Bu therapydd lleferydd ac iaith, Rhian Grounds, yn gweithio gyda mam i ysgrifennu llyfr yn seiliedig ar eu profiadau yn cyfathrebu â phlant ag awtistiaeth;
- Gweithiodd staff o'r maes iechyd meddwl ac anableddau dysgu gyda'i gilydd i hyrwyddo Diwrnod Atal Hunanladdiad y Byd;
- Mae rhwydwaith yr hyrwyddwyr lles wedi'i ddatblygu a'i ehangu, gyda thros 340 o aelodau o staff wedi'u hyfforddi;
- Rhoddwyd gweithdai 'Menopos a Meddylgarwch' ar waith;
- Mae'r gwaith yn parhau i ymwreiddio'r rhaglen 'Byw ein Gwerthoedd';
- Dringwyd pedair gradd ym Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall, gan godi i 150.

❖ Parodrwydd am Argyfyngau, Argyfyngau Sifi Posibl, ac Adfer yn Sgil Trychinebau

Rhaid i'r Bwrdd Iechyd allu ymateb i ddigwyddiadau o unrhyw faint, mewn ffordd sy'n darparu'r gofal a'r cymorth gorau posibl i'r rhai yr effeithir arnynt, yn lleihau effaith y tarfu ac sy'n dychwelyd mewn ffordd amserol i 'fusnes fel arfer'. Fel rhan o'r Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl (2004), mae'n ofynnol i'r sefydliad ddangos ei fod yn gallu delio â digwyddiadau o'r fath gan barhau ar yr un pryd â'i wasanaethau hanfodol, ac mae'n ymatebydd Categori Un fel y'i diffinnir yn y Ddeddf, sy'n golygu ei fod yn atebol am chwe dyletswydd amddiffyn sifil, yn cynnwys asesu risg a chynllunio brys.

Ceir cofrestr risg benodol ar gyfer parodrwydd, gwrthsefyll ac ymateb mewn argyfwng (EPRR), sy'n cyd-fynd â'r gofrestr genedlaethol a rhanbarthol, a chaiff ei hadolygu'n chwarterol. Mae'n cynnwys yr holl sgoriau a'r camau lliniaru angenrheidiol i naill ai reoli neu oddef y risgiau a nodir, a cheir strategaeth EPRR, strategaeth hyfforddi ac ymarfer EPRR a rhaglen EPRR. Mae'r holl waith cysylltiedig yn cael ei oruchwylio gan grŵp strategaeth EPRR sy'n cynnwys cynrychiolaeth o bob uned, y gwasanaethau iechyd ar draws y Bwrdd a'r adrannau corfforaethol. Seilir rhaglen waith EPRR a'r trefniadau cynllunio at argyfyngau EPRR ar y chwe dyletswydd sifil, ac fe'u seilir hefyd ar gofrestr o wersi a nodwyd gan y Bwrdd Iechyd. Yn hyn o beth, mae amrywiaeth o gynlluniau ymateb yn eu lle ar gyfer y risgiau uchel, sy'n ymgorffori gwersi priodol a nodwyd i sicrhau y gellir gwrthsefyll argyfyngau i'r graddau mwyaf posibl. Ymgysylltir yn llawn â'r Fforwm Cydnerthedd Lleol lle ceir ymatebwyr yng nghategori un a dau. Yn ogystal â hyn, ymgysylltir yn llawn â gwaith cynllunio Llywodraeth Cymru ar gyfer argyfyngau iechyd, lle ceir tri grŵp gwahanol, sef anafusion ar raddfa fawr; cyn mynd i'r ysbyty; hyfforddi ac ymarfer. Caiff y rhain eu goruchwylio gan y Grŵp Cynghori ar Gynllunio Brys. Yn ogystal â hyn, mae'r Bwrdd Iechyd yn cydweithio â grwpiau lleol a chenedlaethol priodol eraill, ac yn arbennig ceir cydweithio rhagorol â byrddau iechyd eraill, Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST), Gwasanaeth Gwaed Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae gan y Bwrdd Iechyd gynrychiolaeth hefyd ar y Grŵp Cyflenwi Paratoi Gwrthderfysgaeth Cymru er mwyn bod yn barod ar gyfer bygythiadau posibl yn ogystal ag er mwyn darparu cyfleuster ar gyfer nodi peryglon. Darperir diweddariadau blynyddol i'r Bwrdd ac mae'r tîm gweithredol yn cael y wybodaeth ddiweddaraf bob chwarter, neu weithiau'n gynt os oes angen hynny.

Yn ystod y misoedd diwethaf mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd rhan lawn yn y paratoadau ar gyfer Brexit. Mae'n cymryd rhan lawn ar hyn o bryd hefyd yn y trefniadau paratoi ar gyfer yr argyfwng cynyddol sy'n gysylltiedig â Choronafeirws Wuhan, gan i hyn gael ei ddatgan yn argyfwng byd-eang. O ganlyniad, mae strwythurau gorchymyn, rheoli a chydgysylltu llawn ar waith yn unol â chynllun pandemig y Bwrdd Iechyd; cydweithir yn agos hefyd â phartneriaid eraill er mwyn sicrhau bod y Bwrdd Iechyd mor barod â phosibl i ymateb i'r canlyniadau sy'n deillio o'r clefyd hwn, sef clefyd ac iddo ganlyniadau pellgyrhaeddol.

Yn ystod Rhagfyr 2019, cyhoeddodd y Bwrdd Iechyd ddigwyddiad mawr yn sgil bws yn taro yn erbyn pont reilffordd. Cafodd y weithdrefn ar gyfer digwyddiadau mawr ei dilyn yn llwyddiannus er mwyn ymateb i'r ddamwain. Bu digwyddiadau yn ystod 2019 a mis Ionawr 2020 hefyd pan oedd angen dilyn gweithdrefn parhad busnes y Bwrdd Iechyd er mwyn ymateb yn ddiogel ac yn effeithiol iddynt. Yn unol â'r arfer, cynhaliwyd ôl-drafodaeth ac mae adroddiad ar y gweill ar hyn o bryd. Bydd y gwersi a ddysgwyd yn cael eu hychwanegu at y gofrestr o wersi a nodwyd. Byddant yn helpu i hysbysu gweithdrefnau ymateb brys y Bwrdd Iechyd ac o ganlyniad yn gwella cydnerthedd.

❖ Diogelwch Data

Caiff llywodraethu gwybodaeth ei reoli'n gadarn o fewn y Bwrdd Iechyd ac mae'r fframwaith yn cynnwys y canlynol:

- Grŵp llywodraethu gwybodaeth sydd â'r rôl o gefnogi a llywio agenda'r Bwrdd a rhoi sicrwydd i'r Bwrdd Iechyd bod dulliau effeithiol o lywodraethu gwybodaeth yn cael eu sefydlu;
- Gwarcheidwad Caldicott sy'n gyfrifol am ddiogelu gwybodaeth am gleifion;
- Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO) sy'n gyfrifol am reoli risgiau'n ymwneud â gwybodaeth o safbwynt corfforaethol;
- Swyddog Diogelu Data sy'n gyfrifol am sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth diogelu data;
- Arweinwyr grwpiau llywodraethu gwybodaeth o fewn pob uned ac adran gorfforaethol, sy'n gyfrifol am fod yn hyrwyddwyr o fewn eu meysydd.

Gweithredodd y Bwrdd Iechyd gynllun gwaith pwrpasol i alluogi'r sefydliad i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth newydd ar ddiogelu data a ddaeth i rym ym mis Mai 2018. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i wella ei gydymffurfiad â diogelu data drwy nifer o fesurau, ac mae'r canlynol yn dystiolaeth o'r sicrwydd bod gan y sefydliad arferion llywodraethu gwybodaeth sy'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth:

- Adroddiadau chwarterol i'r grŵp llywodraethu gwybodaeth, yn cynnwys dangosyddion perfformiad allweddol;
- Cynllun gwaith strategol gweithredol manwl, sy'n mynd gerbron y grŵp llywodraethu gwybodaeth bob chwarter. Mae'n manylu ar y cynnydd a wneir yn

erbyn y camau gweithredu sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r ddeddfwriaeth diogelu data;
- Cyfres o bolisïau, gweithdrefnau a dogfennau cyfarwyddyd ar gyfer llywodraethu gwybodaeth a diogelwch gwybodaeth;
- Safle mewnrwyd sydd wedi ei chymeradwyo gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO);
- Rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant gorfodol bob dwy flynedd i bob aelod o staff, sy'n cynnwys targedu, mewn ffordd ragweithiol, unrhyw staff nad ydynt yn cydymffurfio;
- Rhaglen archwilio ragweithiol ar draws y Bwrdd Iechyd;
- Rheoli, mewn ffordd gadarn, bob achos a gofnodwyd o dorri rheoliadau, yn cynnwys adrodd yn rhagweithiol i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth;
- Defnyddio cofrestr o asedau gwybodaeth i reoli gwybodaeth ar draws y Bwrdd Iechyd;
- Mae cofrestri o gytundebau rhannu data a chofrestri o'r asesiadau o effeithiau diogelu data yn cael eu rhoi i'r grŵp llywodraethu gwybodaeth bob chwarter;
- Mae adroddiad o'r risgiau a nodir ac a reolir ar draws y Bwrdd Iechyd yn cael ei roi i'r grŵp llywodraethu gwybodaeth bob chwarter;
- Adroddiadau archwilio gan Swyddfa Archwilio Cymru ac yn sgil archwilio mewnol;
- Adroddiad yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO);
- Adroddiad sicrwydd Cadeirydd y Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth yn cael ei roi i'r Pwyllgor Archwilio a'r Tîm Gweithredol yn dilyn pob cyfarfod.

O dan y ddeddfwriaeth newydd ar ddiogelu data, rhaid rhoi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am yr achosion hynny o fethu â chyrraedd y sgôr y cytunwyd arni ar gyfer y trothwy. Adolygir pob digwyddiad llywodraethu gwybodaeth gan y grŵp llywodraethu gwybodaeth, ac yn ystod y flwyddyn, roedd angen adrodd am saith yn ymwneud â diogelwch data.Ymchwiliwyd yn fewnol i'r holl achosion yn ymwneud â llywodraethu gwybodaeth, p'un ai oedd angen adrodd amdanynt i Swyddfa'r Comisynydd Gwybodaeth neu beidio. Pan oedd yr achosion yn cyrraedd y trothwy ar gyfer adrodd amdanynt, cefnogwyd a chydweithredwyd â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth er mwyn darparu gwybodaeth ar gyfer eu hymchwiliadau.

O'r saith digwyddiad a adroddwyd, mae chwech wedi'u cau gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Ni chredwyd bod angen cymryd unrhyw gamau pellach, ond gwnaed argymhellion sydd wedi'u gweithredu gan y Bwrdd Iechyd.

Crynodeb o'r Achosion	Camau a gymerwyd	Statws Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Anfonwyd holiadur sgrinio iechyd cleifion, a oedd yn cynnwys gwybodaeth feddygol, i'r cyfeiriad anghywir	• Ymddiheurwyd • Adolygiad o'r prosesau gweinyddol er mwyn osgoi gwneud hyn eto	Caewyd yr achos

	• Ystyriwyd anghenion hyfforddi ar gyfer llywodraethu gwybodaeth • Cynhaliwyd archwiliad llywodraethu gwybodaeth	
Datgelu gwybodaeth am glaf a oedd yn mynychu clinig	• Ymddiheurwyd • Dechreuwyd ar broses ddisgyblu, ond gadawodd yr aelod o staff y Bwrdd Iechyd ac felly ni chwblhawyd hyn • Cynhaliwyd archwiliad llywodraethu gwybodaeth	Caewyd yr achos
Anfonwyd llythyr i'r cyfeiriad anghywir am i'r rhif anghywir gael ei deipio ar gyfer y tŷ. Roedd y llythyr yn cynnwys gwybodaeth sensitif am blentyn yn mynychu'r ganolfan i blant.	• Ymddiheurwyd • Gofynnwyd i'r llythyr gael ei ddychwelyd er mwyn cael gwared arno • Adolygiad o'r prosesau gweinyddol er mwyn osgoi gwneud hyn eto • Ystyriwyd anghenion hyfforddi ar gyfer llywodraethu gwybodaeth • Adroddwyd ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg; Caewyd y ddau adroddiad gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth	Caewyd yr achos
Cyfeiriad diogel wedi'i ddatgelu'n ddamweiniol i dad trwy lythyr. Barnwyd yn ddiweddarach fod y cyfeiriad gwirioneddol yn anghywir, ond oherwydd bod y cod post yn yr un ardal, roedd risg bosib o hyd y gallai hyn gael effaith.	• Ymddiheurwyd • Adolygiad o'r prosesau gweinyddol er mwyn osgoi gwneud hyn eto • Ystyriwyd anghenion hyfforddi ar gyfer llywodraethu gwybodaeth • Cynhaliwyd archwiliad llywodraethu gwybodaeth	Caewyd yr achos
Honnwyd bod mynediad amhriodol at gofnodion ac	• Cynhaliwyd proses ddisgyblu.	Anfonwyd gwybodaeth bellach i Swyddfa'r

iddynt gael eu datgelu'n amhriodol yn dilyn hynny. Dechreuwyd ar broses ddisgyblu.	• Ystyriwyd anghenion hyfforddi ar gyfer llywodraethu gwybodaeth • Cynhaliwyd archwiliad llywodraethu gwybodaeth	Comisiynydd Gwybodaeth; mae'r achos yn parhau ar agor
Credwyd i fag meddyg gael ei ddwyn o swyddfa cofrestrydd. Roedd y bag yn cynnwys rhestri o gleifion a llythyrau atgyfeirio. Yn ddiweddarach, cafodd y bag ei ddarganfod mewn swyddfa ar y safle gyda'r cynnwys ynddo o hyd - yn sgil hyn tynnwyd yr hysbysiad yn ôl.	• Nid oedd hwn yn achos gwirioneddol am i'r bag a'i holl gynnwys gael eu darganfod • Ystyriwyd anghenion hyfforddi ar gyfer llywodraethu gwybodaeth • Cynhaliwyd archwiliad llywodraethu gwybodaeth	Caewyd yr achos (tynnwyd yr hysbysiad yn ôl)
Cafodd dogfennau amddiffyn cyfreithiol a oedd yn ymwneud â chais clinigol eu dwyn o gar bargyfreithiwr a oedd yn gweithio ar ran y Bwrdd Iechyd.	• Rhoddwyd gwybod i'r heddlu am y lladrad - roedd y bag wedi'i gadw dan glo ac allan o'r golwg yng nghist y car, a'r car wedi'i barcio yn un o ardaloedd parcio cydnabyddedig y Cyngor. • Adolygwyd y contractau	Caewyd yr achos

❖ Cyfarwyddiadau Gweinidogol

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi offerynnau anstatudol a chylchlythyrau iechyd Cymru (WHC) ers 2014-15, a gellir gweld rhestr o'r cyfarwyddiadau gweinidogol a ddosbarthwyd ar gyfer 2019-20 ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae'r holl gyfarwyddiadau perthnasol wedi'u hystyried yn llawn a'u gweithredu'n briodol, gyda chylchlythyron Iechyd Cymru wedi'u cofnodi'n gorfforaethol ac arweinydd gweithredol wedi'i neilltuo, ac maent hefyd wedi'u hadrodd i'r Bwrdd. Y rhai a oedd yn cyfeirio'n benodol at lywodraethu'r sefydliad oedd:

Cyfarwyddyd Gweinidogol/Dyddiad Cydymffurfio	**Blwyddyn Mabwysiadu**	**Camau i ddangos gweithredu/ymateb**
Cylchlythyr Iechyd Cymru 2019 (027) Rheolau Sefydlog Enghreifftiol, Cadw a Dirprwyo Pwerau	2019	Rheolau sefydlog wedi'u diwygio a'u cymeradwyo gan y Bwrdd
Cyfarwyddyd gweinidogol y cyfeiriwyd ato mewn llythyr gan Dr	2019	Yn dilyn y llythyr at y Cyfarwyddwr

Andrew Goodall ar 19 Rhagfyr 2019 Camau gweithredu ar effeithiau treth bensiwn 2019-20	Cyffredinol ar 19 Rhagfyr 2019, rhoddwyd gwybod i holl staff meddygol y byrddau iechyd am sefyllfa Cymru gyfan o ran pensiynau ac am y goblygiadau parhaus o ran treth, a dosbarthwyd y manylion i'r holl staff yr effeithiwyd arnynt. Anfonodd y Cyfarwyddwr Meddygol ohebiaeth at yr holl staff meddygol, a chefnogwyd hyn drwy gynnal trafodaethau manwl drwy'r pwyllgor negodi lleol a chynrychiolwyr lleol Cymdeithas Feddygol Prydain.

❖ Yr Iaith Gymraeg

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal yn y gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd a sefydliadau eraill, o fewn GIG Cymru ac yn allanol, ac mae hyn yn unol â'r Cynllun Iaith yn ogystal â deddfwriaeth statudol, sy'n cynnwys Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) a gymeradwywyd ym mis Mawrth 2018 ac a ddisodlodd y cynlluniau presennol. Cydnabyddir bod gofal a iaith yn mynd law yn llaw, gyda llawer o bobl ond yn gallu cyfathrebu a chymryd rhan yn eu gofal drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ailgyflwynwyd Grŵp Cyflawni ar gyfer y Gymraeg ar 14 Mai 2019, gyda'r bwriad o gefnogi'r Bwrdd i gyflawni ei gyfrifoldebau cydymffurfio ar draws y sefydliad mewn perthynas â safonau statudol y Gymraeg, a chan hefyd arwain a monitro cyflawniadau mewn perthynas â darparu gwasanaethau dwyieithog a'r cynllun gwella ategol, gyda'r nod o wella profiad defnyddwyr gwasanaethau. Bydd hyn yn cael ei wneud drwy lywio ei agenda, penderfynu ar ei flaenoriaethau a chyflawni tasgau a dyletswyddau yn unol â'r cylch busnes y cytunwyd arno.

Mae'r cynnydd o ran darparu'r Gymraeg a'i gwneud yn rhan annatod o'r sefydliad yn cynnwys:

- Gwefan gwbl ddwyieithog;
- Cyflwynwyd protocol ar gyfer cyhoeddi deunyddiau yn y Gymraeg er mwyn cefnogi staff i gydymffurfio â'r gofynion ar gyfer cyhoeddi dogfennau dwyieithog;

- Mae'r cyfrifon ar y cyfryngau cymdeithasol yn ddwyieithog a rhoddir canllawiau am ofynion y safonau i'r staff sy'n gyfrifol am y cyfrifon hyn;
- Mae gwasanaeth atgoffa dwyieithog ar gyfer apwyntiadau clinigol drwy negeseuon testun wedi'i lansio fesul cam ar draws pob un o'r prif arbenigeddau. Neges ddwyieithog yw'r neges destun gyntaf a anfonir, ac o hynny ymlaen gall y claf nodi a yw'n dymuno derbyn rhagor o negeseuon yn naill ai'r Gymraeg neu yn Saesneg;
- Mae'r holl lythyron ar gyfer cleifion ar gael yn ddwyieithog; mae'r rhain yn cynnwys cydnabod atgyfeiriadau, a chadarnhau apwyntiadau ar gyfer achosion dydd, cleifion mewnol a cheifion allanol;
- Ymgyrch gyfathrebu a marchnata ragweithiol i hyrwyddo'r Gymraeg ar draws y sefydliad a dosbarthu deunyddiau marchnata Cymraeg i'r staff, e.e. posteri, matiau llygoden mewn amrywiol ddigwyddiadau.

Y Bwrdd Iechyd sydd â'r lefel gofnodi isaf ar gyfer sgiliau Cymraeg staff ar draws GIG Cymru, sy'n destun pryder a amlygwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg. Mae'r unedau'n gweithio i nodi sgiliau Cymraeg staff, staff sy'n barod i gael eu cydnabod fel siaradwyr Cymraeg er mwyn ymgysylltu â chleifion, yn ogystal â staff sydd â diddordeb mewn dysgu Cymraeg neu gryfhau eu sgiliau Cymraeg presennol; er enghraifft, meithrin hyder staff sy'n medru'r Gymraeg ond sy'n gyndyn i siarad Cymraeg yn y gweithle.

Adolygu Effeithiolrwydd

Fel swyddog atebol, rwyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol. Caiff hyn ei lywio gan waith archwilwyr mewnol a chyfarwyddwyr gweithredol sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli mewnol a'r sylwadau a wneir gan archwilwyr allanol. Parhawyd â gwaith i wella'r wybodaeth am berfformiad a ddarperir i'r Bwrdd a'i bwyllgorau fel y gall fod yn sicr ei bod yn gywir ac yn ddibynadwy, yn ogystal â sicrhau y caiff amcanion sefydliadol eu cyflawni. Fel rhan o weithredu fframwaith sicrwydd y Bwrdd, mae gan bwyllgorau bellach gyfrifoldebau dirprwyedig i fonitro datblygiadau yn eu meysydd, gan fod y Bwrdd yn atebol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion y sefydliad, yn bennaf drwy'r pwyllgorau Archwilio ac Ansawdd a Diogelwch.

❖ Archwilio Mewnol

Mae archwiliadau mewnol yn rhoi i mi, fel swyddog atebol, ac i'r Bwrdd drwy'r Pwyllgor Archwilio, lif o sicrwydd o ran y systemau rheoli mewnol. Rwyf wedi comisiynu rhaglen o waith archwilio a gyflawnwyd yn unol â safonau archwilio mewnol y sector cyhoeddus gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP). Cytunir ar gwmpas y gwaith hwn gyda'r Pwyllgor Archwilio ac mae'n canolbwyntio ar feysydd risg sylweddol a blaenoriaethau gwella lleol.

Mae'r farn gyffredinol a roddwyd gan y Pennaeth Archwilio Mewnol am lywodraethu, rheoli risgiau a rheolaeth yn ganlyniad i'r rhaglen archwilio hon, sy'n seiliedig ar archwilio risgiau. Mae'n cyfrannu at y darlun o sicrwydd sydd ar gael i'r Bwrdd o ran adolygu effeithiolrwydd a chefnogi ein hymgyrch i wella'n barhaus.

O ganlyniad i bandemig Covid-19 a'r ymateb iddo gan y Bwrdd Iechyd, ni chwblhawyd y rhaglen archwilio yn llawn. Fodd bynnag, mae'r Pennaeth Archwilio mewnol wedi dod i'r casgliad bod digon o waith archwilio wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn i allu rhoi barn gyffredinol yn unol â gofynion safonau archwilio mewnol y sector cyhoeddus. Ceir crynodeb o ganfyddiadau pob adolygiad a gwblhawyd a'r camau y cytunwyd arnynt, ynghyd â'r camau a gymerwyd eisoes lle y bu hynny'n bosibl, yn adroddiad blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol.

- **Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol**

Mae'r farn wedi'i chyfyngu i'r meysydd hynny a archwiliwyd yn y cynllun archwilio sy'n seiliedig ar risg, sydd wedi ei gytuno gydag uwch reolwyr a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio. Yn y cyd-destun hwn y dylai'r Pennaeth Asesu Archwiliadau Mewnol gael ei ddehongli wrth adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol, a dylid ei ystyried fel un sy'n sbarduno gwelliant parhaus yn fewnol.

Isod, nodir barn y Pennaeth Archwilio Mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu, rheoli risgiau a rheolaeth y sefydliad.

 - + Rhesymol	Gall y Bwrdd gael sicrwydd **rhesymol** bod y trefniadau i wneud yn siŵr bod llywodraethu, rheoli risgiau a rheolaeth fewnol, o fewn y meysydd hynny sy'n cael eu hadolygu, yn cael eu cynllunio'n addas a'u cymhwyso'n effeithiol. Mae angen i reolwyr roi sylw i rai materion yn ymwneud â chynllunio rheolaeth neu â chydymffurfio, gydag effaith isel i gymedrol ar brofi risgiau y mae'n anodd cael gwared arnynt hyd nes y caiff y materion hynny eu datrys.

Sail ar gyfer Ffurfio'r Farn
Wrth ffurfio'r farn, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi defnyddio barn broffesiynol ynghyd â'r cyfarwyddyd ar gyfer archwilio a sicrwydd a gyhoeddwyd gan y Cyfarwyddwr Archwilio a Sicrwydd, sef "Meini Prawf Ategol ar gyfer y Farn Gyffredinol", sy'n cael ei rannu gyda rhanddeiliaid allweddol.

Mae rhagor o wybodaeth am gyfyngiadau'r farn archwilio a'r cyfnod y mae'n ei gwmpasu wedi'u nodi ym marn y Pennaeth Archwilio Mewnol ac Adroddiad Blynyddol 2019-20.

Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi dod i'r casgliad y gellir nodi sicrwydd *cyfyngedig* ar gyfer y meysydd canlynol:

- Llywodraethu corfforaethol, risg a chydymffurfiaeth reoleiddiol.

Gellir nodi sicrwydd *rhesymol* ar gyfer:

- Llywodraethu, ansawdd a diogelwch clinigol;
- Cynllunio strategol, rheoli perfformiad ac adrodd;
- Llywodraethu a rheoli ariannol;
- Llywodraethu diogelu gwybodaeth;
- Gwasanaethau gweithredol a rheoli swyddogaethol;

- Rheoli'r Gweithlu
- Cyfalaf ac ystadau.

Yn ystod y flwyddyn, cyhoeddodd yr archwilwyr mewnol adroddiadau archwilio terfynol, gan gasglu bod sicrwydd *cyfyngedig* yn y meysydd canlynol:

- Fframwaith rheoli risgiau a sicrwydd y Bwrdd;
- Datganiadau o fuddiannau, rhoddion a lletygarwch;
- Iechyd a Diogelwch;
- Cynllun blynyddol: asesiad o effaith ansawdd;
- Caffael (dim archeb brynu/dim taliad)
- Rhestr wirio Sefydliad Iechyd y Byd (WHO);
- Llywodraethiant unedau: gwasnaethau gofal sylfaenol a chymunedol;
- Corffdy HTA (Deddf Meinweoedd Dynol) (rhan dau);
- Systemau cyfalaf - diogelu ariannol;
- Sicrwydd ystadau: rheoli contractwyr;

Cytunwyd ar gynlluniau gweithredu i wella perfformiad yn y meysydd hyn. Caiff cynnydd ei fonitro drwy'r Pwyllgor Archwilio, a cheir adolygiadau archwilio mewnol dilynol pan fo angen. Bydd adroddiadau a gyhoeddir ar ffurf ddrafft (naw), neu nas cwblhawyd o fewn y cyfnod adrodd 2019-20 (un), yn ddarostyngedig i'r un trefniadau ar gyfer cael eu hystyried, eu gweithredu a'u monitro gan reolwyr â'r rhai a gwblhawyd eisoes.

Gohiriwyd rhai o'r aseiniadau a gynlluniwyd yn ystod y flwyddyn yn dilyn cymeradwyaeth y Pwyllgor Archwilio, a byddant yn cael eu cynnwys wrth gynllunio archwiliadau yn y dyfodol yn lle hynny, sef:

- Diogelwch tân;
- Llywodraethu clinigol
- Adolygiadau o farwolaethau;
- Strategaeth ddigidol TG: adrodd am wybodaeth glinigol;
- Cynllunio swyddi meddygon ymgynghorol;
- Locwm ar ddyletswydd
- ARCH (Cydweithrediad Rhanbarthol ar gyfer Iechyd)

Ceir rhagor o fanylion am yr holl waith archwilio ym mhapurau'r Pwyllgor Archwilio ac ym Marn y Pennaeth Archwilio Mewnol ac Adroddiad Blynyddol 2019-20.

❖ Archwilio Allanol

Cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru farn amodol ar ddatganiadau ariannol 2018-19, ac wrth wneud hynny, daeth â'r canlynol i sylw'r Pwyllgor Archwilio a'r Bwrdd:

> *“Rwyf wedi dod i’r casgliad bod cyfrifon y Bwrdd Iechyd wedi’u paratoi’n briodol ac yn faterol gywir, ac ni nododd fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol o ran rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd sy’n berthnasol i’m harchwiliad o'r cyfrifon. Felly, rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar eu paratoad.*
>
> *Ni lwyddodd y Bwrdd Iechyd i fantoli’r gyllideb ar gyfer y cyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019, felly rwyf wedi cyhoeddi barn amodol ar*

reoleidd-dra'r trafodion ariannol o fewn ei gyfrifon ar gyfer 2018-19.

Ochr yn ochr â'm barn archwilio, cyflwynais adroddiad o sylwedd ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd i nodi ei fod wedi methu â mantoli'r gyllideb ac wedi methu â sicrhau bod cynllun tair blynedd cymeradwy ar waith."

Archwiliodd Swyddfa Archwilio Cymru drefniadau cynllunio a rheoli ariannol y sefydliad, ei drefniadau llywodraethu a sicrwydd, a'r cynnydd a wnaeth ar faterion yn ymwneud â gwella, sef materion a nodwyd yn asesiad strwythuredig y flwyddyn flaenorol, a daethpwyd i'r casgliad:

"Mae'r Bwrdd Iechyd yn ei drefnu ei hun ar gyfer cyflawni rhaglen drawsnewid uchelgeisiol. Mae dull systemaidd o gryfhau trefniadau llywodraethu, gan gynnwys agweddau pwysig ar lywodraethu ansawdd. Mae cynnydd yn cael ei wneud o ran mynd i'r afael â materion yn y gweithle. Fodd bynnag, nid yw'r camau gweithredu i wella'r sefyllfa ariannol a'r perfformiad wedi sicrhau'r gwelliannau sydd eu hangen eto. Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn debygol o lwyddo i fantoli'r gyllideb yn 2019-20;

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd o ran cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ond mae'n cydnabod fod mwy o waith i'w wneud;

Mae fy ngwaith ar archwilio'r perfformiad wedi nodi cynnydd cadarnhaol o ran mynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn fy archwiliadau blaenorol, ond mae lle i wneud gwelliannau pellach."

Er mwyn rhoi gwybod i'r Bwrdd am gydymffurfiaeth â safonau llywodraethu a fframweithiau ehangach, nododd yr asesiad strwythuredig ar gyfer 2019 drefniadau a gwelliannau llywodraethu drwy gydol y flwyddyn. Roedd y rhain yn cynnwys dechrau gweithredu'r cynllun gwasanaethau clinigol, sef rhaglen drawsnewid uchelgeisiol; canolbwyntio ar sicrhau mwy o werth ac effeithlonrwydd; arddangos arweinyddiaeth weladwy a chryfhau llywodraethu cyffredinol. Ond mae'n ymwybodol bod mwy i'w wneud mewn rhai agweddau ar lywodraethu ansawdd ac o ran cael dull mwy strategol o reoli'r gweithlu, ac er ei fod yn gweithredu i fynd i'r afael â risgiau mewn perthynas â'r gweithlu, mae'n cydnabod y cyfleoedd a'r heriau pellach.

Mae'r adroddiad llawn o'r asesiad strwythuredig ar gael o wefan Swyddfa Archwilio Cymru ac ymgorfforwyd y camau rheoli yn y rhaglen waith ar gyfer llywodraethu a gaiff ei monitro drwy'r Pwyllgor Archwilio.

Casgliad

Fel swyddog atebol, ac yn seiliedig ar y broses a amlinellir uchod, rwyf wedi adolygu'r dystiolaeth a'r sicrwydd perthnasol sy'n gysylltiedig â rheolaeth fewnol. Er bod yr heriau a wynebir yn parhau i fod yn debyg i'r rhai a amlinellwyd yn 2018-19, gyda chefnogaeth

y Bwrdd ceir hyder y gellir mynd i'r afael â'r rhain ac y dangoswyd gwelliant mewn llywodraethu. Mae gwaith yn parhau i ddatblygu CTCI a ystyrir yn gymeradwy, yn ogystal ag o ran rhoi ffocws ar wella ansawdd, lleihau amseroedd aros a gwella mynediad.


Mae'r datganiad llywodraethu hwn yn amlygu gwelliannau cadarnhaol o ran cryfhau trefniadau llywodraethu ac ar yr un pryd mae'n mynd i'r afael â'r heriau o ran ymyrraeth wedi'i thargedu, ac rwy'n hyderus bod gennym gynlluniau ar waith i fynd i'r afael â'r gwendidau a amlygwyd yn y datganiad. Fel sefydliad, mae nifer y meysydd sydd wedi derbyn sicrwydd cyfyngedig gan yr archwiliad mewnol yn siomedig, ac mae gwaith yn parhau i gryfhau a gwella gwasanaethau'r sefydliad.

Er i'r flwyddyn ddiwethaf fod yn un anodd ac yn heriol, dechreuwyd cael rhywfaint o sefydlogrwydd a chynnydd cyn Covid-19. Mae fy adolygiad wedi dod i'r casgliad bod gan y Bwrdd Iechyd system rheoli mewnol gadarn yn gyffredinol, sy'n cefnogi'r broses o gyflawni'r polisïau, y nodau a'r amcanion, ac nad oes unrhyw faterion arwyddocaol wedi'u nodi. Cytunwyd ar gynlluniau gweithredu manwl i wella perfformiad ym mhob maes a chaiff y rhain eu monitro drwy'r strwythur llywodraethu.

Fel nodwyd drwy gydol y datganiad hwn, mae'r angen i gynllunio ac ymateb i bandemig Covid-19 wedi cael effaith sylweddol ar y sefydliad, y GIG yn ehangach ac ar y gymdeithas yn gyffredinol. Roedd angen ymateb dynamig ac mae hynny wedi cyflwyno nifer o gyfleoedd yn ogystal â risgiau. Bydd yr angen i ymateb i'r pandemig a dod drosto'n parhau drwy gydol 2020-21 a thu hwnt, o ran y sefydliad a'r gymdeithas ehangach. Byddaf yn sicrhau bod ein fframwaith llywodraethu'n ystyried yr angen hwn ac yn ymateb iddo.

Tracy Myhill
Prif Weithredwr
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Atodiad 1 - Strwythur y Bwrdd a'r Pwyllgorau



Atodiad 2 - Dyddiadau Cyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau

Mae'r tabl canlynol yn amlinellu dyddiadau cyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau a gynhaliwyd yn ystod 2019-20, gan amlygu unrhyw gyfarfodydd lle nad oedd cworwm:

Bwrdd /Pwyllgor	Dyddiadau yn 2019-20											
Bwrdd Iechyd	30 Mai 2019	25 Gorffennaf 2019	26 Medi 2019	28 Tachwedd 2019	30 Ionawr 2020	27 Chwefror 2020	16 Mawrth 2020	26 Mawrth 2020				
Cworwm/Dim Cworwm												
Pwyllgor Archwilio	16 Mai 2019	18 Gorffennaf 2019	19 Medi 2019	21 Tachwedd 2019	16 Ionawr 2020	12 Mawrth 2020						
Cworwm/Dim Cworwm					Dim Cworwm							
Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl	9 Mai 2019	8 Awst 2019	7 Tachwedd 2019	6 Chwefror 2020								
Cworwm/Dim Cworwm												
Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth	27 Mehefin 2019	28 Tachwedd 2019	30 Ionawr 2020	27 Chwefror 2020								
Cworwm/Dim Cworwm												
Pwyllgor Cronfeydd Elusennol	24 Mehefin 2019	30 Medi 2019	17 Hydref 2019 (Cyfrifon)	9 Rhagfyr 2019	23 Mawrth 2020							
Cworwm/Dim Cworwm					Canslwyd							

Cworwm/Dim Cworwm												
Pwyllgor Perfformiad a Chyllid	16 Ebrill 2019	21 Mai 2019	18 Mehefin 2019	16 Gorffennaf 2019	20 Awst 2019	17 Medi 2019	22 Hydref 2019	19 Tachwedd 2019	17 Rhagfyr 2019	28 Ionawr 2020	25 Chwefror 2020	24 Mawrth 2020
Cworwm/Dim Cworwm												
Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch	18 Ebrill 2019	20 Mehefin 2019	22 Awst 2019	24 Hydref 2019	12 Rhagfyr 2019	28 Ionawr 2020	25 Chwefror 2020	24 Mawrth 2020				
Cworwm/Dim Cworwm												
Pwyllgor y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol	23 Ebrill 2019	28 Mai 2019	28 Mehefin 2019	23 Gorffennaf 2019	27 Awst 2019	25 Medi 2019	30 Hydref 2019	21 Tachwedd 2019	17 Rhagfyr 2019	20 Chwefror 2020		
Cworwm/Dim Cworwm												
Pwyllgor Iechyd a Diogelwch	3 Mehefin 2019	2 Medi 2019	2 Rhagfyr 2019	3 Mawrth 2020								
Cworwm/Dim Cworwm												
Ceisiadau Fferyllol												
Cworwm/Dim Cworwm												

Atodiad 3 - Aelodaeth o'r Bwrdd a'r Pwyllgorau

Mae'r Bwrdd wedi'i ffurfio i gydymffurfio â Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009. Yn ogystal â'r cyfrifoldebau a'r atebolrwyddau a nodir yn nhelerau ac amodau eu penodiadau, mae Aelodau'r Bwrdd hefyd yn cyflawni nifer o rolau fel Hyrwyddwyr lle maent yn gweithredu fel llysgenhadon ar gyfer y materion hyn.

Enw	Swydd	Rolau fel Cynrychiolwyr mewn Meysydd Arbenigol	Aelodaeth o Bwyllgorau'r Bwrdd	Rolau fel Hyrwyddwyr
Andrew Davies	Cadeirydd (hyd Mehefin 2019)	Amherthnasol	• Bwrdd Iechyd (Aelod)	
Emma Woollett	Cadeirydd Dros Dro	Amherthnasol	• Bwrdd Iechyd (Aelod)	• Hyrwyddwr Chwythu'r Chwiban
Jackie Davies	Aelod Annibynnol	Cynrychiolydd Staff	• Bwrdd Iechyd (Aelod) • Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl (Aelod) • Pwyllgor Cronfeydd Elusennol (Aelod) • Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch (Aelod) • Pwyllgor y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol (Aelod) • Pwyllgor Iechyd a Diogelwch (Aelod) • Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth (Aelod)	• Hyrwyddwr Staff • Hyrwyddwr Cyn-Filwyr
Maggie Berry	Aelod Annibynnol	Amherthnasol	• Bwrdd Iechyd (Aelod) • Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl (Aelod) • Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth (Aelod) • Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch (Cyn Gadeirydd) • Pwyllgor Iechyd a Diogelwch (Cadeirydd)	• Hyrwyddwr Arlwyo a Maetheg • Hyrwyddwr Pobl Hŷn

Enw	Swydd	Rolau fel Cynrychiolwyr mewn Meysydd Arbenigol	Aelodaeth o Bwyllgorau'r Bwrdd	Rolau fel Hyrwyddwyr
Mark Child	Aelod Annibynnol	Awdurdod lleol	• Bwrdd Iechyd (Aelod) • Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth (Aelod) • Pwyllgor Perfformiad a Chyllid (Aelod)	• Hyrwyddwr Pobl Ifanc
Martin Sollis	Aelod Annibynnol	Cyllid	• Bwrdd Iechyd (Aelod) • Pwyllgor Archwilio (Cadeirydd) • Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth (Aelod) • Pwyllgor Cronfeydd Elusennol (Aelod) • Pwyllgor Perfformiad a Chyllid (Aelod)	
Martyn Waygood	Dirprwy Gadeirydd Dros Dro	Cyfreithiol	• Bwrdd Iechyd (Aelod) • Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl (Aelod) • Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth (Aelod) • Pwyllgor Cronfeydd Elusennol (Cadeirydd) • Pwyllgor Iechyd a Diogelwch (Cyn Gadeirydd) • Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch (Cadeirydd)	• Hyrwyddwr Cwynion • Hyrwyddwr Iechyd a Diogelwch
Tom Crick	Aelod Annibynnol	TGCh	• Bwrdd Iechyd (Aelod) • Pwyllgor Iechyd a Diogelwch (Aelod) • Pwyllgor Archwilio (Aelod) • Pwyllgor y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol (Cadeirydd) • Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth (Aelod)	• Hyrwyddwr Llywodraethu Gwybodaeth • Hyrwyddwr yr Iaith Gymraeg

Enw	Swydd	Rolau fel Cynrychiolwyr mewn Meysydd Arbenigol	Aelodaeth o Bwyllgorau'r Bwrdd	Rolau fel Hyrwyddwyr
Reena Owen	Aelod Annibynnol (o Awst 2019)	Cymuned	• Bwrdd Iechyd (Aelod) • Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch (Aelod) • Pwyllgor Iechyd a Diogelwch • Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth (Aelod) • Pwyllgor Perfformiad a Chyllid (Cadeirydd)	• Hyrwyddwr Iechyd Cyhoeddus a Gofalwyr
Nuria Zolle	Aelod Annibynnol	Trydydd Sector	• Bwrdd Iechyd (Aelod) • Pwyllgor y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol (Aelod) • Pwyllgor Iechyd a Diogelwch (Aelod) • Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth (Aelod) • Pwyllgor Archwilio (Aelod)	
Julian Hopkin	Aelod Annibynnol (Ebrill 2019 hyd Tachwedd 2019)	Prifysgol	• Bwrdd Iechyd (Aelod)	
Alison Stokes	Aelod Cyswllt o'r Bwrdd (hyd Ion 2020)	Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid	• Bwrdd Iechyd (Aelod)	
Malcolm Lewis	Aelod Cyswllt o'r Bwrdd (hyd Tachwedd 2019)	Clinigol	• Bwrdd Iechyd (Aelod)	
Andrew Jarrett	Aelod Annibynnol	Gwasanaethau Cymdeithasol	• Bwrdd Iechyd (Aelod)	

Cyfarwyddwyr Gweithredol

Enw	Swydd	Rolau fel Cynrychiolwyr mewn Meysydd Arbenigol	Aelodaeth o Bwyllgorau'r Bwrdd	Hyrwyddwyr/Rolau Eraill
Tracy Myhill	Prif Weithredwr	Amherthnasol	• Bwrdd Iechyd (Aelod) • Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth (yn mynychu)	• Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys (Aelod)
Lynne Hamilton	Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol (hyd Mawrth 2020)	Cyllid	• Bwrdd Iechyd (Aelod) • Pwyllgor Archwilio (yn mynychu) • Cronfeydd Elusennol (Cyfarwyddwr Arweiniol/Aelod) • Perfformiad a Chyllid (Cyfarwyddwr Arweiniol/Aelod)	
Gareth Howells	Cyfarwyddwr Nyrsio a Phrofiad y Claf	Nyrsio	• Bwrdd Iechyd (Aelod) • Pwyllgor Archwilio (yn mynychu) • Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl (Cyfarwyddwr Arweiniol/yn mynychu) • Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch (Cyfarwyddwr Arweiniol/yn mynychu) • Pwyllgor Iechyd a Diogelwch (Cyfarwyddwr Arweiniol/yn mynychu) • Pwyllgor y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol (yn mynychu)	

Enw	Swydd	Rolau fel Cynrychiolwyr mewn Meysydd Arbenigol	Aelodaeth o Bwyllgorau'r Bwrdd	Hyrwyddwyr/Rolau Eraill
Sandra Husbands	Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus (hyd Hydref 2019)	Iechyd Cyhoeddus	• Bwrdd Iechyd (Aelod) • Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch (yn mynychu) • Pwyllgor Iechyd a Diogelwch	
Hazel Robinson	Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol	Y Gweithlu	• Bwrdd Iechyd (Aelod) • Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth (Cyfarwyddwr Arweiniol/yn mynychu) • Pwyllgor y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol (Cyfarwyddwr Arweiniol/yn mynychu) • Pwyllgor Iechyd a Diogelwch (yn mynychu)	• Aelod o Bwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP)
Sian Harrop-Griffiths	Cyfarwyddwr Strategaeth	Cynllunio Strategol	• Bwrdd Iechyd (Aelod) • Pwyllgor Cronfeydd Elusennol (Aelod) • Pwyllgor Perfformiad a Chyllid (Aelod)	• Bwrdd Partneriaeth Gorllewin Morgannwg • Aelod o'r Bwrdd ar gyfer Rhaglen ARCH • Hyrwyddwr Dylunio
Richard Evans	Cyfarwyddwr Meddygol	Meddygol	• Bwrdd Iechyd (Aelod) • Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch (yn mynychu) • Pwyllgor y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol (yn mynychu)	• Bwrdd Rhaglen ARCH • Pwyllgor Ymgynghorol ar Ddyfarniadau Rhagoriaeth Glinigol
Chris White	Prif Swyddog Gweithredu Cyfarwyddwr Therapïau a Gwyddorau Iechyd (o Dachwedd 2018)	Gweithrediadau Therapïau a Gwyddorau Iechyd	• Bwrdd Iechyd (Aelod) • Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl • Perfformiad a Chyllid (Aelod) • Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch (yn mynychu) • Pwyllgor y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol (yn mynychu) • Pwyllgor Iechyd a Diogelwch	

Enw	Swydd	Rolau fel Cynrychiolwyr mewn Meysydd Arbenigol	Aelodaeth o Bwyllgorau'r Bwrdd	Hyrwyddwyr/Rolau Eraill
Keith Reid	Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus (dros dro o Hydref 2019, yn barhaol o Fawrth 2020)	Iechyd Cyhoeddus	• Bwrdd Iechyd (Aelod) • Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch (yn mynychu)	
Darren Griffiths	Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro (o Chwefror 2020)	Cyllid	• Perfformiad a Chyllid (Arweiniol) • Pwyllgor Archwilio (yn mynychu) • Bwrdd Iechyd (Aelod) • Cronfeydd Elusennol (Aelod)	

Atodiad 4 - Presenoldeb Aelodau mewn Cyfarfodydd

	Bwrdd Iechyd	Pwyllgor Archwilio	Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd a Gallu Meddwl	Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth	Pwyllgor Crronfeydd Elusennol	Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad	Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch	Pwyllgor y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol	Pwyllgor Iechyd a Diogelwch
Nifer y cyfarfodydd	**12**	**6**	**4**	**5**	**5**	**11**	**7**	**7**	**5**
Andrew Davies Cadeirydd (hyd Mehefin 2019)	3			2					
Emma Woollett Is-gadeirydd (hyd Mehefin 2019)	9		1	5		5	1		
Jackie Davies Aelod Annibynnol	7		4	1	2	3	4	6	5
Maggie Berry Aelod Annibynnol	12		3	2		7	5		5
Mark Child Aelod Annibynnol	7	2				5			
Martin Sollis Aelod Annibynnol	12	6		4	4	11			
Martyn Waygood Is-gadeirydd Dros Dro	11	3	4	3	4		7		4

	Bwrdd Iechyd	Pwyllgor Archwilio	Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl a Galluedd Meddwl	Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth	Pwyllgor Crronfeydd Elusennol	Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad	Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch	Pwyllgor y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol	Pwyllgor Iechyd a Diogelwch
Nifer y cyfarfodydd	**12**	**6**	**4**	**5**	**5**	**11**	**7**	**7**	**5**
Tom Crick Aelod Annibynnol	9	5		1				7	
Reena Owen Aelod Annibynnol	11			1		6	7	4	4
Nuria Zolle Aelod Annibynnol (o Hydref 2019)	4	2	1	1		1	1	1	
Julian Hopkin Aelod Annibynnol (Ebrill – Tachwedd 2019)	2								
Tracy Myhill Prif Weithredwr	10			5					
Lynne Hamilton Cyfarwyddwr Cyllid	9	4			4	9			
Gareth Howells Cyfarwyddwr Profiad y Claf	11	4	3			1	6	4	4

	Bwrdd Iechyd	Pwyllgor Archwilio	Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl a Gallu Meddwl	Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth	Pwyllgor Crronfeydd Elusennol	Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad	Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch	Pwyllgor y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol	Pwyllgor Iechyd a Diogelwch
Nifer y cyfarfodydd	**12**	**6**	**4**	**5**	**5**	**11**	**7**	**7**	**5**
Sandra Husbands Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus (hyd Hydref 2019)	4						1		1
Hazel Robinson Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol	11			5				6	3
Siân Harrop-Griffiths, Cyfarwyddwr Strategaeth	12				2	7	2		1
Richard Evans Cyfarwyddwr Meddygol	12						5	6	
Chris White Prif Swyddog Gweithredol a Chyfarwyddwr Therapïau a Gwyddorau Iechyd	10		3			9	1		2
Keith Reid Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus (o Hydref 2019)	6						3		
Darren Griffiths Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro (o Chwefror 2020)	2	1				2	1		1

	Bwrdd Iechyd	Pwyllgor Archwilio	Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl a Galluedd Meddwl	Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth	Pwyllgor Crronfeydd Elusennol	Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad	Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch	Pwyllgor y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol	Pwyllgor Iechyd a Diogelwch
Nifer y cyfarfodydd	**12**	**6**	**4**	**5**	**5**	**11**	**7**	**7**	**5**
Alison Stokes Aelod Cyswllt o'r Bwrdd (hyd Ionawr 2020)	2								
Malcolm Lewis Aelod Cyswllt o'r Bwrdd (hyd Tachwedd 2019)	2								
Andrew Jarrett, Aelod Annibynnol	6								

* Oherwydd trosiant Aelodau Annibynnol, mae aelodaeth y pwyllgorau wedi cael ei hadolygu a'i diweddaru drwy gydol y flwyddyn. Mae'r rhain wedi'u hamlinellu isod. Hefyd, fel rhan o'u hymsefydlu, mynychodd Aelodau Annibynnol newydd o leiaf un cyfarfod o bob pwyllgor. Yn olaf, o fis Hydref 2019, gwahoddwyd pob Aelod Annibynnol i fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth.

Emma Woollett:	Aelod-gadeirydd o'r Pwyllgor Perfformiad a Chyllid hyd Hydref 2019 Aelod-gadeirydd o'r Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl hyd Mehefin 2019
Mark Child:	Aelod o'r Pwyllgor Archwilio hyd Hydref 2019 Aelod o'r Pwyllgor Perfformiad a Chyllid o Hydref 2019
Maggie Berry:	Aelod o'r Pwyllgor Perfformiad a Chyllid hyd Ionawr 2020
Martyn Waygood:	Aelod o'r Pwyllgor Archwilio hyd Medi 2019
Reena Owen:	Cadeirydd y Pwyllgor Perfformiad a Chyllid o Hydref 2019

Atodiad 5 - Crynodeb o'r Pynciau a Ystyriwyd gan y Bwrdd a Phwyllgorau Allweddol

❖ Cyfarfodydd y Bwrdd Iechyd

Adroddiadau a Dderbyniwyd
Eitemau Strategol ● Derbyn a nodi adroddiad ar ddatblygu cynllun tymor canolig integredig (CTCI) a'r cynllun gwasanaethau clinigol ● Derbyn adroddiad ar newid ffin Pen-y-bont ar Ogwr ● Derbyn adroddiad ar weithredu'r rhaglen thorasig i oedolion ● Cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynhwysiant digidol **Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad** ● Derbyn adroddiad ar wasanaethau mamolaeth ● Derbyn adroddiad ar weithredu'r Ddeddf Staff Nyrsio ● Derbyn adroddiad Perfformiad y Bwrdd Iechyd ● Derbyn adroddiad am y Sefyllfa Ariannol hyd 30 Ebrill 2019 **Eitemau i'w Cymeradwyo** ● Derbyn adroddiadau ar y materion allweddol a drafodwyd yng nghyfarfodydd pwyllgor canlynol y Bwrdd: (i) Pwyllgor Iechyd a Diogelwch (ii) Pwyllgor Archwilio (iii) Pwyllgor y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol (iv) Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl (v) Pwyllgor Cronfeydd Elusennol ● Derbyn cofnodion y cyd-bwyllgorau canlynol: (i) Bwrdd Rhaglen ARCH (ii) Y Cyd-bwyllgor Cynllunio a Chyflawni Rhanbarthol (iii) Fforwm Partneriaeth Lleol (iv) Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid
Adroddiadau a Dderbyniwyd
Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad ● Derbyn Adroddiad Perfformiad y Bwrdd Iechyd ● Derbyn a nodi adroddiadau am faterion allweddol gan y: (i) Pwyllgor Perfformiad a Chyllid (ii) Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch (iii) Pwyllgor y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol (iv) Pwyllgor Iechyd a Diogelwch ● Derbyn adroddiad am y Sefyllfa Ariannol o 30 Mehefin 2019 **Eitemau Strategol** ● Derbyn a nodi adroddiad ar ddatblygu cynllun tymor canolig integredig (CTCI) a'r cynllun gwasanaethau clinigol

- Derbyn adroddiad ar Uned Mân Anafiadau Singleton
- Derbyn adroddiad ar bartneriaethau
- Derbyn adroddiadau ar y materion allweddol a drafodwyd yn:
    (i) Bwrdd Rhaglen ARCH
    (ii) Y Cyd-bwyllgor Cynllunio a Chyflawni Rhanbarthol
  - Derbyn yr adroddiad blynyddol ar ofalwyr
  - Derbyn yr adroddiad blynyddol ar ymchwil a datblygu

Llywodraethu
- Derbyn a chymeradwyo adroddiad ar gludo cleifion mewn achosion nad ydynt yn rhai brys
- Cytuno ar adroddiad ar gyfer Clinigau Glyn-nedd a Resolfen
- Derbyn adroddiadau ar y materion allweddol a drafodwyd yng nghyfarfodydd pwyllgorau canlynol y Bwrdd:
    (i) Y Pwyllgor Archwilio
    (ii) Pwyllgor Cronfeydd Elusennol
- Derbyn cofnodion cyfarfodydd y cyd-bwyllgorau canlynol:
    (i) Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru
    (ii) Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
    (iii) Cyd-bwyllgor Pontio
- Derbyn adroddiadau ar y materion allweddol a drafodwyd yn y:
    (i) Fforwm Partneriaeth Lleol
- Derbyn a nodi adroddiadau ar y materion a adroddwyd yn y pwyllgor yn y cyfarfod blaenorol
- Derbyn a nodi adroddiadau ar Faterion Llywodraethu Corfforaethol

Adroddiadau a Dderbyniwyd

Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad
- Derbyn adroddiad ar Lythyr Blynyddol yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus 2018-2019
- Derbyn adroddiad ar Uned Mân Anafiadau Singleton
- Derbyn a nodi adroddiadau am faterion allweddol gan y:
    (i) Pwyllgor Perfformiad a Chyllid
    (ii) Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch
    (iii) Pwyllgor y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol
    (iv) Pwyllgor Iechyd a Diogelwch
- Derbyn Adroddiad Perfformiad y Bwrdd Iechyd ar 31 Awst 2019

Eitemau Strategol
- Derbyn a chymeradwyo cynllun blynyddol ac ariannol 2019-20
- Derbyn a nodi'r adroddiad ar ddatblygiad y Cynllun Tair Blynedd a'r Cynllun Gwasanaethau Clinigol
- Derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd yn erbyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

- Derbyn a chymeradwyo'r adroddiad ar y Clinig Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC)
- Derbyn a chymeradwyo adroddiad ar Wasanaeth Llawfeddygaeth Thorasig i Oedolion De Cymru
- Derbyn a nodi adroddiad ar gyfarfodydd diweddar gyda Phartneriaethau GIG Cymru
- Derbyn a nodi adroddiad ar gyfarfodydd diweddar am bartneriaethau allanol allweddol
- Derbyn yr adroddiadau ar gyfarfodydd diweddar gyda grwpiau cynghori'r Bwrdd:
    (i) Fforwm y Bartneriaeth
    (ii) Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid

Llywodraethu

- Derbyn a chymeradwyo'r Adroddiad Myfyrio Strategol ar Ofal Sylfaenol ar gyfer y cyfnod 2018-19
- Derbyn adroddiadau ar y materion allweddol a drafodwyd yng nghyfarfodydd y:
    (i) Pwyllgor Archwilio
    (ii) Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl
- Derbyn a nodi adroddiadau ar y materion a adroddwyd gan y pwyllgor yn y cyfarfod blaenorol
- Derbyn a nodi adroddiad ar Lywodraethu Corfforaethol

Adroddiadau a Dderbyniwyd

Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad

- Derbyn a nodi adroddiadau am faterion allweddol gan y:
    (i) Pwyllgor Perfformiad a Chyllid
    (ii) Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch
    (iii) Pwyllgor y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol
- Derbyn Adroddiad Perfformiad y Bwrdd Iechyd ar 31 Hydref 2019
- Derbyn adroddiad am gofrestr risgiau'r Bwrdd Iechyd
- Derbyn ac ystyried yr argymhellion i gyflawni cynllun blynyddol 2019-20 i'r graddau gorau posib.

Eitemau Strategol

- Derbyn adroddiad ar y Cynllun Gwasanaethau Clinigol a'r Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) ar gyfer 2020-21 i 22/23
- Derbyn a chymeradwyo Cynllun y Gaeaf ar gyfer 2019-20
- Derbyn a chymeradwyo'r achos busnes ar gyfer trawmâu mawr
- Derbyn a thrafod y wybodaeth ddiweddaraf o ran cydymffurfio â Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2020
- Cael y wybodaeth ddiweddaraf am weithredu *The Guardian Service*
- Derbyn adroddiad ar gyfarfodydd diweddar gyda Phartneriaeth GIG Cymru

- Derbyn adroddiad ar gyfarfod diweddar ar bartneriaethau allanol allweddol
- Derbyn yr adroddiadau ar gyfarfodydd diweddar gyda grwpiau cynghori'r Bwrdd:
    (i) Fforwm y Bartneriaeth
    (ii) Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid (GCRh)
- Derbyn diweddariad ar 'Cymru Iachach'

Llywodraethu
- Derbyn a chymeradwyo adroddiad blynyddol yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO)
- Derbyn a chymeradwyo trosglwyddo asedau a rhwymedigaethau yn ffurfiol i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- Derbyn a chymeradwyo Rheolau Sefydlog diwygiedig
- Derbyn a chymeradwyo'r cyllid ar gyfer y codiadau gofal nyrsio
- Derbyn adroddiad ar y materion allweddol a drafodwyd yng nghyfarfodydd pwyllgorau canlynol y Bwrdd:
    (i) Y Pwyllgor Archwilio
    (ii) Pwyllgor Cronfeydd Elusennol
- Derbyn adroddiad ar faterion Llywodraethu Corfforaethol

Adroddiadau a Dderbyniwyd

Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad
- Derbyn a nodi adroddiadau am faterion allweddol gan y:
    (i) Pwyllgor Perfformiad a Chyllid
    (ii) Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch
    (iii) Pwyllgor y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol
- Derbyn Adroddiad Perfformiad y Bwrdd Iechyd ar 31 Rhagfyr 2019
- Derbyn diweddariad ar weithredu Cynllun y Gaeaf
- Derbyn adroddiad mewn ymateb i ddatganiad gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar farwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau

Eitemau Strategol
- Derbyn adroddiad ar Gynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) 2020-21 i 22/23
- Cael y wybodaeth ddiweddaraf am y Rhaglen Trawsnewid Digidol
- Cael y wybodaeth ddiweddaraf am gyllid a fframwaith y sector gwirfoddol
- Derbyn adroddiad ar gyfarfodydd diweddar ar bartneriaethau allanol allweddol
- Cael y wybodaeth ddiweddaraf am y Rhaglen Trawsnewid Digidol

Llywodraethu
- Derbyn adroddiad ar y trefniadau llywodraethu ar gyfer trawmâu mawr, yn cynnwys fframwaith y rhwydwaith cyflawni gweithredol

- Derbyn hunanasesiad a chynllun gweithredu'r Bwrdd Iechyd yn erbyn adolygiad llywodraethu ansawdd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- Derbyn adroddiad ar adroddiadau blynyddol ac asesiadau strwythuredig Swyddfa Archwilio Cymru
- Cael y wybodaeth ddiweddaraf am fframwaith sicrwydd y Bwrdd
- Cael y wybodaeth ddiweddaraf am yr Iaith Gymraeg
- Derbyn adroddiad am y materion allweddol a drafodwyd yng nghyfarfodydd pwyllgorau canlynol y Bwrdd:
    (i) Y Pwyllgor Archwilio
    (ii) Pwyllgor Iechyd a Diogelwch
    (iii) Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl
- Derbyn adroddiad ar faterion Llywodraethu Corfforaethol.

Adroddiadau a Dderbyniwyd

Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad

- Derbyn adroddiad manwl am ofal heb ei drefnu yn ymwneud ag aros am ambiwlans ac â mynd adref o'r ysbyty

Eitemau Strategol

- Derbyn y ddogfen ymgysylltu ar gyfer cau Ysbyty Tonna

Adroddiadau a Dderbyniwyd

Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad

- Derbyn adroddiad ar Fewnblaniad Falf Aorta drwy Gathetr (TAVI)
- Adolygu cyflwyniad gan y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys
- Derbyn a nodi adroddiadau am faterion allweddol gan y:
    (iv) Pwyllgor Perfformiad a Chyllid
    (v) Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch
    (vi) Pwyllgor y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol
- Derbyn adroddiad ar berfformiad gofal heb ei drefnu
- Derbyn Adroddiad Perfformiad y Bwrdd Iechyd ar 29 Chwefror 2020
- Derbyn adroddiad ar y sefyllfa ariannol hyd 29 Chwefror 2020

Eitemau Strategol

- Cymeradwyo cynllun blynyddol 2020/21 yn y Cytundeb Tair Blynedd
- Derbyn y gyllideb a'r dyraniadau ariannol
- Derbyn adroddiad ar gyfarfodydd diweddar gyda Phartneriaethau GIG Cymru
- Derbyn adroddiadau'r grwpiau cynghori:
    a. Fforwm Partneriaeth Lleol
    b. Fforwm y Gweithwyr Iechyd Proffesiynol
- Derbyn a chymeradwyo'r amcanion cydraddoldeb strategol

Llywodraethu

- Cytundeb Hirdymor a chytundebau lefel gwasanaeth ar gyfer 2020/21
- Derbyn adroddiad ar fframwaith cyflawni gweithredol y rhwydwaith ar gyfer trawmâu mawr
- Derbyn adroddiad am y materion allweddol a drafodwyd yng nghyfarfodydd pwyllgorau canlynol y Bwrdd:
    (iv) Y Pwyllgor Archwilio
    (v) Pwyllgor Iechyd a Diogelwch
    (vi) Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl
- Derbyn adroddiad ar faterion Llywodraethu Corfforaethol.

❖ Pwyllgor Archwilio

Adroddiadau a Dderbyniwyd
Llywodraethu, Risg a Rheolaethau mewnol ● Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Drafft) ● Adroddiad Sefydliadol Blynyddol (Drafft) ● Rheolau Sefydlog ● Cofrestr Risgiau ● Datganiad Ansawdd Blynyddol **Archwilio Mewnol** ● Crynodeb o'r Aseiniad Cynnydd ac Archwilio ● Barn Archwilio Mewnol ac Adroddiad Blynyddol (Drafft) **Archwilio Allanol** ● Adroddiad Perfformiad a Chynnydd ● Adroddiad Codio Clinigol ● Asesiad Strwythuredig 2018 ● Ymholiadau archwilio ar gyfer y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a rheoli **Ffocws Ariannol** ● **Diweddariad am Gyllid** ● Adolygu'r cyfrifon blynyddol (Drafft) ● Adroddiad ar daliadau a staff (Drafft) ● Colledion a thaliadau arbennig Gwrth-dwyll ● Cynllun Gwrth-dwyll Blynyddol ● Adroddiad Gwrth-dwyll Blynyddol a Hunanasesiad yn erbyn safonau Diogelu'r GIG. **Adroddiadau Sicrwydd am Wybodaeth** ● Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio (Drafft)

❖ Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch

Adroddiadau a Dderbyniwyd
Stori'r Claf • Stori'r Claf, Treforys **Meincnodi, Dysgu a Gwella Ansawdd** • Adroddiad Rheoli Heintiau Cydymffurfiaeth a Pherfformiad o ran Ansawdd Clinigol ac Ansawdd Gwasanaeth • Adroddiad Profiad y Claf • Datganiad Ansawdd Blynyddol • Adroddiad Perfformiad **Llywodraethu a Rheoli Risgiau** • Adolygiad 90 diwrnod Uned Gyflawni GIG Cymru • Cynllun Gweithredu KW AGIC • Adolygiad Llywodraethu Ansawdd • Diweddariad am Archwilio Mewnol • Diweddariad gan y Fforwm Ansawdd a Diogelwch • Archwiliadau Allanol • Adroddiad Cyngor y Senedd Glinigol **Eitemau er gwybodaeth** • Indemniad Meddygon Teulu
Adroddiadau a Dderbyniwyd
Stori'r Claf • Ysbyty Singleton **Meincnodi, Dysgu a Gwella Ansawdd** • Adroddiad Rheoli Heintiau • Adroddiad Diogelu • Asesiad o Effaith Ansawdd Cydymffurfiaeth a Pherfformiad o ran Ansawdd Clinigol ac Ansawdd Gwasanaeth • Adroddiad Perfformiad • Derbyn Cleifion CAMHS i Ward Iechyd Meddwl ar gyfer Oedolion **Llywodraethu a Rheoli Risgiau** • Cynllun Gweithredu Adolygiad 90 diwrnod Uned Gyflawni GIG Cymru

- Archwilio Mewnol: Adroddiad Interim HTA
- Archwiliadau Allanol
- Adroddiad Cyngor y Senedd Glinigol
- Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor
- 5.6 Cylch Gorchwyl y Pwyllgor

Eitemau er gwybodaeth
- Cynllun Archwilio Clinigol Cenedlaethol ac Adolygu Canlyniadau GIG Cymru

Adroddiadau a Dderbyniwyd

Stori'r Claf

Ysbyty Castell-nedd Port Talbot

Meincnodi, Dysgu a Gwella Ansawdd
- Adroddiad Rheoli Heintiau
- Adroddiad Diogelu
- Diweddariad am Wasanaethau Mamolaeth

Cydymffurfiaeth a Pherfformiad o ran Ansawdd Clinigol ac Ansawdd Gwasanaeth
- Adroddiad Perfformiad
- Adroddiad Profiad y Claf
- Dangosfwrdd Gofal Sylfaenol
- Dangosfwrdd o'r Ward i'r Bwrdd
- 4.5 Adroddiad Hunanasesu Safonau Iechyd a Gofal 2019-2020

Llywodraethu a Rheoli Risgiau
- Cynllun Gweithredu Adolygiad 90 diwrnod Uned Gyflawni GIG Cymru
- Archwilio Mewnol: Adroddiad Interim HTA
- Archwiliadau Allanol
- Adroddiad Cyngor y Senedd Glinigol
- Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor
- 5.6 Cylch Gorchwyl y Pwyllgor

Eitemau er gwybodaeth
- Cynllun Archwilio Clinigol Cenedlaethol ac Adolygu Canlyniadau GIG Cymru

Adroddiadau a Dderbyniwyd

Meincnodi, Dysgu a Gwella Ansawdd
- Achosion Acìwt a Brys Pediatrig
- Adroddiad Rheoli Heintiau
- Diogelu
- Adroddiad Atal Hunanladdiad

- Camddefnyddio Sylweddau

Cydymffurfiaeth a Pherfformiad o ran Ansawdd Clinigol ac Ansawdd Gwasanaeth

- Adborth yn dilyn yr Uwchgynhadledd Ansawdd a Diogelwch
- Adroddiad Perfformiad Ansawdd a Diogelwch
- Sgrinio ar gyfer asesiad o dwf y ffetws yn unol â GAP-GROW
- Strategaeth Pobl Hŷn
- Darpariaeth ar gyfer Plant y mae angen Llythyr Gofal Iechyd Meddwl Arbenigol fel Cleifion Mewnol arnynt

Llywodraethu a Rheoli Risgiau

- Llywodraethu Clinigol EMRTS
- Adolygiad o Ofal Sylfaenol gan Gymheiriaid
- Cofrestr Risgiau Ansawdd a Diogelwch
- Adroddiad yr Archwiliad Mamolaeth ac Amenedigol Cenedlaethol

Arolygiadau

- Diweddariad am Archwilio Mewnol
- Adroddiad Archwiliadau Allanol

Eitemau er gwybodaeth

- Materion Allweddol: Fforwm Ansawdd a Diogelwch
- Adroddiad Blynyddol a Chynllun Gweithredu 2018-2019 AGIC
- Eitemau er gwybodaeth

Adroddiadau a Dderbyniwyd

Meincnodi, Dysgu a Gwella Ansawdd

- Stori'r Claf: Stori Nicola
- Adroddiad ar yr Amser Trosglwyddo a Gollwyd
- Adroddiad ar Achosion Acìwt a Brys Pediatrig
- Adroddiad ar Atal Hunanladdiad
- Adroddiad ar Gamddefnyddio Sylweddau
- Adroddiad ar Reoli Heintiau

Cydymffurfiaeth a Pherfformiad o ran Ansawdd Clinigol ac Ansawdd Gwasanaeth

- Cynllun Gweithredu ac Adroddiad CAMHS i gynnwys Adroddiad Strategaeth Tŷ Llidiard
- Adroddiad Perfformiad Ansawdd a Diogelwch
- Adroddiad Profiad y Claf

Arolygiadau

- Archwilio Mewnol
- Adroddiad Cynghorau Iechyd Cymuned

- Adroddiad ar Archwiliadau Allanol

Eitemau er gwybodaeth

- Materion Allweddol: Grŵp Sicrwydd Ansawdd a Diogelwch
- Y wybodaeth ddiweddaraf am gylch gorchwyl y Grŵp Llywodraethu Ansawdd a Diogelwch ac am Ddatblygu'r Fframwaith Aansawdd a Diogelwch

Adroddiadau a Dderbyniwyd

Meincnodi, Dysgu a Gwella Ansawdd

- Stori'r Claf: Stori Hannah
- Mesurau Rheoli Atal Heintiau y tu allan i ofal yn yr ysbyty, gan gynnwys beth yw'r rhagamcanion a pha gyngor a ddarperir i feddygon teulu
- Diogelu

Cydymffurfiaeth a Pherfformiad o ran Ansawdd Clinigol ac Ansawdd Gwasanaeth

- Gofal heb ei drefnu i gynnwys trosglwyddiadau gan ambiwlansys a goblygiadau gofal heb ei drefnu ar gyfer Ansawdd a Diogelwch
- Adroddiad Perfformiad Ansawdd a Diogelwch i gynnwys ffocws ar restrau aros ar gyfer gofal wedi'i gynllunio a data ar gyfer Ansawdd Gofal Sylfaenol
- Adolygiad o farwolaethau

Arolygiadau

- Archwilio Mewnol
- Ffurflenni monitro Cynghorau Iechyd Cymuned i gynnwys dychweliadau i gynnwys adroddiadau llywodraethu gofal sylfaenol

Eitemau er gwybodaeth

- Materion Allweddol: Grŵp Sicrwydd Ansawdd a Diogelwch
- Diweddariad am Safonau Gofal Iechyd
- Eitemau er gwybodaeth

Adroddiadau a Dderbyniwyd

Meincnodi, Dysgu a Gwella Ansawdd

- Stori'r Claf: Stori Jamie
- Rheoli Heintiau i gynnwys asesiad a chynllun gweithredu ffurfiol o ran risgiau rheoli heintiau'r Bwrdd Iechyd, mannau problemus, themâu a'r camau a gymerir
- Y diweddaraf am faterion glanhau a recriwtio yn dilyn yr Uwch Dîm Arwain, gan gynnwys cynllun gweithredu

Cydymffurfiaeth a Pherfformiad o ran Ansawdd Clinigol ac Ansawdd Gwasanaeth

- Adroddiad Perfformiad Ansawdd a Diogelwch
- Cynllun Gweithredu ar gyfer Llywodraethu Ansawdd a Diogelwch ac Adolygiad Llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- Cynllun y Bwrdd Iechyd ar gyfer Atal Hunanladdiad
- Materion Allweddol: Grŵp Llywodraethu Ansawdd a Diogelwch

Arolygiadau

- Rhestrau Gwirio Diogelwch Llawfeddygol Sefydliad Iechyd y Byd

Adroddiadau a Dderbyniwyd

Meincnodi, Dysgu a Gwella Ansawdd

- Rheoli Atal Heintiau i gynnwys dadansoddiad o lefelau glendid ac archwiliadau

Cydymffurfiaeth a Pherfformiad o ran Ansawdd Clinigol ac Ansawdd Gwasanaeth

- Diweddariad am Ofal Heb ei Drefnu
- Adroddiad Perfformiad Ansawdd a Diogelwch
- Adroddiad Profiad y Claf
- Cynllun Gweithredu ar gyfer Llywodraethu Ansawdd a Diogelwch ac Adolygiad Llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- Canllawiau Clinigol y Rhwydwaith ar gyfer Trawmâu Mawr

Arolygiadau

- Arolygiadau allanol i gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am yr Awdurdod Meinweoedd Dynol

Atodiad 6 - Dangosfwrdd o'r Risgiau

Effaith / Canlyniadau						
	5				**4:** Rheoli Heintiau **49:** Gwasanaeth TAVI **58:** Capasiti'r Clinig Offthalmoleg **16:** Mynediad at Wasanaethau Gofal Wedi'i Drefnu **50:** Mynediad at Wasanaethau Canser **63:** Sgrinio ar gyfer asesiad o dwf y ffetws yn unol â GAP-GROW **65:** Monitro CTG (cardiotocograffi) mewn wardiau geni **68:** Pandemig y Coronafeirws **69:** Pobl ifanc yn cael eu derbyn i wardiau iechyd meddwl oedolion **70:** Diffoddiadau canolfannau data	**1:** Mynediad at Ofal Heb ei Drefnu **67:** Methu â chyrraedd targedau ar gyfer triniaeth radiotherapi radical **66:** Triniaeth Gwrth-ganser Systemig (SACT)
	4				**03:** Recrwitio Staff Meddygol a Deintyddol i'r Gweithlu **11:** Model Gofal Iechyd ar gyfer Poblogaeth sy'n Heneiddio **43:** Awdurdodiad DOLS a chydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth **45**: Gwybodaeth am ryddhau o'r ysbyty **48:** Gwasanaethau iechyd meddwl pobl ifanc **37** Penderfyniadau gweithredol a strategol ddim yn cael eu llywio gan ddata **57:** Peidio â chydymffurfio â gofynion y Swyddfa Gartref ar gyfer trwyddedu cyffuriau a reolir **61:** Gwasanaeth GA deintyddol pediatrig - Parkway	**64:** Seilwaith Iechyd a Diogelwch **39:** Cyfrifoldeb Statudol CTCI **42:** Cynllun Ariannol **62:** Gwasanethau Corfforaethol Cynaliadwy **60:** Seiberddiogelwch
	3				**13:** Amgylchedd Safleoedd y Bwrdd Iechyd **36:** Cofnod Electronig y Claf **27:** Gwasanaethau clinigol cynaliadwy ar gyfer trawsnewid digidol **41:** Cydymffurfio â'r Rheoliadau Diogelwch Tân **52**: Gofynion Asesu Effaith ac Ymgysylltu **51:** Cydymffurfio â Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016	**15:** Gwella Iechyd y Boblogaeth **54:** Brexit heb gytundeb **53:** Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg
	2					
	1					
C X T		**1**	**2**	**3**	**4**	**5**
		Tebygolrwydd				

ADRODDIAD ATEBOLRWYDD AC ARCHWILIO SENEDD CYMRU

Lle mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn cynnal gweithgareddau nad ydynt yn cael eu hariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, mae'r Ymddiriedolaeth yn cael incwm i dalu ei chostau. Caiff manylion pellach am yr incwm a dderbynnir eu cyhoeddi yng nghyfrifon blynyddol y Bwrdd Iechyd; o fewn nodyn 4, sy'n dwyn y teitl 'refeniw gweithredol arall'.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn cadarnhau ei fod wedi cydymffurfio â'r gofynion dyrannu costau a'r gofynion codi tâl a osodwyd yng nghanllawiau Trysorlys EM yn ystod y flwyddyn.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n briodol ac i gyflawni'r amcanion a fwriadwyd. Mae'r gwariant yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol. Mae'r taliadau am wasanaethau a ddarperir gan sefydliadau'r sector cyhoeddus yn trosglwyddo cost lawn darparu'r gwasanaethau hynny.

Adroddiad ar Daliadau a Staff

2019-20

Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth mewn perthynas â thaliadau ar gyfer Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Aelodau Annibynnol, ac yn amlinellu'r trefniadau o fewn y Bwrdd Iechyd i benderfynu ar hyn. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am niferoedd staff, cyfansoddiad staff, data absenoldeb oherwydd salwch, polisïau staff a weithredwyd yn ystod y flwyddyn, gwariant ar ymgynghori, digwyddiadau oddi ar y gyflogres a phecynnau ymadael.

1. Y Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth

Mae'r Pwyllgor hwn yn ystyried Taliadau a pherfformiad Cyfarwyddwyr Gweithredol yn unol â'r polisi a nodir isod.

Yr hyn sy'n arferol yw bod cyflogau Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Uwch Reolwyr (y rhai sydd y tu allan i'r Agenda ar gyfer Newid) yn cael eu codi'n unol â'r ganran chwyddiant arferol a nodir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyflogau. Ar gyfer 2019/20, roedd cynnydd o 2% mewn chwyddiant cyflog ar gyfer Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Uwch Reolwyr yn unol â'r dyfarniad cyflog a gytunwyd yn genedlaethol ar gyfer staff y GIG.

Pe bai codiad cyflog a fyddai'n uwch na'r lefel hon, byddai hyn bob amser yn cael ei gytuno o ganlyniad i newidiadau mewn rolau a chyfrifoldebau a chyda chyngor gan ymgynghoriaeth annibynnol sydd â gwybodaeth arbenigol am werthuso swyddi a chyflogau swyddogion gweithredol o fewn y GIG. Byddai'r Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaethau'n cael adroddiad manwl o ran y materion i'w hystyried mewn perthynas ag unrhyw godiad yng nghyflogau Cyfarwyddwyr Gweithredol (yn cynnwys cyngor gan Lywodraeth Cymru) ac ar ôl ystyried yr holl gyngor a'r materion a fyddai'n cael eu cyflwyno iddynt, byddai'r Pwyllgor yn adrodd ei argymhellion er mwyn i'r Bwrdd Iechyd eu cadarnhau.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn adolygu'r amcanion a osodir ar gyfer Cyfarwyddwyr Gweithredol ac yn asesu perfformiad yn erbyn yr amcanion hynny wrth ystyried argymhellion ynghylch codiadau cyflog blynyddol. Dylid nodi nad yw Cyfarwyddwyr Gweithredol ar unrhyw fath o gyflog sy'n gysylltiedig â pherfformiad.

Cadeirydd y Bwrdd Iechyd sy'n cadeirio'r Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth, ac mae'r aelodaeth yn cynnwys tri Aelod Annibynnol arall (Cadeiryddion Pwyllgorau'r Bwrdd). Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod mor aml ag sy'n ofynnol i ymdrin â busnes ac mae'n cyflwyno ei argymhellion i'r Bwrdd Iechyd ar ffurf adroddiadau ysgrifenedig ffurfiol. Cedwir cofnodion o'r cyfarfodydd a chofnodir y penderfyniadau'n llawn.

Y Pwyllgor sydd hefyd yn argymell codiadau cyflog blynyddol i'r Bwrdd mewn perthynas â Chyfarwyddwyr Gweithredol ac Uwch Reolwyr yn y Bwrdd Iechyd nad ydynt o fewn cylch gwaith yr Agenda ar gyfer Newid. Ar gyfer 2019/20, yr unig godiadau cyflog a argymhellwyd oedd rhai yn sgil chwyddiant o 2%.

2. Taliadau Aelodau Annibynnol

Llywodraeth Cymru sy'n penderfynu ar y gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer Aelodau Annibynnol, ac yn penderfynu hefyd ar ddeiliadaeth y swyddi.

3. Adroddiad ar Daliadau Sengl

Dangosir cyfanswm taliadau unigol pob Cyfarwyddwr ac Aelod Annibynnol ar gyfer 2019/20 a 2018/19 yn y tabl isod. Mae cyfanswm taliadau'n cynnwys cyflog, tâl anghyfunol ar sail perfformiad, a buddion mewn nwyddau neu wasanaethau. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr na'r gwerth trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod o ran buddion pensiwn.

Mae'r cyflogau a ddatgelir yn y tabl isod yn adlewyrchu penodiadau newydd a'r rhai a adawodd yn ystod y blynyddoedd ariannol 2019/20 a 2018/19. Er bod y cyflogau a ddatgelir yn ymwneud â chyfnod deiliadaeth y swyddi yn ystod y flwyddyn, nid yw Asiantaeth Bensiynau'r GIG yn gallu priodoli buddion pensiwn am ran o flwyddyn i ddeiliaid swyddi, ac felly dangosir y buddion pensiwn llawn ar gyfer y flwyddyn ariannol. Dylid nodi hefyd nad yw'r tabl isod ond yn cynnwys Cyfarwyddwyr a oedd yn eu swyddi ar yr adeg y darparodd Asiantaeth Bensiynau'r GIG y wybodaeth am bensiynau i'r Bwrdd Iechyd ym mis Chwefror 2020.

Cyfrifir gwerth buddion y pensiwn fel a ganlyn: (cynnydd real mewn pensiwn[1] wedi'i luosi ag 20) ynghyd â chynnydd real mewn cyfandaliad, a thynnu cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn.

Cyfrifir pensiynau'n seiliedig ar wybodaeth a gafwyd gan Asiantaeth Bensiynau Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG a gynhwyswyd yn yr Adroddiad ar Ddatgelu Taliadau Cydnabyddiaeth Uwch Reolwyr 2020 (Greenbury). Gellir dod o hyd i ragor o fanylion am gyfanswm y ffigur taliadau sengl o Swyddfa'r Cabinet ar ei wefan am hysbysiadau pensiynau ar gyfer cyflogwyr dan EPN 571 (2019-20).

[1]ac eithrio cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiad o ganlyniad i drosglwyddo hawliau pensiwn

Enwau	Teitlau	2019/20					2018/19				
		Cyflog (Bandiau £5k) £000	**Taliadau Eraill Bandiau £5k £000**	**Buddion mewn Nwyddau / Gwasanae-thau (i'r £100 agosaf) £00**	**Buddion Pensiwn (i'r £1000 agosaf) £000**	Cyfanswm **(Bandiau £5k) £000**	**Cyflog (Bandiau £5k) £000**	**Taliadau Eraill Bandiau £5k £000**	**Buddion mewn Nwyddau / Gwasanae-thau (i'r £100 agosaf) £00**	**Buddion Pensiwn (i'r £1000 agosaf) £000**	Cyfanswm **(Bandiau £5k) £000**
A Davies	Cadeirydd hyd 30 Mehefin 2019	15-20	0	0	0	**15-20**	65-70	0	0	0	**65-70**
E Woollett	Cadeirydd Dros Dro o 1 Gorffennaf 2019. Dirprwy Gadeirydd o 1 Ebrill 2019 hyd 30 Mehefin 2019	65-70	0	0	0	**65-70**	55-60	0	0	0	**55-60**
M Waygood	Dirprwy Gadeirydd Dros Dro o 23 Gorffennaf 2019, Aelod Annibynnol o 1 Ebrill 2019 hyd 22 Gorffennaf 2019	40-45	0	0	0	**40-45**	15-20	0	0	0	**15-20**
T Myhill	Prif Weithredwr	200-205	0	0	64	**265-270**	200-205	0	0	99	**295-300**
C White	Dirprwy Brif Weithredwr o 4 Chwefror 2019. Prif Swyddog Gweithredu, Cyfarwyddwr Therapïau a Gwyddorau Iechyd, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Sylfaenol, Cymunedol a Iechyd Meddwl.	160-165	0	0	231	**390-395**	140-145	0	0	73	**215-220**
L Hamilton	Cyfarwyddwr Cyllid o 1 Ebrill 2019 hyd 29 Chwefror 2020	200-205	0	0	36	**235-240**	135-140	0	0	32	165-170

Enwau	Teitlau	2019/20					2018/19				
		Cyflog (Bandiau £5k) £000	**Taliadau Eraill Bandiau £5k £000**	**Buddion mewn Nwyddau / Gwasanae-thau (i'r £100 agosaf) £00**	**Buddion Pensiwn (i'r £1000 agosaf) £000**	Cyfanswm **(Bandiau £5k) £000**	**Cyflog (Bandiau £5k) £000**	**Taliadau Eraill Bandiau £5k £000**	**Buddion mewn Nwyddau / Gwasanae-thau (i'r £100 agosaf) £00**	**Buddion Pensiwn (i'r £1000 agosaf) £000**	Cyfanswm **(Bandiau £5k) £000**
D Griffiths	Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro o 2 Mawrth 2020	10-15	0	0		**10-15**					
R Evans	Cyfarwyddwr Meddygol o 4 Tachwedd 2018.	170-175	0	0	133	**305-310**	65-70	0	0	90	**155-160**
A Roeves	Cyfarwyddwr Meddygol Dros Dro o 1 Hydref 2018 hyd 1 Tachwedd 2018						10-15	0	0		**10-15**
P Mangat	Cyfarwyddwr Meddygol Dros Dro o 26 Gorffennaf 2018 hyd 1 Hydref 2018						35-40	0	0		**35-40**
H Laing	Cyfarwyddwr Meddygol hyd 31 Gorffennaf 2018						55-60	10-15	0		**70-75**
G Howells	Cyfarwyddwr Nyrsio a Phrofiad y Claf o 16 Gorffennaf 2018	130-135	0	0	106	**235-240**	90-95	0	0	181	**270-275**
A Hopkins	Cyfarwyddwr Nyrsio a Phrofiad y Claf Dros Dro o 4 Rhagfyr 2017 hyd 13 Gorffennaf 2018						80-85	0	0		**80-85**

Enwau	Teitlau	2019/20					2018/19				
